



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif:WG35754

**Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – dadansoddiad o ymatebion**

Adroddiad cryno terfynol

**Addysg yn y Cartref – Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol a Llawlyfr i
Addysgwyr yn y Cartref**

Rhagfyr 2019

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Am yr ymgynghoriad	3
Am yr ymatebion i'r ymgynghoriad	3
Y dull er mwyn dadansoddi	4
Am yr adroddiad hwn	5
Cwestiwn 1: canllawiau statudol drafft	6
Cwestiwn 2: cyfrifoldebau cyfreithiol (pennod 1)	10
Cwestiwn 3: nodi plant nad ydynt yn hysbys i'r awdurdod lleol (pennod 2).....	13
Cwestiwn 4: addysg effeithlon ac addas (pennod 3).....	21
Cwestiwn 5: gorchmynion mynychu'r ysgol a gorchmynion goruchwylio addysg (pennod 4)	38
Cwestiwn 6: cymorth addysgol (pennod 5)	45
Cwestiwn 7: diogelu (pennod 6).....	49
Cwestiwn 8: llawlyfr i addysgwyr yn y cartref	52
Cwestiwn 9: llawlyfr i addysgwyr yn y cartref	57
Cwestiwn 10: yr iaith Gymraeg	60
Cwestiwn 11: yr iaith Gymraeg	62
Cwestiwn 12: materion cysylltiedig	64
Sylwadau ychwanegol a wnaethpwyd gan ymatebwyr	67

Cyflwyniad

Comisiynwyd cwmni ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i ddadansoddi'r ymatebion a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar *Addysg yn y Cartref – Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol a Llawlyfr i Addysgwyr yn y Cartref*. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r dadansoddiad, gan nodi'r prif negeseuon a'r themâu a gyflwynir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Am yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau am gynnwys ac addasrwydd canllawiau statudol a gyhoeddwyd dan adran 436A Deddf Addysg 1996 i gynorthwyo awdurdodau lleol gyda threfniadau i asesu addasrwydd addysg a ddarperir i blant sy'n derbyn addysg yn y cartref. Roedd yr ymgynghoriad hwn hefyd yn ceisio safbwyntiau am gynnwys ac addasrwydd y pecyn cymorth i addysgwyr yn y cartref, gan gynnwys y llawlyfr i addysgwyr yn y cartref. Mae dogfennau llawn yr ymgynghoriad ar gael ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru.¹

Yn fyr, roedd yr ymgynghoriad yn ceisio safbwyntiau am y canlynol:

- **Canllawiau statudol drafft.** Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu canllawiau statudol drafft i gynorthwyo awdurdodau lleol i nodi plant a phobl ifanc nad ydynt ar gofrestr ysgol a gynhelir, nad ydynt ar gofrestr addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), nad ydynt ar gofrestr ysgol annibynnol ac nad ydynt yn cael 'addysg addas'. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio safbwyntiau am gynnwys ac addasrwydd y canllawiau hyn. Yn ogystal â chynnig eglurder am nodweddion 'addysg addas', mae'r canllawiau statudol yn cadarnhau'r ysgogiadau sydd ar gael at ddefnydd awdurdodau lleol pan na chaiff addysg addas ei darparu, gan nodi manylion y cymorth y gallai awdurdodau lleol sicrhau ei fod ar gael i addysgwyr yn y cartref.
- **Llawlyfr Drafft i Addysgwyr yn y Cartref.** Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio safbwyntiau rhanddeiliaid am gynnwys ac addasrwydd y Llawlyfr i Addysgwyr yn y Cartref hefyd. Mae hyn yn cynnwys: datblygu tudalen am addysg yn y cartref ar blatfform dysgu digidol Cymru, sef Hwb, help gyda chofrestru ar gyfer arholiadau, gwybodaeth ynghylch manteisio ar wasanaethau cyffredinol a chynnig cymorth Gyrfu Cymru.
- **Cronfa ddata addysg yn y cartref.** Ar 30 Ionawr 2018, amlinellodd y Gweinidog Addysg fwriad i ddatblygu rheoliadau a fydd yn mynnu bod awdurdodau lleol yn sefydlu cronfa ddata o blant er mwyn nodi'r rhai nad ydynt ar gofrestr ysgol, cofrestr EOTAS neu gofrestr ysgol annibynnol, ac nad ydynt yn cael addysg addas. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio safbwyntiau cychwynnol ar y cynigion hyn hefyd cyn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y rheoliadau drafft.

Yr ymatebion i'r ymgynghoriad

At ei gilydd, cafodd Llywodraeth Cymru 437 o ymatebion i'r ymgynghoriad:

- cafwyd 384 o'r rhain trwy'r ymgynghoriad ar-lein;

¹ [Llywodraeth Cymru, 2019, Addysg yn y cartref: canllawiau statudol i awdurdodau lleol a llawlyfr i addysgwyr yn y cartref](#)

- cafwyd 52 trwy neges e-bost; a
- chafwyd 1 ar bapur.

Roedd strwythur yr ymatebion a gafwyd mewn negeseuon e-bost neu ar bapur yn amrywio, gan ddilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad yn agos a/neu gynnig sylwebaeth am y llawlyfr a'r canllawiau drafft.

Roedd hyd yr ymatebion yn amrywio'n sylweddol hefyd, ynghyd â chyfanswm y dystiolaeth ategol neu'r sylwebaeth ategol a roddwyd.

Aeth Arad ati i gategoreiddio'r ymatebion yn saith categori o ymatebwyr (gyda chytundeb Llywodraeth Cymru). **O ganlyniad i amrywiadau sylweddol o ran nifer yr ymatebion ym mhob categori, mae angen gofal wrth ddehongli unrhyw ddadansoddiad am y gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol gategorïau o ymatebwyr.**

Categori	Nifer yr ymatebion	%
Unigolion (gan gynnwys addysgwyr yn y cartref) ²	386	88.3%
Awdurdodau lleol	16	3.7%
Trydydd sector	12	2.7%
Rhanddeiliaid addysg	9	2.1%
Sefydliadau addysg yn y cartref	7	1.6%
Sector iechyd	4	0.9%
Byrddau diogelu	3	0.7%
Cyfanswm	437	

Y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer dadansoddi

Adolygiad cychwynnol o sampl o ymatebion a datblygu fframwaith codio

Yn ystod y cam cychwynnol hwn, adolygwyd sampl o'r ymatebion i bob cwestiwn. Yn ystod y broses hon, aethpwyd ati i godio ymatebion, a oedd yn golygu labelu segmentau neu ymadroddion yn y testun gyda labeli byrion sy'n disgrifio ystyr y testun a'r prif bwyntiau a nodwyd mewn ymatebion. Bu'r ymchwilwyr yn adolygu o leiaf 30% o gyfanswm yr ymatebion i bob cwestiwn. Dewiswyd y rhain ar hap fesul cwestiwn unigol fel bod, er enghraifft, y sampl o 30% o'r ymatebion i Gwestiwn 1 yn cael eu tynnu o set wahanol o ymatebion i'r 30% a ddewiswyd ar gyfer Cwestiwn 2. Roedd y broses hon yn osgoi tuedd yn ystod y broses godio gychwynnol, gan sicrhau bod y broses yn cynnwys cyfran fawr o gyfanswm yr holl ymatebwyr.

Ar sail yr adolygiad cychwynnol o sampl o ymatebion, bu'r tîm ymchwil yn cydweithio i ddatblygu fframwaith cyffredinol ar gyfer gwaith dadansoddi thematig. Roedd y fframwaith hwn yn nodi'r prif themâu yr oeddent yn debygol o gael eu neilltuo o fewn cwestiynau unigol, yn ogystal â sicrhau cysondeb o ran y ffordd y cofnodir themâu tebyg ar draws gwahanol gwestiynau. Nid oedd y fframwaith hwn yn un sefydlog; roedd yn ddigon hyblyg i gael ei addasu a'i ddatblygu ymhellach wrth i'r tîm fynd ati i gynnal y dadansoddiad llawn o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

² Roedd nifer fach o ymatebion wedi dewis nodi eu hunain fel addysgwyr yn y cartref. Fodd bynnag, gan nas gofynnwyd i ymatebwyr nodi eu hunain fel addysgwyr yn y cartref yn benodol, mae'n debygol bod rhai o'r ymatebwyr unigol yn addysgwyr yn y cartref hefyd mewn gwirionedd. O'r herwydd, nid oedd modd rhannu'r rhai a nododd eu bod yn addysgwyr yn y cartref i gategori ar wahân.

Dadansoddiad o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad

Diben y cam hwn oedd cwblhau'r dadansoddiad o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, y cwestiynau caeedig (meintiol) a'r cwestiynau agored (ansoddol).

Dadansoddwyd y **data meintiol (h.y. data sy'n seiliedig ar gwestiynau caeedig)** o'r ymatebion a oedd yn dilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad. Roedd yr ymatebion meintiol hyn yn cynnwys atebion 'ydynt/ydy/dylai/dylid/oes/ydw', 'nac ydynt/nac ydy/na ddylai/na ddylid/nac oes/nac ydw' neu 'ansicr' i rai o gwestiynau'r ymgynghoriad. Ar achlysuron prin pan oedd ymatebydd wedi dewis mwy nag un ymateb, adroddir am hyn mewn troednodyn, ond ni chaiff ei gynnwys yn y data a gyflwynir.

Dadansoddwyd y **data ansoddol a oedd yn weddill (h.y. sylwadau ysgrifenedig)** trwy ddefnyddio'r fframwaith codio a ddatblygwyd yn ystod y cam adolygu cychwynnol. Defnyddiwyd cofnod tystiolaeth (ar ffurf taenlen) i osod prif themâu (unigol neu luosog) wrth bob ymateb unigol. Roedd y cofnod tystiolaeth hwn yn sicrhau bod holl aelodau'r tîm yn dadansoddi ac yn nodi themâu mewn ffordd gyson, a bod modd i reolwr y prosiect fonitro'r cynnydd cyffredinol. Ychwanegwyd unrhyw themâu newydd nas nodwyd yn ystod yr adolygiad cychwynnol, i'r fframwaith dadansoddi. Roedd y dull hwn yn caniatáu i nifer y themâu gael eu nodi. Yn ystod y cam hwn, nodwyd unrhyw gysylltiadau a chodau cydberthynol rhyngddynt, a nodwyd unrhyw wahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol categorïau o ymatebwyr.

Am yr adroddiad hwn

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn dilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad. Ym mhob achos, cyflwynir cwestiwn yr ymgynghoriad (ac is-gwestiynau) mewn blwch. Dilyniir hyn gan ganfyddiadau'r gwaith o ddadansoddi'r cwestiynau caeedig (ydynt/ydy/dylai/dylid/oes/ydw, nac ydynt/nac ydy/na ddylai/na ddylid/nac oes/nac ydw neu ansicr) pan ofynnwyd cwestiwn caeedig; mae cyfanswm yr ymatebion yn amrywio rhwng pob cwestiwn, gan nad oedd rhai ymatebwyr wedi cynnig ymateb i bob cwestiwn caeedig.

Yna, cyflwynir dadansoddiad o'r prif themâu sy'n codi mewn ymatebion penagored i bob cwestiwn. Unwaith eto, bydd cyfanswm yr ymatebion penagored yn amrywio o gwestiwn i gwestiwn, gan nad oedd rhai ymatebwyr wedi cynnig ymateb i bob cwestiwn penagored. Felly, mae'r cyfrannau a gyflwynir yn y dadansoddiad o bob cwestiwn yn ymwneud â'r cyfanswm a wnaeth sylwadau ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwnnw. Mae'r dadansoddiad yn gorffen gyda sylwebaeth fer am unrhyw wahaniaethau allweddol rhwng safbwyntiau gwahanol categorïau o ymatebwyr (gan gofio'r gwahaniaethau sylweddol rhwng niferoedd yr ymatebwyr ym mhob categori).

Trwy gydol yr adroddiad, tynnir y themâu a'r pwyntiau a gyflwynir o sylwadau a wnaethpwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad, ac nid ydynt yn cynrychioli safbwyntiau awduron yr adroddiad.

Cwestiwn 1: canllawiau statudol drafft

A yw'r canllawiau statudol drafft yn darparu gwybodaeth addas er mwyn galluogi awdurdodau lleol i asesu addasrwydd yr addysg y mae plant a addysgir yn y cartref yn ei chael?

Ydynt	Nac ydynt	Ansicr
16% (64)	72% (293)	13% (51)

n= 408

Yn ychwanegol i'r ymatebion i'r cwestiwn caeedig (ydynt/nac ydynt/ansicr), rhoddwyd 261 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Mae'n werth nodi yn arbennig bod cyfran fawr o'r ymatebion wedi manteisio ar y cyfle i fynegi eu safbwyntiau am ystod eang o themâu sy'n ymwneud ag addysg yn y cartref, ond y maent y tu hwnt i gwmpas y cwestiwn. Felly, mae'r themâu a amlinellir isod yn cynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiwn ac atebion eraill. Amlinellir y themâu hyn isod yn ôl amlder y cyfeiriadau atynt.

Roedd yr ymateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn yn ymwneud â chymwysterau ac addasrwydd aseswyr awdurdodau lleol (neu eraill) a fyddai'n pennu safon ac addasrwydd addysg yn y cartref. Mynegwyd y farn hon mewn tua chwarter o'r holl ymatebion ysgrifenedig ychwanegol. Roedd pryderon am y thema hon yn amrywio o'r diffyg hyfforddiant ac adnoddau sydd gan staff awdurdodau lleol ar hyn o bryd, a'r potensial ar gyfer diffyg dulliau cyson ar draws Cymru wrth asesu addysg yn y cartref.

Yn ogystal, barnwyd nad oedd aseswyr yn meddu ar arbenigedd ynghylch athroniaeth, ehangder a chynnwys addysg yn y cartref, ac roedd ymatebion yn amlinellu pryderon pellach ynghylch y diffyg eglurder am y ffordd o ddelio â dulliau addysg yn y cartref unigoleddig. Roedd ymatebion yn amlinellu pryderon hefyd ynghylch aseswyr yn penderfynu beth yw 'addysg addas' heb iddynt fod yn meddu ar wybodaeth am gefndir y rhieni unigol sy'n addysgu yn y cartref, a'u plant.

“Mae'n anodd pennu beth yw addysg addas, a gall hyn gael ei ddehongli a'i gamddechongli gan nad yw'n ddigon meintioledig er mwyn ffurfio barn ac asesiad ystyriol. Byddai bron yn amhosibl i swyddogion wneud gwerthusiad gwrthrychol.” (Awdurdod Lleol)

“Dim ond os cynhelir yr asesiad gan bobl sy'n gallu deall y gwahanol ddulliau addysgol a ddefnyddir gan addysgwyr yn y cartref, yn unol â fframwaith eglur o ddisgwyliadau sy'n adlewyrchu'r ddealltwriaeth hon, y gall ddarparu gwybodaeth addas. Nodir y disgrifiadau o ffurfiau amrywiol posibl addysg yn y cartref yn dda, ond pwy sy'n gallu cynnal yr asesiadau hyn, ac yna, eu cymedroli? Pa feini prawf a ddefnyddir i'w penodi a monitro eu gwaith? Ni ddarperir unrhyw fanylion am yr agwedd hanfodol hon ar y swyddogaeth a briodolir i'r ALI.” (Unigolyn)

Roedd un o bob pump o'r ymatebwyr yn barnu hefyd bod y canllawiau arfaethedig a'r broses gysylltiedig y maent yn ei chynorthwyo, yn mynd yn groes i elfennau CCUHP, y Ddeddf Hawliau Dynol a Deddf Addysg 1996. **Roedd ymatebion o'r farn bod y canllawiau yn 'dewis a dethol' neu'n 'gwyrdroi' agweddau ar y ddeddfwriaeth allweddol hon, gan anwybyddu prif elfennau eraill yr ystyrir eu bod yn cynorthwyo hawl rhiant i addysgu eu plentyn yn y cartref.** Felly, barnwyd bod y broses arfaethedig a gaiff ei hyrwyddo trwy'r canllawiau yn mynd y tu hwnt i bwerau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

“NID yw Adran 437(1) Deddf Addysg 1996 yn mynnu bod yr ALI yn teimlo'n fodlon bod plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas. Yr unig beth y mae'n mynnu yw gweithredu OS na fydd plentyn yn cael addysg o'r fath, ar ôl iddi ymddangos bod problem neu fethiant gan y rhieni i ddarparu addysg o'r fath i'w plentyn. O'r herwydd, nid yw'r gyfraith yn mynnu bod yr ALI yn asesu addasrwydd yr addysg y bydd yr holl blant sy'n derbyn addysg yn y cartref yn ei chael, gan nad yw dewis rhieni i addysgu eu plant yn y cartref yn golygu bod y plentyn yn cael addysg anaddas yn awtomatig (a mentraf ddweud, dim o'r fath beth!).” (Unigolyn)

Yn gysylltiedig gyda hyn, roedd tua un o bob pump o'r ymatebion o'r farn bod y canllawiau yn mynd yn groes i'w hawliau fel rhieni i ddarparu'r addysg orau i'w plant yn eu barn nhw. Roedd ymatebion yn amlinellu'r ffaith bod gan rieni yr hawl pennaf i benderfynu ar yr hyn sy'n cyfateb ag addysg addas ar gyfer eu plant, a bod y canllawiau yn tanseilio eu cyfrifoldebau ac yn ceisio 'cosbi'r' plant hynny nad ydynt yn cael addysg prif ffrwd ar hyn o bryd. **Barnwyd bod hwn yn cynrychioli dull anghymesur a'i fod yn tarfu ar breifatrwydd teuluoedd sy'n addysgu eu plant yn y cartref mewn ffordd ddianghenraid,** ac unwaith eto, cyfeiriwyd at hyn mewn tua un o bob pump o'r ymatebion ysgrifenedig.

“Yr unig achlysur pan fydd hi'n briodol i'r ALI ymchwilio a yw addysg yn addas neu beidio, yw pan dynnir eu sylw at y ffaith nad oes addysg yn digwydd o gwbl. Mae cwestiynu addasrwydd yr addysg y bydd plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yn ei chael yn rhywbeth dianghenraid er mwyn datgelu'r nifer fach nad ydynt yn llwyddo i wneud hynny.” (Unigolyn)

Pryder allweddol pellach oedd na ddylid bod gofyn i blant sy'n derbyn addysg yn y cartref ddarparu tystiolaeth i aseswyr. Mynegwyd hyn mewn ychydig dros un o bob pump o'r ymatebion. Roedd ymatebwyr o'r farn bod hyn yn mynd yn groes i hawliau plant ac y byddai'n eu rhoi mewn sefyllfaoedd llawn straen gydag unigolion y bernir, fel y nodwyd uchod, nad ydynt yn meddu ar y cymwysterau er mwyn asesu ansawdd ac addasrwydd addysg yn y cartref. Amlygwyd hyn yn arbennig yn achosion plant sydd ag AAA neu ADY neu'r rhai yr oeddent wedi cael profiadau gwael o fewn addysg prif ffrwd yn flaenorol. Barnwyd bod y broses hon yn cyfrannu ymhellach at stigma i blant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref.

“Nid ydw i'n ymwybodol o'r ffaith y rhoddir cyfarwyddyd i'r ALI siarad gyda phob plentyn ysgol i sicrhau eu bod yn fodlon bod yn y system ysgolion.

Bydd gorfodi ymweliadau â phlant sy'n derbyn addysg yn y cartref yn peri gofid ac maent yn ymwithiol, yn meithrin drwgdybiaeth ac yn gwahaniaethu yn erbyn plant sy'n derbyn addysg yn y cartref.” (Unigolyn)

Roedd tua un o bob pump o'r ymatebion o'r farn hefyd nad yw'r canllawiau ar hyn o bryd yn adlewyrchu cymhlethdodau a manteision a gwerth addysg yn y cartref neu'r rhesymau dros y ffaith bod rhai rhieni yn dewis addysg yn y cartref ar gyfer eu plant. Nododd ymatebion nad yw'r cwricwlwm cenedlaethol yn addas i bob plentyn o reidrwydd, er enghraifft y plant hynny sydd ag ADY neu AAA neu'r rhai nad ydynt wedi llwyddo yn yr ysgol. Roeddent yn cyfeirio hefyd at yr 'amrywiaeth ddulliau' o addysgu yn y cartref, sy'n canolbwyntio ar fudd y plentyn unigol ac sy'n rhoi sylw i wahanol gyfraddau a lefelau datblygu sgiliau, gan ganolbwyntio ar ddysgu mewn amrediad o amgylcheddau yn y cartref a thu allan i'r cartref.

“Mae angen bod yr Awdurdod Lleol yn gallu derbyn bod dysgu trwy gyfrwng Addysg yn y Cartref yn digwydd ar wahanol gyfraddau ac mewn gwahanol ffyrdd, ac na ddylid ei fesur yn erbyn dulliau a cherrig milltir a welir mewn ysgolion.” (Unigolyn)

Roedd un o bob deg o'r ymatebion o blaid datblygu dull sy'n fwy seiliedig ar bartneriaeth, gan ymddiried yn fwy mewn rhieni sy'n addysgu yn y cartref a pharchu eu gallu i sicrhau addysg addas ar gyfer eu plant. Roedd rhai ymatebion yn cysylltu'r dull hwn o gael partneriaethau gyda gweithgarwch gan rieni sy'n addysgu yn y cartref i baratoi tystiolaeth i ddangos bod eu plant yn cael addysg addas yn y cartref. Barnwyd bod llythyr i'r awdurdod lleol priodol yn cynrychioli prawf digonol o'r ffaith bod addysg yn digwydd.

Roedd **llai nag** un o bob deg o'r ymatebion wedi ychwanegu gwybodaeth ansoddol bellach yn cefnogi'r canllawiau statudol drafft. **Roedd yr ymatebion hyn o'r farn bod y canllawiau yn darparu gwybodaeth 'glir', 'manwl', 'defnyddiol' ac 'wedi'i hysgrifennu'n dda' i awdurdodau lleol er mwyn asesu addasrwydd darpariaeth addysg yn y cartref.**

Roedd ymatebion o'r farn hefyd ei bod yn bwysig bod y canllawiau yn canolbwyntio ar ddiogelu'r plentyn a nodi hawliau'r plentyn mewn ffordd glir. Roeddent yn nodi ei bod yn ymddangos bod y drafft yn cydymffurfio â CCUHP. **Barnwyd hefyd bod cynnwys cyfraith achosion o gymorth, yn ogystal â chysylltiadau gyda 'rhesymeg' glir a 'chyd-destun cyfreithiol' wrth ddiffinio'r hyn a ystyrir yn addysg addas gan Lywodraeth Cymru.** Adroddodd sawl ymateb bod y canllawiau yn cynrychioli'r hyn sy'n ofynnol er mwyn nodi a chynorthwyo teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn well.

“Mae'r canllawiau drafft yn cynnig arweiniad llawer cliriach yn y maes hwn ac mae o fudd eu bod yn cynnwys cyfraith achosion. Mae'r canllawiau am sut y gallai addysg addas edrych yn ddefnyddiol iawn. Bydd hyn yn caniatáu i Gynghorau ofyn cwestiynau penodol a bydd yn cynorthwyo wrth ffurfio barn wybodus ar sail yr hyn a gyflwynir.” (Awdurdod Lleol)

Roedd sylwadau pellach gan leiafrif o ymatebion (llai nag un o bob deg) yn cynnwys:

- diffiniadau gwell o addysg addas ac anaddas er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol gyda'u gwaith a darparu canllawiau cliriach i rieni sy'n darparu addysg yn y cartref

- mae angen eglurder o ran y sawl a fydd yn sicrhau'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) ar gyfer plant sy'n derbyn addysg yn y cartref ac y mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.
- byddai diffyg fframwaith asesu yn rhwystro awdurdodau lleol ac yn gwaethygu'r problemau o ran yr hyn a ystyrir yn addysg yn y cartref addas

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion a sefydliadau addysg yn y cartref yn llawer fwy tebygol na grwpiau o ymatebwyr eraill o anghytuno gyda'r cwestiwn a mynegi'r pryderon a drafodwyd yn yr adran uchod. Roedd awdurdodau lleol, rhanddeiliaid addysg, sefydliadau o'r sector iechyd a byrddau diogelu yn fwy tebygol o gytuno gyda'r cwestiwn.

Cwestiwn 2: cyfrifoldebau cyfreithiol (pennod 1)

A yw'r bennod hon yn nodi hawliau rhieni i addysgu eu plant yn y cartref yn glir, ynghyd â'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i nodi plant a gwneud ymholiadau am eu darpariaeth addysgol?

Ydy	Nac ydy	Ansicr
28% (113)	64% (255)	8% (32)

n= 400

Yn ychwanegol i'r ymatebion i'r cwestiwn caeedig (ydy/nac ydy/ansicr), rhoddwyd 217 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Roedd un o bob tri o'r ymatebion o'r farn nad yw'r bennod yn nodi hawliau rhieni sy'n addysgu plant yn y cartref, a'i bod yn hyrwyddo canllawiau a phrosesau sy'n treisio'u hawliau yn lle hynny. Roedd ymatebion yn amlygu'r ffaith y tariff ar eu preifatrwydd yn arbennig, a'r ffaith y tynnir hawliau i ffwrdd i benderfynu ar ffurf a chynnwys addysg eu plentyn. Yn ogystal, nododd ymatebion hawl rhieni i beidio cydymffurfio gydag awdurdodau lleol, ac roeddent o'r farn bod y bennod yn camddehongli hawliau plant i gael addysg, gan beri i'r wladwriaeth, yn hytrach na theuluoedd, fod yn gyfrifol am addysg, a defnyddio bygythiadau megis SAOs.

“Mae gan rieni ddyletswydd i ddarparu addysg i'w plentyn, nid hawl. Mae modd cyflawni'r ddyletswydd honno trwy anfon plentyn i ysgol neu drwy eu haddysgu yn y cartref. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i wneud ymholiadau os bydd ganddynt reswm dros gredu NAD yw plentyn yn cael addysg sy'n addas i oedran, gallu a dawn y plentyn.” (Unigolyn)

Roedd dros chwarter yr ymatebion o'r farn bod nodau'r bennod yn mynd y tu hwnt i'r dyletswyddau a ddisgwylir gan awdurdodau lleol a'r fframwaith deddfwriaethol y maent yn gweithredu ynddo. Roedd ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau yn y bennod yn camddyfyngu neu'n camfynegi cyfreithiau a dyletswyddau presennol awdurdodau lleol mewn perthynas ag ymyrryd â dewisiadau rhieni ynghylch addysg eu plant. Awgrymwyd mwy o waith mewn ffordd anffurfiol a chadarnhaol gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, ynghyd â ffocws ar nodi'r plant hynny nad ydynt yn cael addysg o unrhyw fath, fel dewisiadau gwell.

“Ni cheir deddfwriaeth gyfredol sy'n caniatáu i awdurdod lleol gael mynediad at blentyn oni bai y ceir pryder am les/diogelwch y plentyn hwnnw. Pa dystiolaeth sydd i gael bod plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref mewn mwy o berygl na phlant sy'n derbyn eu haddysg yn yr ysgol? Dim o gwbl.” (Unigolyn)

*“Dyletswydd yr ALI yw ymyrryd os bydd ganddynt reswm dros gredu *nad* oes addysg addas yn digwydd – nid yw hyn yr un fath â dyletswydd i ymyrryd er mwyn *asesu os* oes addysg addas yn digwydd.” (Unigolyn)*

Roedd tua chwarter yr ymatebion o'r farn bod tŷn y canllawiau yn y bennod yn negyddol tuag at deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn cynnwys y ffaith bod y cynigion yn trin plant sy'n derbyn addysg yn y cartref mewn ffordd anffafriol o'u cymharu â'u cyfoedion mewn ysgolion, a'u bod yn caniatáu gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail barn y wladwriaeth am ddewisiadau eu rhieni. Mae'r enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys plant sy'n derbyn addysg yn y cartref yn cael eu dewis am weithgarwch monitro neu gyfweiliadau arbennig, yr ystyriwyd ei fod yn cynrychioli dull anghymesur, gydag archwiliadau ychwanegol a straen ar gyfer y plant hyn.

“Realiti addysg yn y cartref yw ei fod yn ddigyffro ac yn hapus, ac yn cynnwys y cam o ystyried hawliau'r rhieni A'R plant. Mae'n waith caled ac mae'n rhyfeddol, mae'n diogelu plant rhag mympwyon a diffygion y system addysg a'r “gofal” y bydd plant yn ei gael pan fyddant yn yr ysgol. Y dybiaeth y mae'n ymddangos ei bod yn cymell y ddogfen hon yw'r ffaith nad yw mwyafrif y cyhoedd sy'n addysgu yn y cartref yn rhoi budd pennaf eu plant wrth wraidd hyn, ac mae hyn yn rhywbeth anghywir a hynod o sarhaus.” (Unigolyn)

Gwelwyd cyswllt agos rhwng yr ymatebion hyn a safbwyntiau bod y bennod yn camfynegi CCUHP neu'n 'dyfynnu mewn ffordd ddethol' o agweddau arni er mwyn cynorthwyo ei harweiniad a'i phrosesau. Roedd y rhain yn cynnwys safbwyntiau bod yr arweiniad yn mynd yn groes i Erthygl 5 CCUHP ar hyn o bryd, ac nad yw'n cydnabod hawliau a dyletswyddau rhieni; Erthygl 16 oherwydd y barnir bod y cynigion yn tarfu ar breifatrwydd a theulu y plentyn; ac Erthygl 2, sef bod y ffocws gwahaniaethol tybiedig ar blant sy'n derbyn addysg yn y cartref, yn sicrhau y cânt eu trin yn wahanol i blant a addysgir yn yr ysgol.

“Os ydych yn dyfynnu CCUHP, mae'n bwysig peidio dewis a dethol agweddau at ddibenion yr ymgynghoriad hwn. Mae Erthygl 5 yn nodi y bydd partion yn parchu cyfrifoldebau, hawliau a dyletswyddau rhieni i ddarparu, mewn ffordd sy'n cyd-fynd â galluoedd y plentyn sy'n esblygu, cyfeiriad a chyfarwyddyd priodol wrth i'r plentyn arfer eu hawliau a gydnabyddir yn y confensiwn presennol'. Dyletswydd y rhiant yw tywys y plentyn wrth arfer yr hawliau hynny, nid dyletswydd y llywodraeth.” (Unigolyn)

Ychwanegodd tua un o bob deg o'r ymatebion wybodaeth ansoddol a oedd yn cefnogi'r cynigion. **Barnwyd bod y bennod hon yn 'nodi mewn ffordd glir' yr hawliau a'r dyletswyddau priodol a bod ei nodau yn 'addas i ddefnyddwyr' a'i bod yn darparu gwybodaeth bellach am faterion megis ysgolion annibynnol a dyletswyddau i gofrestru'r lleoliadau hyn.** Gwnaethpwyd nifer o sylwadau hefyd am y ffaith bod y bennod yn dwyn eglurder i'r fframwaith cyfreithiol y gall awdurdodau lleol weithredu ynddo. Law yn llaw â'r safbwyntiau cadarnhaol hyn, fodd bynnag, gwelwyd rhai galwadau am fanylion pellach am ddyletswyddau rhieni sy'n addysgu yn y cartref.

“Er ei bod yn nodi'r sefyllfa gyfreithiol bresennol mewn ffordd glir, credwn yn gryf y dylid rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar rieni/gofalwyr i gofrestru eu bwriad i addysgu yn y cartref.” (Corff ieuchyd)

“(Mae'n) nodi hawliau rhieni mewn ffordd deg, fodd bynnag, mae'n mynd yn rhy bell trwy gymryd y bydd ALI yn monitro'r ddarpariaeth ac yn gallu cael mynediad i'r plentyn.” (Unigolyn)

“Mae'n hanfodol bod dyletswydd awdurdodau lleol i gynnal cronfa ddata o blant sy'n cael eu haddysgu y tu allan i ysgolion yn cyd-fynd gyda dyletswydd gyfatebol ar rieni i restru eu plant ar y gofrestr honno. Yn absenoldeb dyletswydd gyfreithiol o'r fath, bydd hi'n amhosibl i awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth fanwl a diogelu hawliau a buddiannau plant gan mai'r plant a fydd yn y perygl mwyaf fydd y rhai y mae eu rhieni yn lleiaf tebygol o ymrwmo i system gofrestru yn gyffredinol.” (Corff trydydd sector)

Roedd lleiafrif o ymatebion (llai nag un o bob deg) wedi mynegi safbwyntiau am y canlynol hefyd:

- Safbwyntiau bod y canllawiau yn gamarweiniol o ran nodi hawliau a dyletswyddau, ac mewn perthynas â chyrhaeddiad a phwerau deddfwriaethol awdurdodau lleol yn arbennig;
- Na chyfwelir plant ysgol er mwyn clywed eu safbwyntiau am eu haddysg, felly na ddylid rhoi plant sy'n derbyn addysg yn y cartref trwy brofiad a allai fod yn ymwithiol ac yn llawn straen
- Mae gofyn cael mwy o eglurder am hawliau a dyletswyddau awdurdodau lleol a rhieni, a sut y gorfodir y rhain yn unol â'r gyfraith.
- Bydd angen adnoddau ychwanegol ar awdurdodau lleol er mwyn cynnal proses asesu ac er mwyn hyfforddi staff o ganlyniad, wrth ymgysylltu ymhellach gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref;
- Ceir problemau heb eu datrys ynghylch diogelu data, sy'n ymwneud â rhannu a storio gwybodaeth am deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref;
- Bydd y dull arfaethedig yn arwain at stigma ar gyfer plant sy'n derbyn addysg yn y cartref, ac mae'n creu dryswch ynghylch diogelu.

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion a sefydliadau addysg yn y cartref yn fwy tebygol na grwpiau o ymatebwyr eraill o anghytuno gyda chynnwys y bennod a mynegi'r pryderon a drafodwyd yn yr adran berthnasol uchod. Roedd awdurdodau lleol, rhanddeiliaid addysg, sefydliadau o'r sector iechedd a byrddau diogelu yn fwy tebygol o gytuno gyda chynnwys y bennod, er bod rhai unigolion wedi mynegi cefnogaeth hefyd. Roedd awdurdodau lleol, byrddau diogelu a rhanddeiliaid addysg yn gofyn am fwy o eglurder mewn rhai meysydd.

Cwestiwn 3: nodi plant nad ydynt yn hysbys i'r awdurdod lleol (pennod 2)

A yw'r bennod hon yn amlinellu'n glir y gofyniad dan Adran 436A Deddf Addysg 1996 bod awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau i'w galluogi i nodi, i'r graddau ag y bo modd gwneud hynny, manylion y plant yn eu hardaloedd nad ydynt yn cael addysg addas?

Ydy	Nac ydy	Ansicr
25% (98)	62% (245)	14% (55)

n= 398

Yn ychwanegol i'r ymatebion i'r cwestiwn caeedig (ydy/nac ydy/ansicr), rhoddwyd 213 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Mynegwyd pryderon gan dros un o bob tri o'r ymatebion ynghylch casglu, storio a defnyddio data gan awdurdodau lleol ac asiantaethau cysylltiedig megis GIG a gwasanaethau cymdeithasol. I rai ymatebwyr, mae'r cynnig hwn yn 'enghraifft glir o dorri amodau' y Ddeddf Diogelu Data a GDPR presennol, ac mae rhai yn cwestiynu'r rôl a ragwelir ar gyfer gweithwyr iechedd proffesiynol, wrth drosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol. Nododd eraill nad yw'r canllawiau yn nodi'n glir y rhennir data dim ond pan fydd risg sylweddol i'r plentyn.

“Mae hwn yn destun pryder. Efallai y bydd teuluoedd sy'n dymuno parhau i addysgu yn y cartref yn osgoi mynychu cyfleusterau GIG er mwyn parhau heb ymyrraeth, yna gallai hyn beri problemau na fyddent wedi bodoli o'r blaen. Cyn gynted y bydd rhywun yn mynd y tu hwnt i GDPR, bydd y difrod wedi cael ei wneud, ac mae hyn yn debygol o ddigwydd pan na fydd galw amdano.” (Unigolyn)

Pryder allweddol arall oedd y dybiaeth bod y canllawiau yn drysu rhwng addysg yn y cartref i blant a'r rhai nad ydynt yn cael unrhyw addysg o gwbl. Mynegwyd yr ymateb hwn mewn chwarter o'r ymatebion, a barnwyd ei fod yn rhan o 'bolisi cyffredinol' o wahaniaethu yn erbyn rhieni sy'n addysgu yn y cartref, a'u plant. Roedd sylwadau pellach yn cynnwys bod canllawiau yn 'ymyrryd' a'u bod yn 'ddull anghymesur' sy'n tybio bod plentyn mewn mwy o risg oherwydd eu statws fel plentyn sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref. Nododd rhai ymatebwyr nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref (EHE) mewn mwy o berygl o ddioddef niwed na phlant mewn ysgolion, ac y gallai'r risgiau fod yn llai.

“Mae angen rhoi sylw ar wahân i blant nad ydynt yn cael addysg. Teimlaf nad yw'n addas ei gynnwys mewn dogfen am addysg yn y cartref, a bod hyn yn gwthio'r gymuned addysgu yn y cartref ymhellach i'r cyrion trwy ein rhoi mewn grŵp gyda rhianta esgeulus.” (Unigolyn)

Roedd tua un o bob pump o'r ymatebion wedi beirniadu'r canllawiau am gysylltu addysg yn y cartref gyda phryderon diogelu hefyd. Amlinellodd ymatebwyr y dylid

ystyried addysg yn y cartref fel dewis dilys, ac roeddent yn teimlo'n ddig am y dybiaeth sy'n ymddangos yn y canllawiau yn eu barn nhw, sef bod plant sy'n derbyn addysg yn y cartref mewn mwy o berygl. Barnwyd bod hyn yn nodweddiadol o ddull sy'n peri rhwyg, a allai effeithio ar deuluoedd sydd eisoes yn teimlo eu bod yn destun gwahaniaethu, a'u gwthio i ffwrdd wrth unrhyw wasanaethau a chymorth ychwanegol y mae eu hangen arnynt.

“Nid yw Addysg yn y Cartref ynddo'i hun yn rheswm dros gredu bod plentyn mewn perygl o ddiodeff niwed o unrhyw fath. Ni ddylai staff ysbyty, staff meddygon teulu, optegwyr, deintyddion ac ati fod yn eu hystyried yn y fath ffordd, ac yn bendant, ni ddylent fod yn rhannu gwybodaeth o'r fath gyda'r ALI neu gydag unrhyw asiantaethau eraill.” (Unigolyn)

Roedd themâu eraill a fynegwyd mewn tua un o bob deg o'r ymatebion yn cynnwys:

- Safbwyntiau nad yw'r hyn a gynigir yn gyfreithlon o ran gweithgarwch rhannu a chasglu data a gynlluniwyd, a monitro teuluoedd sy'n darparu addysg yn y cartref;
- Roedd safbwyntiau yn nodi bod yr hyn a gynigir yn camfynegi dyletswyddau a rolau awdurdodau lleol mewn perthynas â chasglu a rhannu data am deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref;
- Beirniadaeth o system addysg y wladwriaeth o ran ei hansawdd, ei chyllid a'i gallu i ddarparu rhaglen effeithiol gyda phlant AAA/ADY.

Roedd ymatebion eraill a amlygwyd gan leiafrif o'r ymatebion (llai nag un o bob deg o'r ymatebion) yn cynnwys:

- Mae gofyn cael canllawiau ac eglurhad pellach gan gynnwys ynghylch rhannu data a diben a chyrchfan y data hwn er mwyn cynorthwyo'r cynnig
- Barnir bod y diffiniad o 'addysg addas' yn amwys ac y gellir ei ddehongli mewn sawl ffordd, ac mae gan hyn y potensial i greu gwrthdaro yn y dyfodol ac i wneud gwaith asesu yn anos
- Safbwyntiau y dylid canolbwyntio ar achos rhesymol cyn gweithredu yn erbyn teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, ac na ddylid ystyried addysg yn y cartref fel achos rhesymol ynddo'i hun.
- Mynegwyd cefnogaeth ar gyfer cydweithio gan asiantaethau, gan nodi gwerth cydweithredu rhwng addysg, iechyd a sefydliadau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo ymgysylltu gwell gyda gwasanaethau.

Roedd lleiafrif o'r ymatebion (llai nag un o bob deg) yn barnu y gallai'r dull arfaethedig arwain at gydweithio a phartneriaethau gwell rhwng asiantaethau sy'n ymgysylltu gyda phlant a theuluoedd. Roedd rhai ymatebion yn cynnig cefnogaeth amodol hefyd, tra'n galw am eglurder ychwanegol am y data a rennir ac at ba ddiben, a nododd sawl un mai'r unig adeg y dylai rhannu data fod yn gyfreithlon yw pan fydd plentyn mewn perygl o ddiodeff niwed sylweddol. Roedd pwyntiau eraill a fynegwyd er mwyn cefnogi'r cynnig yn cynnwys datblygu canllawiau ymarferol ar gyfer Cynlluniau Cymorth Unigol (ISPs) ac eglurder pellach i awdurdodau lleol wrth reoli pwyntiau pontio a defnyddio'r Gronfa Ddata Disgyblion Coll gyda swyddogion cyfatebol yn Lloegr.

“Mae'r Canllawiau yn amlygu'r ffaith y dylai awdurdodau lleol fod yn greadigol ac yn rhagweithiol wrth nodi plant er mwyn sicrhau'r cwmpas gorau ag y bo modd. Fel awdurdod, rydym yn croesawu sawl un o'r argymhellion yn yr adran hon hefyd, yn enwedig meysydd sy'n ymwneud â

chydweithio. Mae'n amlwg y byddai cydweithio gwell rhwng asiantaethau o fudd wrth adnabod dysgwyr nad ydynt yn cael addysg addas ar hyn o bryd.”
(Awdurdod lleol)

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion a sefydliadau addysg yn y cartref yn llawer mwy tebygol na grwpiau ymatebwyr eraill o anghytuno gyda'r cwestiwn, a mynegi'r pryderon a drafodwyd yn yr adran uchod. Roedd awdurdodau lleol, rhanddeiliaid addysg, sefydliadau o'r sector iechyd a byrddau diogelu yn fwy tebygol o gytuno gyda'r cwestiwn – a chefnogi'r syniad ynghylch cydweithio rhwng asiantaethau – fodd bynnag, roedd rhai yn galw am fwy o fanylder ac eglurder ynghylch prosesau casglu data, cymwyseddau deddfwriaethol a diogelu.

Yn eich barn chi, a yw datblygu cronfa ddata yn ddull rhesymol a chymesur?

Ydy	Nac ydy	Ansicr
19% (80)	72% (299)	9% (37)

n= 416

Yn ychwanegol i'r ymatebion i'r cwestiwn caeedig (ydy/nac ydy/ansicr), rhoddwyd 261 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Roedd chwarter yr ymatebion yn mynegi safbwyntiau cryfion yn erbyn datblygiad cronfa ddata genedlaethol, gan ei chysylltu gyda chronfa ddata troseddwyd rhyw a chan dybio y byddai'r dull arfaethedig yn cyfateb teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref gyda'r grŵp hwn o droseddwyd. Barnwyd y byddai hwn yn ymateb anghymesur iawn a fyddai'n gwneud cyfraniad pellach i'r stigma a'r difenwi y mae teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, a'u plant, yn ei wynebu. **Roedd ychydig yn llai nag un o bob pump o'r ymatebion yn cwstyfnu cyfreithlondeb dull o'r fath**, ac roeddent o'r farn ei fod yn afresymol ac na fyddai modd ei orfodi, ac y byddai'n arwain at chwalu'r cyfathrebu a'r ymddiriedaeth rhwng awdurdodau lleol a theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ymhellach.

“Er ei fod yn fater i bob awdurdod lleol benderfynu a ydynt yn dymuno cadw cronfa ddata leol o blant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref, er mwyn eu helpu i ddarparu cymorth i deuluoedd, ni cheir sail deddfwriaethol dros greu cronfa ddata genedlaethol i'w rhannu naill ai gydag awdurdodau eraill, asiantaethau partner neu drydydd partion. Yr unig gronfa ddata orfodol yr wyf yn ymwybodol ohoni yw'r un ar gyfer troseddwyd rhyw cofrestredig.”
(Unigolyn)

Yn gysylltiedig gyda'r themâu hyn, roedd ychydig dan un o bob pump o'r ymatebion yn barnu bod creu cronfa ddata yn tarfu ar fywydau preifat teuluoedd. Roedd yr ymatebion yn cynnwys tybiaethau ynghylch tuedd ac erledigaeth addysg yn y cartref, ac y dylai unrhyw gyswllt gan awdurdodau lleol fod yn ymwneud â materion diogelu neu les yn unig. Yn gyffredinol, barnwyd na fydd y gronfa ddata yn arwain at wasanaeth neu gymorth gwell i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, ac roedd ymatebion yn barnu na fydd mwy o

drosolwg gan awdurdodau lleol o'u plant yn arwain o reidrwydd at gynigion go iawn i helpu teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref.

“Mae addysgu yn y cartref yn ddewis cyfreithlon i rieni a phlant. Ceir perygl go iawn y bydd cronfa ddata o'r fath yn tarfu ar hawl plentyn i breifatrwydd.

Mae preifatrwydd a chyfrinachedd yn bodoli am reswm. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo gan blant drawma yn eu cefndir. Ni ddylai eu stori neu fanylion amdanynt fod ar gael i swyddogion nad ydynt wedi cael caniatâd, hyfforddiant, profiad na dealltwriaeth o'u profiadau penodol nhw.” (Unigolyn)

Amlygwyd cymhlethdodau gweithgarwch casglu data a diogelu data hefyd mewn ychydig dros un o bob pump o'r ymatebion. Roedd cysylltiadau gyda sylwadau a wnaethpwyd yn yr ymatebion i'r adran flaenorol yn mynegi pryder ynghylch sicrhau uniondeb systemau awdurdodau lleol a sut y caiff data ei gasglu, ei storio a'i ddefnyddio. Yn ogystal, roedd ymatebion yn barnu bod rhannu data rhwng amrediad o asiantaethau a ffynonellau yn gallu arwain at fwy o risg mynediad diawdurdod at ddata a mynegwyd pryderon ynghylch storio'r data hwn mewn ffordd ddiogel a phroblemau diogelu posibl sy'n gysylltiedig ag unrhyw gamddefnydd neu ddatgeliadau posibl heb ganiatâd.

Roedd tua un o bob chwech o'r ymatebion yn barnu hefyd bod y cynigion ynghylch cronfa ddata yn mynd y tu hwnt i ddyletswyddau a phwerau deddfwriaethol cyfredol awdurdodau lleol. Roedd ymatebion yn barnu bod y gyfraith eisoes yn sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu plant (trwy Adran 437) a rhoi rhyddid digonol i rieni er mwyn iddynt fodloni anghenion addysgol eu plant.

Roedd yr ymatebion hyn yn nodi hefyd bod gan awdurdodau lleol systemau mewnol, a'u bod yn cynnal y rhain er mwyn cynorthwyo gwasanaethau yn eu hardal leol. Mynegwyd rhai safbwyntiau hefyd (llai nag un o bob deg) am gostau cynnal ymarfer o'r fath a'r effaith negyddol bosibl ar wasanaethau cymdeithasol oherwydd yr adnoddau a'r cyllid a fyddai'n cael eu cyfeirio i'r cynllun.

Roedd themâu eraill a fynegwyd gan tua un o bob deg o'r ymatebion yn cynnwys:

- Mae'r cynnig ynghylch cael cronfa ddata yn debygol o danseilio'r ymddiriedaeth rhwng rhieni sy'n addysgu yn y cartref ac awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill, ac fe allai arwain at lai o ymgysylltu yn y dyfodol, a allai niweidio'r plant y mae'r broses yn ceisio'u diogelu;
- Safbwyntiau bod y cynigion yn cynrychioli dull sy'n anghymesur â'r broblem a nodwyd, a bod rhieni sy'n addysgu yn y cartref yn cael eu monitro a'u bod yn destun gwahaniaethu, gan beri straen dianghenraid iddynt wrth iddynt fanteisio ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol eraill.

Roedd nifer o'r rheiny a atebodd 'ydy' wedi ychwanegu gwybodaeth ansoddol bellach a oedd yn cefnogi'r canllawiau statudol drafft. **Roedd yr ymatebion hyn yn barnu bod y canllawiau yn cynnig 'ymateb cadarnhaol, 'rhesymol' a 'chymesur' a'u bod yn 'hanfodol' er mwyn sicrhau y diogelir hawliau plant.** Barnwyd bod y gronfa ddata arfaethedig yn offeryn pwysig er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i olrhain dysgwyr agored i niwed, ac y byddai'n caniatáu trosolwg cynhwysfawr o'r holl blant oedran ysgol, gan ddarparu gwybodaeth er mwyn eu cynorthwyo nhw a'u teuluoedd, gan ddarganfod pa fath o addysg a ddarperir.

“Mae cronfa ddata yn ddull rhesymol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon ac er mwyn cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru tuag at bob plentyn. Er nad oes angen i blant fynychu ysgol, mae'n rhesymol cymryd y byddai cronfa ddata yn caniatáu i Gymru annog plant nad ydynt yn mynychu ysgol i gymryd rhan mewn addysg ffurfiol, ac i ddeall pa blant sy'n cael addysg addas yn y cartref, ac felly, nad oes angen eu hannog i ddychwelyd i'r ysgol.” (Sefydliad trydydd sector)

Roedd rhai ymatebion yn cynnig cefnogaeth a oedd yn fwy amodol, gan nodi y dylai rhieni fod yn gallu dewis cael eu cynnwys mewn cronfa ddata o'r fath neu beidio, a rhoi eu caniatâd i'r cam o rannu data. Yn ogystal, roedd rhai ymatebion yn galw am fwy o fanylder am y math o wybodaeth a chwmpas y wybodaeth y disgwylir i awdurdodau lleol ei dal, pa mor aml y bydd angen ei chasglu a'i diweddarau, sut y caiff caniatâd ei sicrhau, yn ogystal â mesurau cydymffurfio â GDPR. Barnir bod gan y gwaith o weinyddu'r gronfa ddata oblygiadau i adnoddau awdurdodau lleol, a barnwyd bod cydweithio rhwng asiantaethau yn rhywbeth hanfodol, pan fo adnoddau'n caniatáu hynny.

Roedd ymatebion eraill a amlygwyd gan leiafrif o'r ymatebion (llai nag un o bob deg) yn cynnwys:

- Roedd sylwadau ychwanegol yn cysylltu hyn gyda mabwysiadu ymagwedd fwy cadarnhaol, gan weithio gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref er mwyn darganfod datrysiadau y gallant fod yn dderbyniol i bawb a rhoi plant wrth wraidd y broses;
- Safbwyntiau bod y gronfa ddata yn cynrychioli ymateb cymesur a'i bod yn elfen hanfodol wrth sicrhau bod plant yn cael diogelwch a'u hawliau;
- Bydd y gronfa ddata yn cynorthwyo ymwybyddiaeth o addysg a symudiadau plant, a bod hyn o fudd i awdurdodau lleol er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau statudol, a sicrhau bod plant yn eu hardal yn cael addysg addas;
- Canllawiau cliriach ynghylch diogelu data, sy'n gysylltiedig gyda sylwadau a wneir ym mhennod 3;
- Swm llai o sylwadau eraill ynghylch y ffaith bod y cynnig yn wastraff arian ac y dylid defnyddio'r cyllid i wella gwasanaethau cymdeithasol yn lle hynny.

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion a sefydliadau addysg yn y cartref yn llawer mwy tebygol na grwpiau ymatebwyr eraill o anghytuno gyda'r syniad o gael cronfa ddata, ac maent yn mynegi'r pryderon a drafodwyd yn yr adran uchod. Roedd awdurdodau lleol, rhanddeiliaid addysg, sefydliadau o'r sector iechyd a byrddau diogelu yn fwy tebygol o gytuno gyda'r gronfa ddata arfaethedig a'i manteision posibl er mwyn olrhain dysgwyr agored i niwed, fodd bynnag, roedd rhai yn galw am fwy o fanylion ac eglurhad ynghylch prosesau casglu a rhannu data, caniatâd ac adnoddau.

Yn eich barn chi, a ddylai system fod mewn grym sy'n mynnu bod ysgolion annibynnol a byrddau iechyd lleol yn rhannu gwybodaeth benodedig gyfyngedig gydag awdurdodau lleol, er mwyn eu galluogi i nodi plant nad ydynt yn hysbys iddynt, er mwyn gwneud trefniadau i sicrhau bod y plant hyn yn cael addysg addas?

Os 'na ddylai', sut fydddech chi'n awgrymu bod yr awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r gofyniad i nodi plant nad ydynt yn hysbys iddynt er mwyn gwneud trefniadau i sicrhau bod y plant hyn yn cael addysg addas?

Dylai	Na ddylai	Ansicr
19% (78)	73% (303)	8% (32)

n= 413

Yn ychwanegol i'r ymatebion i'r cwestiwn caeedig (dylai/na ddylai/ansicr), rhoddwyd 295 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Roedd tua un o bob pump o'r ymatebion yn beirniadu cynigion i rannu data rhwng asiantaethau iechyd ac awdurdodau lleol. Amlinellwyd amrediad o bryderon mewn ymatebion, gan gynnwys cyfrinachedd data cleifion, y ffaith bod hyn yn mynd yn groes i godau ymarfer cyfredol a phryderon ynghylch diogelu data. Barnwyd y gallai'r dull hwn roi plant mewn perygl trwy beri i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref beidio manteisio ar ofal iechyd. Byddai'n creu amgylchedd anghyffyrddus i weithwyr iechyd proffesiynol ac addysg yn y cartref hefyd, a barnwyd bod hwn yn rhwystr pellach y byddai teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn ei wynebu.

“Y rhan a oedd yn peri pryder i mi oedd yr awgrym y byddai gofyn i fyrddau iechyd lleol ddatgelu gwybodaeth i awdurdod lleol am blant yn eu hardal. Yn gam neu'n gymwys, mae rhai yn y gymuned addysgu yn y cartref yn amheus iawn o awdurdodau lleol a'u dull er mwyn eu hasesu nhw a'u teuluoedd. Rydw i'n gofidio y gallai gweithredu rheoliadau o'r fath wthio rhai teuluoedd i ffwrdd o ddarpariaeth iechyd y cyhoedd hyd yn oed.” (Unigolyn)

Ymhlith yr ymatebion yn erbyn y cynnig, un pwynt cyffredin a godwyd oedd nad oes gofyn i awdurdodau lleol nodi plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref dan fframweithiau cyfreithiol presennol, a chodwyd hyn gan bron i un o bob pump o'r ymatebion. Roedd rhai ymatebion yn cwestiynu dehongliad y canllawiau o Ddeddf Addysg 1996, ac roeddent yn barnu bod y gofyniad i rannu gwybodaeth dim ond pan fydd gan yr awdurdod lleol reswm dros gredu bod plentyn mewn perygl sylweddol o ddioddef niwed, yn ddehongliad mwy cywir. Roedd ymatebion yn nodi sianelau addas ac effeithiol eraill i nodi plant mewn perygl o gael eu hesgeuluso, gan gynnwys yr arbenigedd sy'n bodoli eisoes o fewn y gwasanaethau cymdeithasol.

“Mae'r cwestiwn hwn yn gorbwysleisio cyfrifoldebau'r awdurdod lleol. Mae Deddf Addysg 1996 yn diffinio'n glir mai'r rhiant, nid yr ALI, sy'n gyfrifol am addysg eu plentyn. Nid oes gan yr ALI gyfrifoldeb na hawl i ymchwilio i addasrwydd yr addysg y mae plentyn sy'n derbyn addysg yn y cartref yn ei chael pan na cheir unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r addysg yn addas.” (Unigolyn)

Roedd cysylltu addysg yn y cartref a diogelu yn thema allweddol arall yn yr ymatebion, wrth i ychydig yn llai nag un o bob pump o'r ymatebion godi'r thema hon. Roedd yr ymatebion yn cynnwys amrediad o safbwyntiau a oedd yn amlinellu'r ffaith nad yw addysg yn y cartref yn rheswm ynddo'i hun dros gredu bod plentyn yn destun camarfer neu

bod eu hawliau'n cael eu gwadu, ac nid yw'n cyfiawnhau amharu ar fywydau teuluol yn y fath ffordd. Teimlwyd y byddai'r broses hon yn bwrw teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref i'r mylon ymhellach, ac unwaith eto, barnwyd bod hwn yn ymateb annheg ac anghymesur i rieni sy'n addysgu yn y cartref. Barnwyd hefyd y gallai rhannu data heb fod yna bryderon go iawn ynghylch iechyd a diogelu, niweidio'r berthynas rhwng teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref a darparwyr gofal iechyd.

Nododd dros un o bob deg o ymatebion bod awdurdodau lleol yn gallu troi at gofrestrau genedigaethau a chofnodion derbyn i ysgolion a chofnodion am y sawl sy'n gadael ysgolion ar hyn o bryd, er mwyn cynorthwyo eu prosesau a'u strategaethau diogelu. Roedd ymatebion yn barnu felly y dylai ALLau barhau i ddefnyddio'r 'holl ffyrdd cyfreithlon presennol' o droi at wybodaeth am blant. Unwaith eto, roedd rhai ymatebion yn ailadrodd mai'r ffordd orau o gasglu'r wybodaeth hon fyddai i ddarparu amgylchedd cadarnhaol ac agored lle y byddai'r sawl sy'n addysgu yn y cartref yn cyflwyno'r wybodaeth hon o'u gwirfodd ac y byddent yn falch o wneud hynny. Amlygwyd hefyd nad oes gan nifer o awdurdodau lleol unrhyw system neu gyllid mewn grym i gynorthwyo teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, felly nid ydynt yn gweld rheswm dros ymgysylltu ar hyn o bryd.

“Credaf bod mecanweithiau digonol eisoes yn bodoli er mwyn nodi plant sy'n cael eu hesgeuluso/cam-drin (sef pryderon yr ALLau yn y bôn). Yn yr achosion hyn, mae gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol y pwerau angenrheidiol dan y gyfraith bresennol yn barod. Nid oes gofyn cael unrhyw ddeddfwriaeth bellach a'r unig beth y byddai hyn yn ei wneud fyddai rhoi baich ddianghenraid ar yr awdurdod lleol.” (Unigolyn)

Roedd amrediad o ymatebion yn cynnwys sylwadau ansoddol pellach i gefnogi'r cynnig a amlinellwyd. I rai ymatebwyr, mae cyfuno gwybodaeth awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd yn 'ddull doeth' a 'hanfodol', ac y dylid gweithredu protocolau rhannu er mwyn casglu data ar draws Cymru. **Roedd llai na un o bob deg o'r ymatebion yn barnu y gallai rhannu gwybodaeth fod o gymorth wrth gynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni gofynion i nodi plant nad ydynt yn hysbys i'r system addysg.** Ychwanegodd rhai ymatebwyr y dylai 'dulliau tryloyw ac atebol' fod yn glir ynghylch cyfrifoldebau systemau dal a chasglu data er mwyn rhoi sylw i unrhyw bryderon ynghylch diogelu data.

“Teimlwn bod system i rannu gwybodaeth yn hanfodol fel y gall yr awdurdodau lleol nodi'r holl blant yn eu hardal er mwyn sicrhau bod eu hawliau mewn perthynas ag addysg a chael eu diogelu rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod yn cael eu gwireddu.” (Sefydliad o'r trydydd sector)

Roedd themâu eraill a fynegwyd gan tua un o bob deg o'r ymatebion yn cynnwys:

- Amrediad o sylwadau a oedd yn ymwneud â'r ffaith mai rhieni sy'n gyfrifol am addysgu plant, nid y wladwriaeth;
- Bod systemau diogelu eisoes mewn grym mewn awdurdodau lleol, y maent yn ymwneud â nodi plant sydd mewn perygl o ddiodef niwed, ac y dylid defnyddio'r systemau hyn yn hytrach na datblygu systemau newydd sy'n targedu teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn unig;

- Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, roedd ymatebion yn barnu bod systemau diogelu cyfredol yn ddigonol o ran y ffordd y maent yn gweithio ar draws asiantaethau lluosog, gan amlygu plant y bernir eu bod mewn perygl mewn ffordd effeithiol;
- Amlygwyd canlyniadau difrifol i blant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref o ran stigma parhaus a diffyg mynediad i wasanaethau cymdeithasol hanfodol i'r rhai sydd ag AAA neu ADY neu y maent wedi dioddef profiadau trawmatig gydag addysg yn y gorffennol, fel canlyniadau posibl diffyg cydweithredu parhaus.

Roedd themâu eraill a godwyd gan leiafrif (llai nag un o bob deg o'r ymatebion) yn cynnwys:

- Barnwyd bod gweithio gyda byrddau iechyd lleol (BILlau) fel rhan o ddull ehangach ar y cyd gan asiantaethau er mwyn cynorthwyo hawliau plant, yn fodel sy'n werth ei ystyried er mwyn cynorthwyo hawliau a lles plant yng Nghymru;
- Gwnaethpwyd galwadau i ddatblygu cysylltiadau gwell gyda rhieni sy'n addysgu yn y cartref trwy gyfaddawdu, cyfathrebu, cymorth ymarferol ac ariannol a mesurau eraill er mwyn meithrin hyder a gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo a pharchu hawliau plant.

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion a sefydliadau addysgu yn y cartref yn llawer mwy tebygol na grwpiau ymatebwyr eraill o anghytuno gyda'r syniad o gael cronfa ddata ac o fynegi'r pryderon a drafodwyd yn yr adran uchod. Roedd awdurdodau lleol, rhanddeiliaid addysg, sefydliadau o'r sector iechyd a byrddau diogelu yn llawer mwy tebygol o gytuno gyda'r dull arfaethedig a'i fanteision posibl er mwyn nodi ac olrhain dysgwyr agored i niwed a chydweithio rhwng asiantaethau er mwyn cynorthwyo dull ar draws Cymru gyfan.

Cwestiwn 4: addysg effeithlon ac addas (pennod 3)

Dylai teuluoedd sy'n dewis addysgu yn y cartref fod yn gallu cynnig addysg addas o'r cychwyn a dylent fod wedi gwneud paratodau yn unol â'r nod hwn. Wedi dweud hynny, a ydych chi'n credu y dylid cael cyfnod rhesymol i deuluoedd addasu cyn i'r awdurdod lleol ystyried a oes addysg addas yn cael ei darparu? Os 'dylid', nodwch yr hyn a fydddech chi yn ei ystyried yn gyfnod rhesymol?

Dylid	Na ddylid	Ansicr
78% (317)	17% (67)	5% (22)

n= 406

Er bod y cwestiwn yn gofyn i ymatebwyr roi sylwadau ysgrifenedig pe byddent wedi ateb 'dylid' i'r cwestiwn caeedig, dewisodd ymatebwyr a oedd wedi ateb 'na ddylid' ac 'ansicr' wneud sylwadau hefyd. Felly, adlewyrchir eu safbwyntiau nhw yn y sylwadau isod; mae'n werth nodi yn arbennig mai ychydig iawn o'r rhai a atebodd 'na ddylid' oedd wedi ateb fel hyn oherwydd eu bod yn teimlo na ddylid cael cyfnod i addasu. Felly, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r ymatebion caeedig i'r cwestiwn hwn, o ganlyniad i'r ffordd y mae'r ymatebwyr eu hunain wedi dehongli'r cwestiwn.

Yn ychwanegol i'r ymatebion i'r cwestiwn caeedig (dylid/na ddylid/ansicr), rhoddwyd 361 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Roedd bron i dri chwarter yr ymatebion wedi rhoi rhyw syniad o'r hyn y byddai modd ei ystyried yn gyfnod addasu rhesymol. Amcangyfrifon bras oedd y cyfnodau a argymhellwyd, a nododd ymatebwyr y gallai cyfnod rhesymol fod yn *hyd at, o leiaf neu tua* gyfnod penodol. Dylid ystyried y cyfnod rhesymol er mwyn addasu a awgrymwyd gan ymatebwyr law yn llaw â gweddill y gwaith dadansoddi a gyflwynir dan y cwestiwn hwn, gan bod ymatebwyr wedi mynegi ystyriaethau penodol y dylent ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch cyfnodau addasu rhesymol.

Y cyfnodau mwyaf cyffredin a awgrymwyd oedd *hyd at, o leiaf neu tua* 6 mis, yn ogystal â *hyd at, o leiaf neu tua* thymor / tri mis; roedd tua un o bob pump o'r ymatebion wedi dynodi'r cyfnodau hyn. Roedd un o bob deg ymateb wedi argymhell tua blwyddyn fel cyfnod rhesymol. Awgrymwyd cyfnodau rhesymol niferus eraill hefyd mewn nifer fach o ymatebion (rhwng 1 ac 11 ymateb), gan gynnwys un mis am bob blwyddyn y mae'r plentyn wedi bod yn cael addysg ffurfiol, 3-6 mis, 2 flynedd, ychydig wythnosau a chyfnod hirdymor iawn nas nodwyd.

“Ni ddylai cyfnod rhesymol er mwyn caniatáu i addysgwyr yn y cartref baratoi eu darpariaeth fod yn hirach na thri mis. Byddai unrhyw gyfnod hirach yn niweidiol i allu'r plentyn neu'r person ifanc i ddal i fyny gyda phlant sy'n cael addysg prif ffrwd.” (Awdurdod lleol)

“Sawl mis, hyd yn oed 6 mis. Mae'n cymryd amser i oresgyn problemau y gallent fod wedi eu cael, megis bwlio, ac amser i rieni ddod o hyd i adnoddau, grwpiau ac ati. Mae'n amser pwysig ac ni ddylid ei ruthro. Yn ogystal, mae'n cymryd amser i roi cynnig ar wahanol adnoddau, grwpiau ac ati, er mwyn darganfod yr hyn sy'n gweithio'n dda ar gyfer y plentyn

penodol hwnnw. Dylai amser y rhieni ganolbwyntio ar hyn, nid ar baratoi tystiolaeth ar gyfer yr awdurdod lleol.” (Unigolyn)

Roedd ymatebion yn nodi ystyriaethau penodol y dylent ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch cyfnodau addasu rhesymol hefyd.

Roedd dros chwarter yr ymatebion yn pwysleisio'r ffaith y byddai'r hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn gyfnod addasu rhesymol yn amrywio'n fawr rhwng pob plentyn a phob teulu. Rhaid gwneud penderfyniadau ynghylch cyfnod addasu fesul achos unigol, gan ystyried anghenion amrywiol pob plentyn unigol a chan gyd-fynd gyda gwybodaeth rhieni am anghenion eu plentyn. Er enghraifft, efallai y bydd gan blant anghenion dysgu ychwanegol y mae angen amser er mwyn rhoi sylw iddynt neu efallai y bydd pob plentyn yn cymryd mwy o amser neu lai o amser i addasu i amgylchedd addysg yn y cartref.

“Byddai cyfnod addas yn dibynnu ar yr oedran a lefel ddatblygu pob plentyn unigol yn hytrach na chyfnod mympwyol. Bydd cael cyfnod mympwyol yn peri problemau i awdurdodau lleol, ac fe allai achosi problemau gyda llwyth gwaith, yn enwedig os bydd hwn yn datblygu i fod yn fesur a gaiff ei fonitro mewn rhyw ffordd.” (Rhanddeiliad addysg)

Adroddodd chwarter yr ymatebion bod yn rhaid i gyfnod addasu neilltuo amser i blant wella yn dilyn unrhyw drama a gawsant yn yr ysgol, a fel bod eu hiechyd meddwl yn gallu gwella a sefydlogi. Pan dynnir plant allan o'r ysgol oherwydd profiad negyddol neu dramatig yn yr ysgol (megis bwlio neu bryderon iechyd meddwl), roedd ymatebion yn pwysleisio bod yn rhaid i'r rhieni roi blaenoriaeth i roi cymorth i'r plentyn a chaniatáu iddynt wella o'r trawma hwn cyn y gall addysg bellach yn y cartref ddigwydd.

Esboniodd chwarter yr ymatebion bod yn rhaid i gyfnod addas ganiatáu amser i deuluoedd gydweithio er mwyn darganfod arddulliau dysgu priodol a gwneud addasiadau i'r amgylchedd dysgu. Amlygodd ymatebion bod angen amser ar rieni i dreialu gwahanol ffyrdd o ddysgu, i nodi dulliau sy'n ymgysylltu eu plentyn orau ac i nodi'r lefel y mae eu plentyn yn gweithio arni. Er y gall addysg yn y cartref gychwyn o'r diwrnod cyntaf, mae angen amser er mwyn caniatáu i deuluoedd fod yn hyblyg a gwneud addasiadau wrth i anghenion dysgu eu plentyn ddod yn amlwg.

“Os bydd plentyn wedi bod mewn ysgol ac os byddant yn dechrau derbyn addysg yn y cartref, efallai y bydd yn cymryd amser i'r plentyn a'r teulu ailaddasu i'r sefyllfa newydd, gan bennu'r ffyrdd mwyaf priodol i'r plentyn hwnnw ddysgu ac ailddarganfod eu diddordeb naturiol mewn dysgu.” (Unigolyn)

Mynegodd tua un o bob deg o'r ymatebion y materion canlynol hefyd:

- Efallai na fydd cynlluniau ar gyfer addysg yn y cartref yn eu lle o'r cychwyn o reidrwydd (yn enwedig pan dynnir plant allan o leoliad ysgol yn sydyn ac mewn amgylchiadau anodd) ac mae angen amser digonol i sefydlu dulliau addysg effeithiol.

- Byddai rhoi pwysau ychwanegol ar rieni sy'n addysgu yn y cartref yn rhy gyflym a 'rhuthro' eu dull addysg yn y cartref yn cael effaith negyddol ar addysg y plentyn, ynghyd ag effaith negyddol ar berthynas yr awdurdod lleol gyda'r teulu.
- Ceir cynsail cyfreithiol y dylid ei ddilyn er mwyn cyfrannu at benderfyniadau am gyfnod addasu rhesymol; yn benodol, bod Llys Apêl R v Cyngor Sir Gwent (adran sifil) 129 sj 737 10 yn nodi'n glir y dylai'r awdurdod lleol ganiatáu 'amser digonol i'r rhiant weithredu eu trefniadau ar gyfer addysg yn y cartref'.
- Dylid rhoi blaenoriaeth i'r cam o ganiatáu i deuluoedd ymgysylltu gydag awdurdodau lleol o'u gwirfodd, gan gynnwys cynnig cyngor ac arweiniad.
- Ni ddylid cynnwys cyfnodau gwyliau ysgol mewn unrhyw gyfnod addasu rhesymol.
- Mae 'dadysgolia' yn cymryd amser, gan bod angen amser ar blant i ddatgysylltu wrth arddulliau dysgu traddodiadol ac ailddarganfod eu cariad at ddysgu.

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd y gwahaniaethau a welwyd rhwng safbwyntiau gwahanol categorïau o ymatebwyr mewn perthynas â chyfnod addasu addas, yn gyfyngedig. Roedd unigolion, sefydliadau trydydd sector a sefydliadau addysg yn y cartref ychydig yn fwy tebygol na chategorïau eraill o ymatebwyr o herio'r syniad sylfaenol y dylai awdurdod lleol fod yn ystyried a chaiff addysg addas ei darparu.

Mae adran 4.15–4.18 y canllawiau statudol yn cyfeirio at nodweddion awgrymedig addysg addas ac effeithlon i awdurdodau lleol eu hystyried. A oes unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys yn eich barn chi?

Oes	Nac oes	Ansicr
35% (133)	44% (166)	21% (79)

n= 378

Yn ychwanegol i'r ymatebion i'r cwestiwn caeedig (oes/nac oes/ansicr), rhoddwyd 247 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Roedd ychydig yn llai nag un o bob pump o'r ymatebion wedi nodi pob un o'r agweddau canlynol ar y canllawiau statudol fel elfen y dylid ei thynnu allan:

- Ni ddylid cynnwys y gair "iaith" yn nodwedd awgrymedig "darpariaeth rhifedd, llythrennedd ac iaith" gan nad oes sail gyfreithiol na chynsail dros gynnwys hyn ac mae sawl ffordd o ddehongli'r gair.
- Ni ddylid cynnwys nodwedd "ystod eang" neu "sbectrwm eang" addysg gan nad oes sail gyfreithiol na chynsail dros gynnwys hyn ac nid yw addysg "eang" er budd pennaf pob plentyn o reidrwydd (er enghraifft yn achos addysg a arweinir gan y plentyn neu blant sydd ag AAA).
- Ni ddylid cynnwys "llythrennedd digidol" ychwaith gan nad oes sail gyfreithiol na chynsail dros gynnwys hyn ac efallai bod gan deuluoedd ddulliau addysgu a dysgu, neu gredoau crefyddol neu athronyddol, sy'n osgoi defnyddio technoleg ddigidol.

"Ni cheir gofyniad cyfreithiol i ddarparu "sgiliau iaith", felly mae paragraff 4.15 yn gamarweiniol a dylid ei ddiwygio. Er Deddf Addysg 1996, mae adran 7 yn mynnu y dylai addysg fod yn "addas i oedran, gallu a dawn plentyn, ynghyd ag unrhyw anghenion arbennig sydd ganddo", mae'r ymadroddion "ystod eang resymol o brofiadau dysgu" a "sbectrwm eang o

Roedd dros un o bob deg o'r ymatebion wedi nodi bod y canlynol yn wendidau cyffredinol mewn perthynas â nodweddion awgrymedig addysg addas ac effeithlon:

- Roedd ymatebion yn anghytuno gyda'r syniad sylfaenol y dylai awdurdodau lleol fod yn ystyried a yw addysg yn y cartref yn addas ac yn effeithlon yn y lle cyntaf. Rhieni ddylai fod yn gwneud penderfyniadau ynghylch y cynnwys a'r dulliau dysgu a ddefnyddir mewn addysg yn y cartref.
- Mynegwyd pryderon gan ymatebion y byddai sefydlu system er mwyn asesu addasrwydd ac effeithlonrwydd addysg yn y cartref yn arwain at ddull 'blychau ticio', nad yw'n cydnabod y gwahaniaethau rhwng addysg yn y cartref ac yn yr ysgol, neu rhwng plant gwahanol.
- Yn yr un modd, nododd ymatebion nad yw awdurdodau lleol yn debygol o fod yn y sefyllfa orau i ffurfio barnau am addasrwydd addysg ar gyfer pob plentyn unigol; y rhieni sydd yn y sefyllfa orau i wneud hyn ac mae'n anodd i'r rhai sy'n gyfarwydd gydag addysg mewn ysgol i ffurfio barnau gwybodus a diduedd am addysg yn y cartref.
- Nid yw'r canllawiau yn cydnabod yn llawn ac yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth y dulliau addysgu a dysgu a ddefnyddir gan deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, gan gynnwys dulliau a arweinir gan y plentyn. O'r herwydd, nid yw absenoldeb unrhyw nodweddion neu'r holl nodweddion a awgrymir yn golygu bod addysg plentyn yn anaddas, ond yn hytrach, bod prosesau dysgu amgen yn eu lle.
- Roedd ymatebion yn pwysleisio'r ffaith bod cynnydd da yn edrych yn wahanol i bob plentyn; bydd plant yn dysgu sgiliau ac yn dangos gwahanol allu i ddysgu trwy gydol eu haddysg yn y cartref. Ni fydd unrhyw systemau monitro, mesur neu asesu (gan gynnwys cerrig milltir penodol) a weithredir er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i benderfynu ar addasrwydd ac effeithlonrwydd addysg yn y cartref, yn briodol i bob plentyn o reidrwydd.
- Adroddodd ymatebion bod Deddf Addysg 1996 yn mynnu bod addysg plentyn yn addas i'w hoedran, eu gallu, eu dawn a'u hanghenion arbennig. Bernir bod yr egwyddor hon yn ddigonol er mwyn tywys penderfyniadau sy'n ymwneud ag addysg yn y cartref.

“Nid yw hyn yn ystyried anghenion neu ddiddordebau plentyn unigol ac nid oes ganddo unrhyw ymwybyddiaeth o'r ffaith y bydd gan bob teulu eu hathroniaeth eu hunain am addysg. Mae pob rhiant yn dewis yr addysg sy'n addas i'w plentyn nhw, boed hynny mewn ysgol y wladwriaeth, mewn ysgol breifat, mewn ysgol breswyl, mewn ysgolion Steiner a Montessori, neu ar ffurf addysg yn y cartref. Efallai y bydd rhai teuluoedd yn hwyluso dysgu mewn meysydd nad ydynt yn cael eu cynnwys yng nghwricwlwm ysgolion y wladwriaeth (mae rhai teuluoedd yn lleol yn dysgu Japaneg, ffotograffiaeth, Lladin, dringo ac ati)” (Unigolyn)

Roedd cyfran fach o'r ymatebion (llai nag un o bob deg) yn nodi ffactorau allweddol i'w hystyried hefyd wrth ddiffinio nodweddion addysg addas ac effeithlon:

- Yn gyffredinol, gwelir bod y nodweddion awgrymedig yn tynnu addysg yn y cartref yn agosach at y cwricwlwm prif ffrwd. Dylai addysgwyr yn y cartref gynnal yr hawl i ddilyn cwricwlwm wedi'i deilwra i'w plentyn.

- Man cychwyn posibl ar gyfer nodweddion addas yw cynsail cyfreithiol; dylai'r hyn y mae'r gyfraith eisoes yn ei fynnu gan addysgwyr yn y cartref gynnig sylfaen ar gyfer unrhyw ganllawiau.
- Ni chaiff rhifedd ei ddiffinio i'r un lefel o ran manylder ag y caiff llythrennedd; dylid cynnwys manylder pellach.
- Byddai modd cynnwys eglurder pellach am elfen "gymdeithasoli" y canllawiau. Roedd ymatebion yn pwysleisio na fydd pob plentyn yn barod ac yn gallu meithrin sgiliau cymdeithasol yn unol â disgwyliadau'r awdurdod lleol.
- Ceir ffynonellau a chytundebau sy'n bodoli eisoes y dylid eu hystyried wrth ddatblygu nodweddion awgrymedig, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.
- Dylid cynnwys manylion pellach am y ffordd y mae'r nodweddion awgrymedig yn berthnasol i blant sydd ag AAA, gan gynnwys sut y bydd awdurdodau lleol yn gallu cynorthwyo'u haddysgu nhw yn y cartref mewn ffordd briodol.

"Mae'r canllawiau yn nodi dro ar ôl tro eu bod yn parchu dulliau addysg awtonomaidd ac amgen OND maent yn nodi dro ar ôl tro y byddai defnyddio'r cwricwlwm cenedlaethol yn awgrymu bod y plentyn yn cael addysg addas. Gan NAD yw plant sy'n cael eu haddysgu mewn ffordd awtonomaidd yn defnyddio'r cwricwlwm cenedlaethol, awgrymir nad yw'r math hwnnw o addysg yn addas." (Sefydliad addysg yn y cartref)

Yn ogystal, nododd cyfran fach o'r ymatebion (llai nag un o bob deg) wybodaeth neu elfennau ychwanegol y dylid eu cynnwys yn y nodweddion awgrymedig:

- Manylion pellach am y ffordd y byddai awdurdodau lleol yn ystyried addysg yn y cartref yn erbyn y nodweddion awgrymedig, gan gynnwys sut i sicrhau bod penderfyniadau yn gyson.
- Cydnabyddiaeth bellach o ystod eang y sgiliau a'r gweithgareddau a arweinir gan y plentyn y gellir eu cynnwys mewn addysg addas yn y cartref, nad ydynt yn weithgareddau addysg traddodiadol.
- Dylid ystyried sut y caiff iechyd meddwl, lles a llythrennedd emosiynol y plentyn ei gynorthwyo mewn amgylchedd addysg yn y cartref.

"Dylid nodi sut y caiff hyn ei asesu a pha ffurfiau sy'n dderbyniol er mwyn gwneud hynny. Nid yw'r Canllawiau yn nodi sut y byddai disgwyl i'r ALI asesu am y meysydd hyn, a sut y gallai hyn edrych o fewn fframwaith y cwricwlwm newydd." (Awdurdod lleol)

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Yn gyffredinol, codwyd y themâu uchod gan amrywiaeth o wahanol gategoriâu o ymatebwyr. Roedd awdurdodau lleol, sefydliadau o'r trydydd sector a rhanddeiliaid addysg ychydig yn fwy tebygol na chategoriâu eraill o ymatebwyr o ofyn am fanylion ynghylch sut y byddai'r canllawiau yn gweithio mewn gwirionedd, o ofyn am ffocws ar iechyd meddwl a lles ac o bwysleisio bod yn rhaid ystyried ffynonellau hawliau dynol eraill hefyd. Roedd unigolion a sefydliadau addysg yn y cartref ychydig yn fwy tebygol nag eraill o bwysleisio na ddylid cynnwys y gofyniad am "ystod eang" o addysg ac y dylai'r farn ynghylch addasrwydd fod yn

seiliedig ar y cwestiwn ynghylch a yw addysg y plentyn yn addas i'w hoedran, eu gallu, eu dawn a'u hanghenion arbennig yn unig.

Mae Erthygl 12 Confensiwn CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn nodi bod gan blant yr hawl i gael safbwyntiau a bod y safbwyntiau hynny yn cael eu hystyried pan fydd pobl yn gwneud penderfyniadau am bethau sy'n ymwneud â nhw. Er mwyn i awdurdod lleol deimlo'n fodlon am addasrwydd yr addysg a ddarperir, mae'r canllawiau statudol yn nodi y dylai'r awdurdod lleol weld y plentyn a siarad â nhw. A ydych chi'n cytuno gyda'r datganiad hwn? Os 'Ydych', beth fyddai'r ffordd orau o gasglu safbwyntiau'r plentyn sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref?

Ydw	Nac ydw	Ansicr
19% (77)	75% (308)	7% (27)

n= 412

Roedd y cwestiwn yn yr ymgynghoriad yn gofyn i'r rhai a atebodd 'ydw' i'r cwestiwn caeedig i ddarparu sylwadau ysgrifenedig, ond darparwyd sylwadau gan ymatebwyr waeth sut yr oeddent wedi ateb y cwestiwn caeedig. At ei gilydd felly, rhoddwyd 352 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno gyda'r datganiad, roedd y themâu mwyaf cyffredin fel a ganlyn. Codwyd y themâu hyn mewn lleiafrif o'r ymatebion cyffredinol (rhwng 10 a 20).

- Rhaid bod amrediad o ddewisiadau ar gael er mwyn caniatáu i blant gyfathrebu gydag awdurdodau lleol yn y ffordd sydd fwyaf addas i'w hanghenion. Gall anghenion unigol ddibynnu ar amrywiaeth o ffactorau megis oedran, cam datblygu neu anghenion dysgu ychwanegol. Gall amrediad y dewisiadau gynnwys darparu cymysgedd o ddewisiadau wyneb yn wyneb, digidol ac ar bapur, yn ogystal ag eiriolaeth.
- Mae angen canllawiau clir iawn er mwyn sicrhau dull cyson ar draws awdurdodau lleol, yn enwedig gan nad oes pwerau statudol i awdurdodau lleol orchymyn cyfarfod gyda'r plentyn; mae angen sicrhau cysondeb o ran sut y mae awdurdodau lleol yn barnu beth sydd er budd pennaf y plentyn ac yn defnyddio'u dirnadaeth broffesiynol. Dylai canllawiau gynnig eglurder am y ffordd y dylai awdurdodau lleol weithredu'r canllawiau statudol pan fydd Erthygl 40 CCUHP yn nodi na fydd rheidrwydd ar unrhyw blentyn i roi tystiolaeth.
- Pan fo awdurdodau lleol yn ymgysylltu gyda phlant; cyfarfodydd unigol wyneb yn wyneb fyddai'r peth mwyaf priodol. Dylid cynnal sgysiau digyffro, gydag awdurdodau lleol yn gofyn cwestiynau agored a chan sicrhau bod y plentyn yn teimlo'n gyffyrddus.
- Rhaid casglu safbwyntiau plant mewn ffordd hollol ddiuedd; rhaid i awdurdodau lleol gymryd rhan yn y sgysiau gyda meddwl agored, ni ddylai rhieni ddylanwadu ar sylwadau eu plant a rhaid cofio hefyd na fydd plant yn barod eto efallai i ffurfio barn gyflawn am eu haddysg yn y cartref.
- Roedd ymatebion yn cynnig awgrymiadau am y lleoliad mwyaf addas er mwyn cynnal cyfweiliadau, a allai ddibynnu ar ddewisiadau'r teulu. Gallai lleoliadau gynnwys yng nghartref y teulu neu mewn amgylchedd niwtral yn y gymuned leol.

“Nid yn unig y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod safbwyntiau'r plentyn yn rhan o'r broses o asesu addysg yn y cartref, ond mae'n rhaid iddi sicrhau hynny...Mae'n iawn bod y canllawiau yn cwestiynu gallu awdurdodau lleol i asesu addasrwydd addysg heb siarad gyda'r plentyn, ond mae'n cydnabod na fyddai hyn er budd pennaf y plentyn ym mhob achos. Felly, mae'n

hollbwysig bod y templed cyn ymweld ar gyfer plant yn cael ei gynllunio a'i brofi gan blant o gefndiroedd amrywiol a chan blant o wahanol oedran, rhyw a gallu. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i weithredu yn y fath ffordd cyn rhyddhau fersiwn terfynol y canllawiau statudol.” (Sefydliad o'r trydydd sector)

“Rydw i wedi dysgu trwy brofiad mai'r ffordd orau o ganiatáu i'r plentyn siarad yn rhydd am eu hunain a'u haddysg fyddai cael cyfarfod grŵp, trwy ganiatáu i'r plentyn gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda phlant eraill a'u rhieni. Rydw i wedi canfod bod plant yn siarad yn rhydd wrth iddynt fwynhau'r gweithgarwch, ac mae hyn yn caniatáu iddynt deimlo'n fwy cyffyrddus tra'n teimlon ddiogel o hyd ym mhresenoldeb eu rhieni/gwarcheidwaid.” (Unigolyn)

Ymhlith y rhai yr oeddent yn anghytuno â'r datganiad, neu nad oeddent yn siŵr neu na wnaethant ymateb, roedd y themâu mwyaf cyffredin a godwyd (mewn tua un o bob tri i ddau o bob pump o'r ymatebion) fel a ganlyn.

- Nid yw'r gyfraith yn caniatáu cymell plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref i siarad gyda chynrychiolwyr awdurdod lleol. Dylid dehongli bod Erthyglau 12 ac 13 CCUHP yn cynnig yr hawliau i blant fynegi safbwyntiau os ydynt yn dymuno, a pheidio mynnu bod mynegi safbwyntiau yn rhywbeth gorfodol. Nodir Erthygl 40 hefyd, sy'n sicrhau na ddylai fod rheidrwydd ar blant i roi tystiolaeth. Roedd ymatebion yn mynegi pryderon ynghylch yr ymateb negyddol bosibl gan awdurdodau lleol os bydd plentyn yn arfer eu hawl i beidio ymgysylltu gyda chynrychiolwyr awdurdod lleol.
- Byddai mynnu bod awdurdodau lleol yn gweld ac yn siarad gyda phlant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref, ond heb yr un gofyniad mewn perthynas â'r holl blant a addysgir mewn ysgol, yn rhywbeth gwahaniaethol. Byddai hyn yn cynnwys awdurdodau lleol yn ymateb mewn ffordd briodol os bydd plant sy'n derbyn addysg yn y cartref a phlant a addysgir mewn ysgol yn mynegi dymuniad i newid amgylchiadau eu haddysg.
- Dyletswydd rhieni, ac nid dyletswydd y Wladwriaeth, yw cyfryngu a thywys eu plentyn wrth iddynt arfer eu hawliau, ac adlewyrchir hyn yn Erthygl 5 CCUHP. Nododd ymatebion bod cynnig y canllawiau statudol yn mynd yn groes i Erthygl 5 trwy roi'r ddyletswydd hon ar y Wladwriaeth. Roedd ymatebion yn pwysleisio hefyd bod Erthygl 14 CCUHP yn sicrhau y bydd partion yn parchu'r hawliau a'r dyletswyddau hyn sydd gan rieni. Felly, dylai rhieni gynnal y cyfrifoldeb dros addysg eu plentyn. Roedd ymatebion yn pwysleisio bod disgwyl i rieni weithredu er budd pennaf eu plant yn rheolaidd ym mhob agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys eu haddysg. Felly, ystyrir bod perygl y gallai'r cynnig yn y canllawiau fynd yn groes i'r graen i rieni trwy gasglu safbwyntiau gan blant nad ydynt wedi cael eu ffurfio'n llawn, ac nad ydynt yn hollol gymwys eto i ffurfio barnau ynghylch eu haddysg.
- Gallai mynnu bod plant yn gweld ac yn siarad gyda chynrychiolydd awdurdod lleol, y gallai hynny fod yn groes i'w dymuniadau, gael effaith negyddol ar les y plentyn. Gallai siarad gyda rhywun dieithr, yn enwedig os bydd y plentyn wedi dioddef trawma yn system yr ysgol, arwain at ofid estynedig, straen, effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a pheri iddynt deimlo'n anniogel. Bernir bod hyn yn mynd yn groes i Erthygl 37 CCUHP, sy'n sicrhau nad yw plant yn destun triniaeth ddiraddiol.

“Nid ydym wedi cael ein perswadio ar unrhyw gyfrif bod Erthygl 12 CCUHP yn mynnu bod yr awdurdod lleol yn canfod safbwyntiau'r plentyn am eu

profiad o addysg yn y cartref. Ni chyfwelir disgyblion mewn ysgolion am eu profiad yn yr ysgol fel mater o drefn, ac ni ofynnir iddynt a fyddai'n well ganddynt gael eu haddysgu 'fel arall', ac nid ydym yn argyhoeddedig y dylid cyfweld plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref yn yr un modd ychwaith.”
(Sefydliad o'r trydydd sector)

Ymhlith y rhai yr oeddent yn anghytuno â'r datganiad, neu nad oeddent yn siŵr neu na wnaethant ymateb, mynegwyd y themâu canlynol hefyd mewn nifer yn llai o ymatebion (rhwng un o bob deg ac un o bob pump o ymatebion).

- Mynegwyd diffyg ymddiriedaeth mewn awdurdodau lleol i ymgysylltu mewn ffordd briodol gyda phlant mewn ymatebion. Roedd pryderon yn cynnwys diffyg arbenigedd i ddeall anghenion unigol pob plentyn, tebygolrwydd mawr y byddai safbwyntiau'r plentyn yn cael eu camddehongli a phryderon ynghylch diogelwch wrth adael plentyn ar eu pen eu hunain gyda rhywun dieithr.
- Nododd ymatebion y byddai'r cynnig a fyddai'n mynnu bod awdurdodau lleol yn gweld ac yn siarad gyda'r plentyn sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref, yn tarfu ar hawl y plentyn i gael preifatrwydd o ran eu bywyd teuluol ac yn eu cartref, yn groes i Erthygl 16 CCUHP. Yn ogystal, barnir bod mynnu samplau o waith plentyn yn mynd yn groes i Erthygl 16, gan darfu ar "breifatrwydd teulu, cartref, neu ohebiaeth" y plentyn. Barnir bod y cynnig yn arwain at darfu gormodol sydd y tu hwnt i faes dylanwad priodol yr awdurdod lleol.
- Dim ond pan geir tystiolaeth glir o broblemau diogelu y gallai ymgysylltu o'r fath ddigwydd gyda'r plentyn sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref; dylai diogelu barhau i fod ar wahân i bryderon ynghylch addasrwydd ac effeithlonrwydd addysg. Ni ddylai cymryd bod yr holl addysg yn y cartref yn anaddas ac yn aneffeithlon fod yn rhagystyriaeth.
- Adroddodd ymatebion y gallai plant wynebu amrediad o rwystrau cyfathrebu, y gallent beri i weld a siarad gyda rhywun dieithr fod yn brofiad gofidus ac aneffeithiol, megis: Anghenion dysgu ychwanegol; anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu; neu'r ffaith eu bod mewn cyfnod datblygu sy'n rhy gynnar er mwyn gallu cyfathrebu'n effeithiol.
- Gellir cyflawni unrhyw weithgarwch ymgysylltu gyda phlant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref mewn ffordd lawer fwy ystyriol ac ysgafn, sy'n caniatáu i'r plentyn orchymyn yr amodau ymgysylltu, ac mae'n gallu cynnwys mecanweithiau amgen megis fideos neu lwybrau digidol.

“Mae monitro'r holl deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref trwy gynnal cyfweiliadau gorfodol yn tarfu ar fywyd preifat pob plentyn sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref, a'u teulu, mewn ffordd fympwyol. Os na cheir tystiolaeth o broblem, nid yw gorfodi cyfarfod yn ymateb cymesur i benderfyniad cyfreithlon teulu i wneud trefniadau preifat ar gyfer addysg eu plant. Byddai mynnu bod poblogaeth gyfan yr addysgwyr yn y cartref yn cael cyfarfodydd gorfodol ar y sail y gallai rhai aelodau o'r gymuned fod wedi cyflawni trosedd, yn cynrychioli gweithred o darfu ar breifatrwydd y teuluoedd hyn mewn ffordd fympwyol.” (Sefydliad addysg yn y cartref)

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion a sefydliadau addysg yn y cartref yn fwy tebygol na grwpiau eraill o ymatebwyr o anghytuno gyda'r datganiad a mynegi'r pryderon a drafodwyd yn yr adran

berthnasol uchod. Mynegwyd rhai o'r un pryderon gan sefydliadau o'r trydydd sector a rhanddeiliaid addysg hefyd, ond yn llai aml. Roedd awdurdodau lleol, rhanddeiliaid addysg, sefydliadau o'r sector iechyd a byrddau diogelu yn fwy tebygol o gytuno gyda'r datganiad, gan nodi mecanweithiau ymgysylltu posibl, ond hefyd, gan ofyn am ganllawiau cliriach am weithredu, o ystyried y sialensiau posibl wrth gyflawni.

Yn eich barn chi, pa mor aml y byddai hi'n rhesymol i'r awdurdod lleol gyfarfod gyda'r teulu sy'n addysgu yn y cartref er mwyn asesu addasrwydd yr addysg a ddarperir? Esboniwch eich safbwyntiau.

At ei gilydd felly, rhoddwyd 397 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Nododd tua dau o bob tri o'r ymatebion na ddylai awdurdodau lleol fyth fynnu cyfarfodydd gorfodol gyda'r teulu sy'n addysgu yn y cartref er mwyn asesu addasrwydd yr addysg a ddarperir. Nododd yr ymatebion mai'r unig adeg y dylai awdurdodau lleol fod yn cyfarfod gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yw os bydd y teuluoedd hynny wedi gofyn yn benodol am gyfarfod a rhoi eu caniatâd iddo, neu os bydd Gorchymyn Goruchwyllo Addysg mewn grym. Ni ddylai cyfarfodydd fod yn orfodol oni bai y ceir pryderon clir ynghylch diogelu. Dylai gweithgarwch ymgysylltu wyneb yn wyneb gyda'r awdurdod lleol gael eu harwain gan y teulu sy'n addysgu yn y cartref a dylai adroddiadau ysgrifenedig rheolaidd (neu dystiolaeth debyg) a ddarperir gan deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, fod yn ddigonol. Dylai awdurdodau lleol geisio cynnig cyngor ac arweiniad hygyrch a defnyddiol y gall teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref droi ato'n rhydd, yn hytrach na gorchymyn cyfarfodydd.

Roedd yr ymatebion hyn yn adleisio amheuan a fynegwyd mewn ymatebion i gwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad hefyd, am y graddau y dylai awdurdodau lleol fod yn asesu addasrwydd addysg yn y cartref a'r gofid y gallai ymweliadau o'r fath eu hachosi i blant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref.

“Credaf y gellir asesu addasrwydd darpariaeth addysg o bellter, ac nid oes angen iddo gynnwys cyfarfod yn awtomatig. Gall ymweliadau fod yn ddefnyddiol pan fydd teulu wedi mynegi dymuniad i awdurdod lleol gymryd rhan, neu pan fo gan yr awdurdod lleol reswm dilys dros y ffaith ei fod yn pryderu am y ddarpariaeth. Fel arall, nid yw'n angenrheidiol. Mae adroddiad da sy'n dangos yr hyn y mae'r ddarpariaeth yn ei gynnwys a'r cynnydd a sicrhawyd gan y plentyn yn ddiweddar, yn ddigon.” (Unigolyn)

“Mae'n rhesymol i'r awdurdod lleol gyfarfod gyda rhieni mor aml ag y bydd rhieni yn gofyn neu os ceir tystiolaeth sy'n dynodi niwed, neu pan fo Llys barn wedi gwneud Gorchymyn Goruchwyllo Addysg.” (Sefydliad addysg yn y cartref)

Yn yr un modd, roedd cyfran fach iawn o ymatebion (llawer yn llai nag un o bob deg) wedi dynodi amseriad penodol er mwyn i awdurdodau lleol gyfarfod gyda'r teulu sy'n addysgu yn y cartref, ond pwysleisiwyd y dylid cynnig hwn fel cyfarfod gwirfoddol o hyd yn unig. Roedd unwaith y flwyddyn yn awgrym cyffredin yn yr ymatebion hyn, ar yr amod bod teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn rhoi eu caniatâd ar gyfer cyfarfod, ac ar yr amod bod gan awdurdodau lleol adnoddau er mwyn cyflawni hyn mor aml.

“Ymweliadau Cartref Blynyddol / Adroddiadau Blynyddol gan rieni am gynnydd y plentyn/person ifanc. Ni cheir deddfwriaeth i orfodi unrhyw ymweliadau nac ymweliad wedi'i drefnu.” (Awdurdod Lleol)

“Heb fod yn amlach nag unwaith y flwyddyn, ac mae'n rhaid bod gan rieni yr hawl i wrthod cyfarfod pe byddai'n well ganddynt gyflwyno adroddiad. Ni ddylai hyn fod yn orfodol.” (Unigolyn)

Roedd llai nag un o bob pump ymateb wedi nodi cyfnod penodol i awdurdodau lleol gyfarfod gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Cyfarfod blynyddol oedd y dewis a argymhellwyd amlaf. Roedd nifer yn llai o ymatebion (llai na 10) wedi argymhell amrediad o gyfnodau eraill hefyd, gan gynnwys: bob tymor, bob dwy flynedd a thua ddwywaith y flwyddyn. Mae'r rhesymeg a roddir o fewn ymatebion ynghylch y cyfnodau a awgrymir yn tueddu i ganolbwyntio ar sicrhau goruchwyliaeth reolaidd o addysg er mwyn sicrhau bod yr addysg a ddarperir o ansawdd uchel, gan leihau'r faich ar awdurdodau lleol a theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref gymaint ag y bo modd.

“[Mae'n sefydliad ni o'r farn] y dylid asesu teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref bob chwe mis. Mae'r amllder hwn yn sicrhau y ceir goruchwyliaeth reolaidd o addysg mewn ffordd a fyddai'n bodloni awdurdodau lleol bod yr addysg a ddarperir yn y cartref o safon uchel yn barhaus. Fodd bynnag, nid yw mor aml fel ei fod yn tarfu ar neu'n amharu ar yr addysg.” (Sefydliad o'r trydydd sector)

Dywedodd ychydig dros un o bob deg o'r ymatebion y dylid penderfynu ar amllder cyfarfodydd rhwng awdurdodau lleol a theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref fesul achos. Esboniodd yr ymatebion hyn na ellir penderfynu ar amllder cyfarfodydd ymlaen llaw. Yn hytrach, dylai awdurdodau lleol ystyried amrywiaeth o ffactorau er mwyn gwneud penderfyniadau am ba mor aml i gyfarfod gyda theuluoedd, gan gynnwys: dymuniadau'r teulu sy'n addysgu yn y cartref; unrhyw anghenion dysgu ychwanegol; a godwyd unrhyw bryderon yn flaenorol ynghylch ansawdd yr addysg neu bryderon diogelu; a ddylid darparu cyswllt mwy aml i addysgwyr yn y cartref newydd, ac y gallai hwn leihau dros y blynyddoedd; neu a fyddai cyfarfodydd yn fwy angenrheidiol efallai ar adegau allweddol ym mywyd y plentyn.

“Gallai asesiad blynyddol gael ei ystyried yn amserlen dderbyniol er mwyn cynnig sicrwydd bod y plentyn yn datblygu mewn ffordd addysgol yn yr un ffordd â'u cymheiriaid, fodd bynnag, byddai'n fwy priodol rhoi sylw i'r cyfnod adolygu ar sail unigol, gan ddibynnu ar anghenion addysgol y plentyn, y cynnydd y maent yn ei wneud ac agweddau ychwanegol y gallent ddylanwadu ar eu gallu i wireddu eu potensial llawn.” (Ymatebydd o'r sector ieched)

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion, sefydliadau o'r trydydd sector a sefydliadau addysg yn y cartref yn fwy tebygol na chategoriâu eraill o ymatebwyr o ddweud na ddylai awdurdodau lleol fyth fynnu

cyfarfodydd gorfodol gyda'r teulu sy'n addysgu yn y cartref er mwyn asesu addasrwydd yr addysg a ddarperir. Ni welwyd gwahaniaethau arbennig eraill rhwng safbwyntiau gwahanol categorïau o ymatebwyr, a gwelwyd amrediad a oedd yn pwysleisio y dylai'r cyfnod newid gan ddibynnu ar amgylchiadau teuluol, ac amrediad a oedd yn awgrymu cyfnod penodol.

Yn eich barn chi, pwy fyddai yn y sefyllfa orau i gynnal yr ymweliadau ac asesu addasrwydd y ddarpariaeth addysg a pham? Er enghraifft, gallai hyn gynnwys (ond ni chaiff ei chyfyngu i):

- swyddogion addysg yn y cartref awdurdod lleol
- panel annibynnol o weithwyr addysg proffesiynol
- athro cymwys
- cynorthwyydd addysgu
- arall.

Rhodddwyd cyfanswm o 387 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Roedd tua hanner yr ymatebion yn nodi eu bod yn anghytuno â'r syniad o orchymyn ymweliadau gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref er mwyn asesu addasrwydd y ddarpariaeth addysg. Roedd yr ymatebion hyn yn adleisio pryderon a fynegwyd dan gwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad ynghylch diffyg sail gyfreithiol i awdurdodau lleol asesu addasrwydd addysg yn y cartref, ac o fod yn mynnu ymweliadau gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Roedd yr ymatebion hyn yn mynegi pryderon hefyd ynghylch y ffaith na fyddai unrhyw rai o'r bobl a gynigiwyd yn meddu ar gymwysterau neu brofiad addas ym maes addysg yn y cartref, ac o ystod eang y dulliau addysgu a dysgu sy'n cael eu cynnwys o fewn addysg yn y cartref. Barnwyd bod cael panel annibynnol yn rhy ymwithiol.

Bernir bod hyn yn bryder penodol ymhlith y rhai sydd â phrofiad o systemau addysg traddodiadol mewn ysgolion yn unig. Ar y mwyaf, adroddodd yr ymatebion hyn y byddai teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn dymuno ymgysylltu o'u gwirfodd gydag asiantaethau cymorth penodol efallai, ond mai eu dewis nhw fyddai hyn. Aeth tua hanner yr ymatebion hyn ymlaen i awgrymu pobl addas i gynnal yr ymweliadau a'r gwaith asesu ar sail y ddealltwriaeth na ddylid gorchymyn y rhain.

“Mae'n ymddangos bod y cwestiwn yn rhagdybio gweithgarwch monitro arferol trefniadau addysg yn y cartref. Mae'r disgwyliad hwn yn mynd y tu hwnt i'r gyfraith, ac rydym yn pryderu am y ffaith y bydd sefyllfa lle y bydd awdurdod lleol yn ymgymryd â'r dasg o asesu addasrwydd y ddarpariaeth addysgol yn yr holl deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref fel mater o drefn, os mynegwyd unrhyw bryderon neu beidio, yn tanselilio'r cyfrifoldeb ar rieni dros wneud penderfyniadau am addysg eu plant. Mae'n dreth ddianghenraid ar adnoddau cyhoeddus hefyd.” (Sefydliad o'r trydydd sector)

Nododd ychydig dros un o bob tri o'r holl ymatebion nodwedd allweddol ar gyfer unrhyw unigolyn neu bobl a fyddai'n cynnal ymweliadau o'r fath; dealltwriaeth ragorol a phrofiad personol o addysg yn y cartref, yn ogystal ag ystod lawn y dulliau addysgu a dysgu y gallent gael eu defnyddio.

Roedd ymatebion yn pwysleisio bod yn rhaid bod y rhai sy'n ymgysylltu â theuluoedd yn meddu ar gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad addas er mwyn iddynt wirioneddol ddeall y gwahaniaethau rhwng addysg yn yr ysgol a'r cartref. Byddai unigolyn addas yn deall yr ethos a'r diwylliant yn y cartref hefyd, yn ogystal ag ystod eang yr athroniaethau addysgol posibl (megis Montessori, Steiner a diysgol). Bernir bod y rhai sy'n addysgu yn y cartref mewn sefyllfa dda i ymgysylltu gyda theuluoedd eraill sy'n addysgu yn y cartref. Nododd ymatebion hefyd bod yn rhaid bod unrhyw un sy'n cynnal ymweliadau yn meddu ar ddealltwriaeth ragorol o amrywiaeth yr anghenion ymhlith plant sy'n derbyn addysg yn y cartref, er enghraifft mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol.

“Addysgwr yn y Cartref sy'n meddu ar gymwysterau addas – rhywun sydd â phrofiad, nid o ddulliau addysgu torfol proffesiynoledig yn unig, ond o'r profiad go iawn a gwirioneddol o fod yn addysgwr yn y cartref eu hunain. Efallai y gallai'r unigolyn hwn gydweithio gydag arbenigwr addysgu cymwys.” (Unigolyn)

Nododd dros chwarter yr ymatebion bod swyddogion addysg ddewisol yn y cartref (EHE) awdurdodau lleol yn bobl addas er mwyn cynnal ymweliadau ac asesu addasrwydd addysg; ond roedd ymatebion yn nodi gofynion clir mewn perthynas â'r dewis hwn. Er yr ystyrir bod swyddogion EHE mewn sefyllfa well na'r rhai nad ydynt yn arbenigo mewn addysg yn y cartref (megis athrawon mewn ysgolion prif ffrwd), rhaid i swyddogion EHE fodloni meini prawf penodol o hyd. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys y ddealltwriaeth angenrheidiol o addysg yn y cartref a dulliau addysgu a dysgu a nodwyd uchod, yn ogystal â hyfforddiant er mwyn darparu'r holl gymorth angenrheidiol i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref (er enghraifft cyfeirio at wasanaethau eraill, cymorth i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a hyfforddiant uwch ym maes diogelu a lles). Gallai swyddogion EHE fod yn athrawon hyfforddedig hefyd a/neu gallent fod wedi bod yn addysgwyr yn y cartref yn flaenorol.

“Swyddogion addysg yn y cartref ALI sydd wedi cael hyfforddiant priodol am yr hyn y mae addysg yn y cartref yn ei olygu neu elusennau addysg yn y cartref. Mae athrawon yn canolbwyntio ormod ar safonau ysgol.” (Sefydliad addysg yn y cartref)

Dywedodd ychydig yn llai nag un o bob deg o'r ymatebion y byddai athro cymwys neu arbenigwr addysg tebyg yn ddewis addas. Adroddodd ymatebion y byddai athro cymwys neu rywun tebyg yn y sefyllfa orau i asesu addasrwydd addysg yn y cartref o'i gymharu â'r system addysg genedlaethol. Unwaith eto, fodd bynnag, nodwyd y byddai gofyn gweithredu meini prawf penodol ar brydiau, gan gynnwys y ffaith y byddai gofyn cael athro sydd â phrofiad neu o leiaf sylfaen gadarn ym myd addysg yn y cartref.

Nododd ychydig yn llai nag un o bob deg ymateb mai dull amlasiantaethol neu amlarbenigol fyddai'r un mwyaf priodol. Gallai'r dull hwn gynnwys panel annibynnol, ond barnwyd y byddai hyn yn ddigon i godi ofn ar deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, a barnwyd bod y ffaith bod asiantaethau cymorth ar gael yn cynnig mwy o gymorth wrth feithrin perthynas gadarnhaol gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref.

“Byddai o fudd pe bai'r awdurdod lleol yn cynnull Panel Annibynnol a fyddai'n cynnwys amrediad o weithwyr proffesiynol e.e. Gweithwyr Cymdeithasol Addysg, Athrawon, Cynorthwywyr Addysgu – byddai hyn yn galluogi cynnal asesiad holistig ar gyfer y plentyn/person ifanc. Yr un gorau i gynnal hwn fyddai swyddog awdurdod lleol sy'n meddu ar wybodaeth am EHE.” (Awdurdod lleol)

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion, sefydliadau o'r trydydd sector a sefydliadau addysg yn y cartref yn fwy tebygol na chategorïau eraill o ymatebwyr o anghytuno gyda'r syniad o orchymyn ymweliadau cartref. Roedd awdurdodau lleol, rhanddeiliaid addysg a byrddau diogelu ychydig yn fwy tebygol na grwpiau eraill o wneud sylw y dylai athro neu arbenigwr addysg tebyg gymryd rhan mewn ymweliadau cartref. Mynegwyd yr angen i swyddog EHE awdurdod lleol gymryd rhan gyda rhywun sydd â phrofiad a dealltwriaeth o addysg yn y cartref gan amrywiaeth o gategorïau o ymatebwyr.

Yn eich barn chi, mewnbyn pwy arall y dylid ei geisio pan fo'r awdurdod lleol yn asesu addasrwydd y ddarpariaeth addysg a pham? Er enghraifft, gallai hyn gynnwys (ond nid yw wedi'i gyfyngu i):

- seicolegwyr addysg
- therapydd iaith a lleferydd
- gweithwyr proffesiynol arbenigol eraill.

Rhodddwyd cyfanswm o 355 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Dyweddodd ychydig yn fwy nag un o bob tri ymateb na ddylid ceisio mewnbyn ychwanegol gan fathau eraill o weithwyr proffesiynol yn ddiodyn. Gellir ceisio mewnbyn ychwanegol os mynegir pryderon diogelu, ond fel arall, dylai swyddogion EHE awdurdodau lleol (neu swyddogion tebyg) fod yn gallu ffurfio barnau angenrheidiol ar sail adroddiadau gan rieni, yn hytrach nag ymweliadau. Roedd ymatebion yn anghytuno gyda'r syniad hefyd y dylai awdurdodau lleol fod yn asesu addasrwydd addysg. Yn ogystal, ni ystyrir bod mewnbyn gan arbenigwyr megis y rhai a restrir yn y cwestiwn yn angenrheidiol er mwyn asesu addysg, ac y dylen nhw ymateb i anghenion meddygol neu les yn unig.

“Dylai adroddiad addysg gan y rhieni fod yn ddigon er mwyn asesu addasrwydd y ddarpariaeth addysg heb gael mewnbyn gan asiantaethau eraill, yn yr un modd â'r ffaith na fesurir addasrwydd darpariaeth mewn ysgol yn erbyn adroddiadau gan yr asiantaethau y cyfeiriwyd atynt uchod o'r holl blant sy'n mynychu'r ysgol honno.” (Unigolyn)

Dyweddodd ychydig dros chwarter yr ymatebion y dylai amrediad o gymorth arbenigol a phroffesiynol fod ar gael i rieni droi ato o'u gwirfodd. Roedd ymatebion yn barnu mai rhieni ddylai barhau i fod yn gyfrifol am benderfynu pa gymorth ychwanegol y bydd ei angen ar eu plentyn efallai, a dylai'r awdurdod lleol hwyluso hyn. Felly, dylai gweithwyr proffesiynol o'r fath fod ar gael i gynorthwyo rhieni a'u plant, nid i gymryd rhan mewn gweithgarwch i asesu addasrwydd addysg. Nodwyd amrediad o wasanaethau posibl yn yr ymatebion hyn (megis seicolegwyr, pediatregwyr, tiwtoriaid, arweinwyr ysgol coedwig neu therapyddion

galwedigaethol), ond y brif ystyriaeth yw y dylai fod modd i rieni fanteisio ar ba bynnag wasanaethau cymorth y byddant yn eu dewis yn hawdd.

“Os bydd rhieni wedi caniatáu ymweliad, byddai hyn yn dibynnu ar y sawl y maent yn dymuno cael mewnbwn ganddynt. Dylai fod yn ddewis i'r rhieni, nid yr awdurdod lleol...Fodd bynnag, gallai asiantaethau eraill y byddai rhieni yn dymuno iddynt gymryd rhan gynnwys: Pediatregwyr, Tiwtoriaid, arweinwyr grwpiau Gweithgarwch (megis arweinydd Sgowtiaid), Addysgwyr yn y Cartref eraill, Seicolegwyr, Seiciatryddion, Meddyg Teulu ac ati.”
(Unigolyn)

Nododd ychydig yn fwy nag un o bob deg ymateb y dylai asiantaethau lluosog fod ar gael i awdurdodau lleol alw arnynt yn ôl yr angen fesul achos er mwyn bodloni anghenion unigol pob plentyn sy'n derbyn addysg yn y cartref. Prif nod y mewnbwn ychwanegol hwn fyddai rhoi sylw i anghenion unigol y plentyn, yn hytrach nag asesu addasrwydd yr addysg o reidrwydd. Roedd awgrymiadau a wnaethpwyd ynghylch gweithwyr proffesiynol posibl y dylent fod ar gael i ddarparu mewnbwn yn cynnwys seicolegwyr addysg, gweithwyr iaith a lleferydd proffesiynol, cwyselwyr a gweithwyr ieuencid, swyddogion lles addysg a darpariaeth ADY arbenigol yn ôl y gofyn.

“Byddai angen pennu'r cysylltiadau gydag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill ar sail dysgwyr unigol. Er enghraifft, byddai angen seicolegwyr addysg a gweithwyr iaith a lleferydd proffesiynol pan fo gan blentyn anghenion penodol. Byddai gofyn cael cysylltiadau gyda chwyselwyr a gweithwyr ieuencid hefyd. Byddai cynghorwyr Gyrfa Cymru yn bartneriaid hanfodol hefyd. Fel rhan o'r canllawiau, dylid pennu disgwyliad bod asiantaethau allweddol eraill yn darparu cymorth i blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref.” (Awdurdod lleol)

Nododd ychydig dros un o bob deg o'r ymatebion y dylai mewnbwn penodol gan arbenigwyr fod ar gael, yn enwedig therapyddion amrywiol, seicolegwyr a'r rhai sy'n arbenigo mewn cynorthwyo plant sydd ag ADY. Barnwyd na fyddai'r mewnbwn hwn yn cael ei ddarparu mewn ffordd ddiyfyn o reidrwydd, ond y dylai fod ar gael er mwyn ymateb i anghenion ychwanegol penodol a nodir gan swyddogion EHE awdurdod lleol a/neu rieni.

Roedd ychydig dros un o bob deg o'r ymatebion wedi mynegi pryderon ynghylch gweithrediad ymarferol sicrhau mewnbwn gan weithwyr proffesiynol o'r fath. Adroddodd ymatebion nad yw adnoddau'r sector cyhoeddus yn ddigonol ar hyn o bryd er mwyn sicrhau mynediad i weithwyr proffesiynol fel y rhain ar gyfer awdurdodau lleol y mae angen iddynt asesu addasrwydd addysg ar draws yr holl deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Roedd yr ymatebion hyn yn pwysleisio bod y mynediad i weithwyr proffesiynol o'r fath i unrhyw deuluoedd (sy'n addysgu yn y cartref neu beidio) eisoes yn gyfyngedig. Yn ogystal, byddai gofyn i unrhyw weithwyr proffesiynol a fyddai'n cynorthwyo'r awdurdod lleol i asesu addasrwydd addysg yn y cartref, gael hyfforddiant rhagorol ynghylch dulliau addysg yn y cartref, a dealltwriaeth ohonynt.

“Mae'n bwysig nodi y byddai hyn yn rhoi llwyth gwaith ychwanegol ar swyddogion awdurdodau lleol ac y byddai angen neilltuo adnoddau priodol ar ei gyfer. Yng nghyd-destun diwygiadau ehangach ym maes ADY, byddai hyn yn ychwanegu at yr effaith sylweddol a ddisgwylir yn barod ar allu ALLau i gyflawni eu dyletswyddau statudol mewn perthynas â dysgwyr sydd ag ADY, ac yn ei dro, byddai'n gofyn am gyllid ychwanegol. Byddai'n arwain at oblygiadau mewn perthynas â'r angen i wella'r gweithlu arbenigol hefyd.”
(Awdurdod lleol)

Gwnaethpwyd y sylwadau canlynol hefyd gan lai nag un o bob deg o'r ymatebion:

- Dylai swyddog EHE da, sydd wedi cael hyfforddiant da ac y mae ganddynt brofiad addas, fod yn gymwys i wneud penderfyniadau ynghylch addasrwydd addysg yn y cartref heb gael mewnbwn ychwanegol.
- Byddai mewnbwn ychwanegol gan y gymuned addysg yn y cartref ac elusennau perthnasol yn cynnig gwerth ychwanegol i waith awdurdodau lleol.

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion a sefydliadau addysg yn y cartref ychydig yn fwy tebygol na chategoriâu o ymatebwyr eraill i wneud sylwadau na ddylid ceisio unrhyw fewnbwn ychwanegol gan fathau eraill o weithwyr proffesiynol mewn ffordd ddiodyn. Roedd awdurdodau lleol, rhanddeiliaid addysg a byrddau diogelu ychydig yn fwy tebygol o nodi y dylai asiantaethau lluosog fod ar gael i awdurdodau lleol alw arnynt yn ôl yr angen er mwyn bodloni anghenion unigol pob plentyn a addysgir yn y cartref. Fel arall, codwyd themâu gan amrywiaeth o gategoriâu ymatebwyr fel arfer.

A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y bennod hon?

Rhodddwyd cyfanswm o 170 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Pwysleisiodd ychydig dros un o bob tri o'r ymatebion bod y canllawiau yn y bennod hon yn debygol o niweidio perthnasoedd rhwng awdurdodau lleol ac addysgwyr yn y cartref, yn hytrach na meithrin perthnasoedd cadarnhaol. Roedd ymatebion yn disgrifio tôn y canllawiau fel tôn wrthwynebol a bygythiol, ac mae'n ymddangos bod hyn yn mynd yn groes i awgrym y canllawiau y dylai awdurdodau lleol feithrin perthynas gadarnhaol gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Nododd ymatebion na fydd y canllawiau'n annog addysgwyr yn y cartref i ymddiried mewn awdurdodau lleol pan geir elfen o “orfodi” teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref a'u plant i gyfarfod gydag awdurdodau lleol a dangos addasrwydd dan fygythiad Gorchmynion Mynychu'r Ysgol a goruchwyliaeth bellach.

“I grynhoi, teimlaf bod y canllawiau'n dadrymuso rhieni, gan danseilio eu gweithgarwch rhianta a chan ddefnyddio bygythiadau er mwyn gwneud hynny. Sut mae hyn yn cynnig cyfleoedd i feithrin perthnasoedd cadarnhaol?” (Unigolyn)

Dywedodd dros chwarter yr ymatebion bod y canllawiau yn y bennod hon yn adlewyrchu gormod o amharu ar fywyd teuluol ac mae'n mynd y tu hwnt i derfynau cyfreithiol. Mynegwyd pryder mewn ymatebion bod y canllawiau yn tarfu ar breifatrwydd

mewn ffordd anghymesur, gan roi disgwyliad afresymol ar deuluoedd i ganiatáu i awdurdodau lleol gael mynediad i'w bywyd yn y cartref. Ystyrir bod hyn yn croesi terfynau cyfreithiol trwy awgrymu bod gan awdurdodau lleol hawliau cyfreithiol i gyfarfod gyda'r teuluoedd, cyfarfod â phlant a gwahaniaethu yn erbyn teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref trwy ofyn am fwy o weithgarwch ymgysylltu nag y gofynnir gan blant a addysgir yn yr ysgol a'u teuluoedd.

Dyweddod llai nag un o bob pump o'r ymatebion bod y canllawiau yn y bennod hon yn dangos diffyg diffyg dealltwriaeth o ddulliau addysgu yn y cartref a'u bod yn mabwysiadu dull gwahaniaethol wrth ymgysylltu gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Mynegwyd pryderon mewn ymatebion nad yw nodweddion addysg addas ac effeithlon yn ystyried amrywiaeth a dulliau addysg yn y cartref, nad ydynt efallai yn bodloni disgwyliadau prif ffrwd o ran cynhyrchu gwaith a chanolbwyntio ar ddulliau amgen megis dulliau diysgol. Adroddodd ymatebion ei bod yn ymddangos bod y canllawiau yn dymuno efelychu amgylchedd ysgol yn y cartref, gan ragdybio gwendidau posibl mewn addysg yn y cartref.

“Soniodd 4.28 y dylai ALLau ofyn am gael gweld enghreifftiau o ddysgu heb egluro'r hyn y gellir ei ystyried fel enghraifft o ddysgu. O ystyried y ffaith nad yw'r gyfraith yn mynnu bod rhieni yn marcio gwaith neu'n cadw cofnod o ddysgu yn yr un ffordd ag y mae ysgolion yn ei wneud, mae hyn yn peri tipyn o broblem, yn enwedig pan fo'r rhieni yn dewis arddull dysgu sy'n wahanol iawn i'r addysg a ddarperir mewn ysgolion am resymau athronyddol a moesegol.” (Unigolyn)

Nododd llai nag un o bob pump o'r ymatebion hefyd y bydd y canllawiau yn y bennod hon yn cael effaith negyddol ar blant a addysgir yn y cartref. Roedd yr ymatebion hyn yn adlewyrchu pryderon a fynegwyd dan gwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad, yn ymwneud â'r effaith negyddol ar les ac iechyd meddwl plant os bydd gofyn iddynt ymgysylltu gyda swyddogion awdurdodau lleol.

Mynegwyd pryderon gan tua un o bob deg o'r ymatebion:

- Bod y canllawiau'n creu tybiaeth nad yw'r addysg a ddarperir yn addas, oni bai y ceir tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Barnir bod hyn yn mynd yn groes i'r cynsail cyfreithiol o dybio dieuogrwydd, ac yn lle hynny, dim ond safbwynt nad yw plentyn yn cael addysg addas lle y ceir tystiolaeth gadarnhaol bod hyn yn wir y mae Deddf Addysg 1996 yn caniadau i awdurdodau lleol ei wneud.
- Roedd ymatebion yn mynegi pryderon am y sawl y byddent yn gwneud penderfyniadau am addasrwydd addysg, sut y byddai modd gwneud hyn mewn ffordd gyson, sut y byddai modd dangos tystiolaeth o ddulliau amgen addysg yn y cartref a sut y gallai'r nodweddion awgrymedig ystyried amrediad y dulliau a ddefnyddir.
- Ystyrir bod y canllawiau yn dadrymuso rhieni, gan gyfyngu ar eu hawliau fel rhieni i addysgu yn y cartref yn unol â'u gwybodaeth a'u barn orau am anghenion eu plentyn.

Mynegwyd themâu ychwanegol hefyd mewn lleiafrif bach (llai nag un o bob deg) o'r ymatebion:

- Mae angen cael manylion pellach am y ffordd y byddai modd neilltuo adnoddau i'r canllawiau, a bod awdurdodau lleol yn eu gweithredu mewn ffordd gyson. Mynegwyd ychydig bryder gan ymatebion bod angen ystyried sut y disgwyllir i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau newydd mewn ffordd effeithiol.

- Mae angen gwneud diwygiadau neu ychwanegiadau penodol i'r canllawiau, megis manylion am sut y byddai'n gweithio mewn gwirionedd neu nodweddion awgrymedig ychwanegol addysg addas.
- Y dylid adolygu a gwella addysg prif ffrwd cyn neilltuo adnoddau a rhoi sylw i addysg yn y cartref.

“Mae angen i'r canllawiau fod yn gliriach a chynnwys mwy o fanylion am y ffordd y gall asesiadau addasrwydd fod yn gadarn ac yn gyson, a'r sawl y mae'n rhaid iddynt gael eu cynnwys. Sut mae awdurdod lleol yn dangos tystiolaeth fanwl bod plentyn yn cael addysg amser llawn sy'n addas i'w hoedran, eu gallu, eu dawn ac AAA – ni fydd hyn yn hawdd i'w bennu. Bydd cymhlethdod hyn yn arwain at bwysau sylweddol o ran amser ac adnoddau. Ni chynhaliwyd prawf sylweddol eto o'r ffordd y gweithredir hyn mewn fframwaith cyfreithiol.” (Bwrdd Diogelu)

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Mae awdurdodau lleol, ymatebwyr o'r sector iechyd, rhanddeiliaid addysg a byrddau diogelu ychydig yn fwy tebygol na chategorïau eraill o ymatebwyr o wneud sylwadau am: yr angen am fanylion pellach ynghylch sut y byddai modd neilltuo adnoddau i'r canllawiau a'u gweithredu; yr angen am ddiwygiadau neu ychwanegiadau penodol i'r canllawiau; a chefnogaeth gyffredinol ar gyfer y canllawiau a'r effaith gadarnhaol y byddent yn ei chael ar blant. Roedd unigolion a sefydliadau addysg yn y cartref yn fwy tebygol o fynegi'r pryderon a godwyd uchod ynghylch tarfu ar fywyd teuluol, diffyg dealltwriaeth o ddulliau addysg yn y cartref, niwed i'r berthynas rhwng addysgwyr yn y cartref ac awdurdodau lleol, a'r effaith negyddol bosibl ar blant.

Cwestiwn 5: gorchmynion mynychu'r ysgol a gorchmynion goruchwylio addysg (pennod 4)

A yw'r bennod hon yn glir ynghylch cyfrifoldebau awdurdodau lleol i gyhoeddi SAOs ac ESOs?

Ydy	Nac ydy	Ansicr
29% (108)	54% (201)	17% (62)

n= 371

Yn ychwanegol i'r ymatebion i'r cwestiwn caeedig (ydy/nac ydy/ansicr), rhoddwyd 181 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Mae'n werth nodi yn arbennig nad oedd cyfran fawr o'r ymatebion wedi ateb y cwestiwn yn uniongyrchol, a'u bod wedi manteisio ar y cyfle i fynegi eu safbwyntiau am y syniad o gyhoeddi gorchmynion mynychu'r ysgol (SAOs) a gorchmynion goruchwylio addysg (ESOs) yn lle hynny. Mae'r themâu a amlinellir isod yn cynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiwn ac atebion eraill sy'n ymwneud â'r syniad o gyhoeddi SAOs ac ESOs. Amlinellir y themâu hyn isod mewn trefn yn ôl yr amllder y'u mynegwyd.

Roedd un o bob tri o'r ymatebion wedi nodi'n benodol eu bod yn anghytuno â'r broses o gyhoeddi SAOs ac ESOs a amlinellwyd ym mhennod 4 y canllawiau, gan gynnwys yr amserlen o 15 diwrnod o rybudd a roddir i rieni ymateb i gais awdurdodau lleol i ddangos bod addysg addas yn cael ei darparu. Yn aml, roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys esboniad pellach am y rhesymau dros anghytuno â'r broses. Mae'r themâu canlynol yn cynnwys y rhesymau hyn dros y safbwyntiau hyn.

Esboniodd un o bob tri ymateb ei bod yn rhesymol gofyn i rieni ddarparu gwybodaeth sy'n dangos tystiolaeth o'r ffaith bod addysg addas yn cael ei derbyn, ond nad yw'n rhesymol gorchymyn cyfarfod gyda rhieni neu blant. Roedd ymatebion yn cyfeirio at y linell gyntaf ym mharagraff 5.3 dogfen y canllawiau: 'Y cam mwyaf amlwg yw bod awdurdodau lleol yn cyfarfod gyda'r rhieni a'r plentyn sy'n derbyn addysg yn y cartref ynghylch yr addysg y maent yn ei darparu ar gyfer eu plentyn.' Mae ymatebion yn nodi bod hwn yn camddyfynnu cyfraith achosion Phillips v Brown, sy'n nodi mai'r "cam mwyaf amlwg yw gofyn i'r rhiant am wybodaeth." O'r herwydd, esboniodd ymatebion ymhellach eu bod yn herio'r broses lle y mae awdurdodau lleol yn gorchymyn cyfarfod gyda rhieni a phlant.

"Mae deddf addysg 1996 a436a a'r cynsail presennol (Phillips v Brown), yn nodi ei bod yn rhesymol i'r ALI ofyn am wybodaeth gan y rhieni, yn hytrach na gorfodi cyfarfod, fel y nodir yn y canllawiau." (Unigolyn)

Roedd ychydig yn llai nag un o bob pump ymateb yn herio'r canllawiau i awdurdodau lleol i ddod i'r casgliad nad yw'n ymddangos bod yr addysg yn y cartref yn addas os na cheir gwybodaeth sy'n awgrymu bod addysg addas yn cael ei darparu. Awgrymwyd mai'r casgliad y dylid ei wneud yw bod addysg addas yn cael ei darparu yn y cartref oni bai bod yr awdurdod lleol yn cael tystiolaeth i'r gwrthwyneb.

*“Teimlaf ei fod yn llwybr peryglus tybio esgeulustod neu ddiffyg darpariaeth oni bai y gallwn ddarparu tystiolaeth i'r gwrthwyneb. Ym mha faes arall mewn bywyd y byddwch yn tybio euogrwydd nes y profir dieuogrwydd?”
(Unigolyn)*

Amlinellodd dros un o bob deg ymateb ddiffyg eglurder mewn sawl maes yn y ddogfen ganllawiau, gan gynnwys:

- Cyfrifoldebau awdurdodau lleol, gan gynnwys:
 - sut y dylai awdurdodau lleol ymateb os nad ydynt yn siŵr a yw plentyn yn cael addysg addas neu beidio.
 - sut y dylai awdurdodau lleol ymateb os yw'r addysg yn cynnwys cryfderau sylweddol, ond mae'n cynnwys rhai gwendidau hefyd y gallai'r teulu roi sylw iddynt efallai trwy gael cyngor a chymorth.
- Cyfrifoldebau rhieni.
- Prosesau sy'n ymwneud â chyhoeddi SAOs ac ESOs.
- Amseru, gan gynnwys cwestiynau am yr hyn sy'n digwydd os rhoddir rhybudd yn ystod cyfnod o wyliau addysgol.
- Diffyg diffiniadau clir ynghylch 'addysg addas' ac ar gyfer SAO ac ESO.

Mewn rhai achosion, mae ymatebion yn esbonio bod y diffyg eglurder hwn yn deillio o eiriad a allai gael ei gamddechongli neu a allai beri dryswch.

Nododd ychydig yn fwy nag un o bob deg ymateb nad yw'r broses o gyhoeddi SAOs ac ESOs a amlinellir yn y ddogfen ganllawiau yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Roedd yr ymatebion hyn yn cyfeirio at y pwyntiau canlynol yn benodol:

- Roedd ymatebion yn cwestiynu cyfreithlondeb camau arfaethedig awdurdodau lleol i gyhoeddi SAOs gan nad oes unrhyw reidrwydd cyfreithiol ar addysgwyr yn y cartref i ymateb i geisiadau rhesymol gan yr awdurdod lleol.
- Nododd ymatebion nad oes unrhyw ddeddfwriaeth sy'n rhoi rheidrwydd ar rieni i fynychu cyfarfod er mwyn galluogi'r awdurdod lleol i asesu a oes addysg addas yn cael ei darparu neu beidio.

“Mae'r bennod hon yn awgrymu y dylai ALLau wneud cais am SAO's pan fydd rhiant yn gwrthod eu cyfarfod wyneb yn wyneb. Ni cheir deddfwriaeth na chynsail sy'n datgan bod yn rhaid i riant gyfarfod swyddog addysg, dim ond y dylai'r rhiant ddarparu gwybodaeth ynghylch yr addysg a ddarperir. Gellir gwneud hyn trwy lunio adroddiad addysg ac nid oes angen iddo fod yn gyfarfod wyneb yn wyneb.” (Unigolyn)

Nododd tua un o bob deg ymateb yn benodol bod cyfrifoldebau awdurdodau lleol yn cael eu hamlinellu'n glir yn y bennod. Nid oedd rhan fwyaf yr ymatebion hyn wedi rhoi esboniad pellach dros eu hateb. Fodd bynnag, maent yn nodi ymhellach eu bod naill ai'n anghytuno gyda'r syniad o gyhoeddi SAOs ac ESOs neu bod gofyn cael canllawiau pellach i rieni.

“Nodir y manylion yn glir iawn yma. Yr hyn sydd ar goll efallai ac a fyddai'n ddefnyddiol i rieni fyddai enghreifftiau o'r ffordd y mae'r Cynulliad

Cenedlaethol yn dehongli'r linell o'r Ddeddf Addysg: 'Os bydd yn ymddangos i awdurdod lleol nad yw plentyn o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal yn cael addysg addas...' Gallai hyn ddatblygu'r enghreifftiau a roddwyd yn 4.15-4.18 trwy gynnig enghreifftiau o'r hyn y mae 'ymddangos i awdurdod lleol' yn ei olygu mewn sefyllfa go iawn.' (Unigolyn)

Esboniodd ychydig yn llai nag un o bob deg ymateb bod y broses o gyhoeddi SAOs ac ESOs a amlinellir yn y ddogfen ganllawiau yn mynd yn groes i'r syniad y dylai awdurdodau lleol fod yn gweithio gydag addysgwyr yn y cartref ac yn eu cynorthwyo. Roedd ymatebion yn amlinellu y dylai'r cydweithio hwn gynnwys, er enghraifft, awdurdodau lleol yn hysbysu rhieni o unrhyw faterion a nodwyd, y gallent beri i'r awdurdod lleol farnu nad yw'r addysg yn addas. Os felly, dylid rhoi amser digonol i rieni wneud y newidiadau gofynnol i'r addysg a ddarperir.

"Hoffwn weld y ddogfen yn cael ei haileirio'n gyfan gwbl, gan ganolbwyntio ar ymddiriedaeth yng ngallu'r rhiant i ddarparu addysg addas, a phan dynnir sylw'r ALI at y ffaith nad yw hyn yn digwydd efallai, ffocws ar gynorthwyo a chydweithio gyda'r rhiant hwnnw, er mwyn osgoi ar bob cyfrif y cam o orfodi dull addysgol nad ydyn nhw a'r plentyn yn hapus ag ef, neu yn yr achos gwaethaf, unrhyw fath o erlyniad." (Unigolyn)

Mynegwyd y farn gan ychydig yn llai nag un o bob deg ymateb bod y broses o gyhoeddi SAOs ac ESOs a amlinellir yn y ddogfen ganllawiau yn ymwithiol ac yn ddianghenraid. Yn yr ymatebion hyn, defnyddiodd ymatebwyr yr ymadroddion 'bygythiad SAO' a 'bwlio' er mwyn mynegi'r ffordd yr oedden nhw yn gweld y broses a ddisgrifiwyd. Ymhellach, roedd sylwadau'n awgrymu y gallai'r gweithgarwch hwn o gyhoeddi SAOs ac ESOs darfu ar addysg plant a'u bywyd yn y cartref a/neu beri niwed emosiynol, seicolegol a/neu ariannol i'r plentyn.

"Dylai awdurdod lleol fod yn gallu asesu'r ddarpariaeth addysg o adroddiad ysgrifenedig ac ni ddylai geisio gorfodi ei ffordd i mewn i fywydau preifat pobl. Ni ddylid bwlio dinasyddion preifat a phlant gydag SAOs ac ESOs." (Unigolyn)

Esboniodd llai nag un o bob deg ymateb y dylid rhoi mwy o ryddid i deuluoedd wneud eu dewisiadau eu hunain am y ffordd yr addysgir eu plant. Mae'r ymatebion hyn yn esbonio mai rhieni sy'n adnabod eu plant orau a'r hyn sydd orau iddynt, felly dylid gadael i'r rhiant benderfynu ar y ffurf addysg fwyaf addas i'w plentyn. Nododd ymatebion ymhellach mai rhieni sy'n gyfrifol am asesu addasrwydd yr addysg a ddarperir i'w plentyn a bod cyhoeddi SAO pan na fydd rhieni yn darparu tystiolaeth o addysg addas yn tansellio hawliau teuluoedd.

"Gallwn gadw'r hawl i beidio ymateb oherwydd ein bod yn cadw'r hawl i addysgu yn y cartref mewn ffordd sy'n addas yn ein barn ni, yn rhydd rhag aflonyddu neu bwysau allanol." (Unigolyn)

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion, sefydliadau o'r trydydd sector a sefydliadau addysg yn y cartref yn fwy tebygol na chategoriâu eraill o ymatebwyr o anghytuno gyda'r broses o gyhoeddi SAOs ac ESOs. Roedd awdurdodau lleol a rhanddeiliaid addysg yn fwy tebygol na chategoriâu eraill o ymatebwyr o nodi y caiff cyfrifoldebau awdurdodau lleol eu nodi'n glir yn y bennod. Roedd unigolion, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn herio'r canllawiau i awdurdodau lleol ddod i'r casgliad, yn absenoldeb gwybodaeth, nad yw'n ymddangos bod yr addysg yn y cartref yn addas.

A yw'r bennod hon yn glir am y broses i'w dilyn wrth gyhoeddi SAOs ac ESOs?

Ydy	Nac ydy	Ansicr
31% (109)	51% (182)	18% (64)

n= 355

Yn ychwanegol i'r ymatebion i'r cwestiwn caeedig (ydy/nac ydy/ansicr), rhoddwyd 144 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Yn debyg i ran gyntaf cwestiwn 5, nid oedd cyfran fawr o ymatebion wedi ateb y cwestiwn yn uniongyrchol, ac yn lle hynny, roeddent wedi manteisio ar y cyfle i fynegi eu safbwyntiau am y syniad o gyhoeddi SAOs ac ESOs. Mae'r themâu a amlinellir isod yn cynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiwn ac atebion eraill sy'n ymwneud â'r syniad o gyhoeddi SAOs ac ESOs. Amlinellir y themâu hyn isod mewn trefn yn ôl yr amllder y'u mynegwyd. Dylid nodi bod rhai o'r themâu hyn yn debyg i'r rhai a nodwyd mewn ymatebion i ran gyntaf cwestiwn 5.

Roedd ychydig yn llai nag un o bob tri ymateb wedi nodi'n benodol eu bod yn anghytuno gyda'r broses o gyhoeddi SAOs ac ESOs a amlinellwyd ym mhennod 4 y canllawiau. Yn debyg i ran gyntaf cwestiwn 5, roedd ymatebion yn cynnwys sylwadau bod yr amserlen o 15 diwrnod o rybudd sydd gan rieni i ymateb i geisiadau awdurdodau lleol i ddangos darpariaeth addysg addas, yn afresymol.

Roedd ail ymateb amlwg yn ymwneud â pharagraff 5.15 yn y ddogfen ganllawiau. Roedd ymatebion yn herio'r syniad o awdurdodau lleol yn sicrhau gorchymyn costau yn erbyn diffynnydd llwyddiannus. Roedd yr ymatebion hyn yn dadlau bod gan ymgyfreithiwr sy'n llwyddo gyda'u hachos yr hawl i geisio gorchymyn costau; Felly, yr awgrym oedd, os bydd y llys yn dyfarnu o blaid rhiant y mae'r awdurdod lleol yn barnu bod angen eu herlyn, gallai'r rhiant sicrhau gorchymyn costau yn erbyn yr awdurdod lleol.

“Mewn llys, credaf y byddwch yn darganfod, os bydd yr awdurdod yn dewis erlyn y rhieni ac os bydd y llys yn dyfarnu o blaid y rhieni, y rhieni sydd â'r hawl i geisio gorchymyn costau, nid yr ymgyfreithiwr a fu'n aflwyddiannus, sef yr awdurdod lleol.” (Unigolyn)

Roedd llai nag un o bob pump ymateb wedi amlinellu diffyg eglurder mewn sawl maes yn y ddogfen ganllawiau (mae hyn yn debyg i'r thema a nodwyd yn rhan gyntaf cwestiwn 5), gan gynnwys:

- Prosesau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi SAOs ac ESOs
- Cyfrifoldebau awdurdodau lleol
- Amseriadau, gan gynnwys cwestiynau am yr hyn a fydd yn digwydd os rhoddir rhybudd yn ystod cyfnod o wyliau addysgol.
- Diffyg diffiniadau clir am addysg addas'.
- Diffyg eglurder yn y siartiau llif a gyflwynir yn Atodiad 1 y ddogfen ganllawiau.

Mewn rhai achosion, mae ymatebion yn esbonio bod y diffyg eglurder hwn yn deillio o eiriad y byddai modd ei gamddehongli neu a allai beri dryswch neu gael ei gamddefnyddio.

“Mae angen cael dealltwriaeth glir o arddull addysg ac esboniad clir am yr hyn sy'n anaddas yn eu barn nhw. Fel arall, mae'r canllawiau yn ddryslyd.”
(Unigolyn)

“Yn gyffredinol, mae'r camau yn y broses yn glir, fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw'r ffordd y'i cyflwynir yn nodi'n glir pa mor eithriadol y mae'n rhaid i achos fod er mwyn cychwyn prosesau o'r fath. Y gofid gyda'r ffordd y cyflwynir hyn yw y gellid darllen y canllawiau a thybio bod hon yn broses safonol ac y dylid ei defnyddio fel mater o drefn, ac rydw i'n siŵr nad hyn yw'r bwriad.” (Unigolyn)

Nododd ychydig yn fwy nag un o bob deg ymateb nad yw'r canllawiau yn ystyried anghenion y plentyn yn llawn, ac roedd ymatebion yn cwestiynu sut y mae'r broses a amlinellwyd yn cyd-fynd â CCUHP. Roedd yr ymatebion hyn yn cydnabod pwysigrwydd ystyried yr hyn sydd orau i'r plentyn, gan gwestiynu a yw'r prosesau o gyhoeddi SAOs ac ESOs a amlinellwyd yn y ddogfen ganllawiau yn ystyried hyn. Esboniodd yr ymatebion ymhellach y gallai gorfodi plant sy'n gwrthod mynd i'r ysgol, yn aml oherwydd eu bod wedi dioddef profiadau gwael yn yr ysgol, i fynychu'r ysgol trwy gyhoeddi SAO, beri 'niwed difrifol' i iechyd y plant hyn (meddyliol a/neu gorfforol).

“Ni chyfeirir at fudd pennaf a safbwyntiau'r plentyn, er gwaethaf y ffaith bod nifer o blant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref yn blant sy'n gwrthod mynd i'r ysgol, ac nad oes modd bodloni eu budd pennaf trwy eu gorfodi i fynd i'r ysgol.” (Unigolyn)

Nododd ychydig yn llai nag un o bob deg ymateb nad yw'r broses o gyhoeddi SAOs ac ESOs a amlinellir yn y ddogfen ganllawiau yn cyd-fynd â deddfwriaeth gyfredol. Hon yw'r un thema a nodwyd o'r ymatebion i ran gyntaf cwestiwn 5. Fel y nodwyd uchod, roedd ymatebion yn cyfeirio at y pwyntiau canlynol yn benodol:

- Roedd ymatebion yn cwestiynu cyfreithlondeb camau arfaethedig gan awdurdodau lleol i gyhoeddi SAOs, gan nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ar addysgwyr yn y cartref i ymateb i geisiadau rhesymol gan yr awdurdod lleol.
- Nododd ymatebion nad oes unrhyw ddeddfwriaeth sy'n rhoi rhwymedigaeth ar rieni i fynychu cyfarfod o'r fath er mwyn galluogi'r awdurdod lleol i asesu a oes addysg addas yn cael ei darparu.

Ymhellach i'r thema uchod, **roedd dros un o bob deg ymateb wedi nodi esiamplau o ddeddfwriaeth yn cael ei chamddyfynnu yn y ddogfen ganllawiau.** Isod, cyflwynir sylw enghreifftiol a wnaethpwyd mewn un ymateb:

“Mae Adran 5.18 yn nodi “Rhaid i awdurdod lleol dan adran 447 Deddf Addysg 1996 ystyried gwneud cais am ESO cyn gwneud penderfyniad i erlyn rhieni am bresenoldeb gwael neu am fethu cydymffurfio gydag SAO”. Unwaith eto, mae hwn yn camddyfynnu'r ddeddfwriaeth er mwyn rhoi ensyniad cynnil i'r datganiad. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r canlynol mewn gwirionedd: “Cyn dechrau cymryd camau am gyflawni trosedd dan adran 443 neu 444, bydd awdurdod lleol yn ystyried a fyddai'n briodol (yn lle cymryd camau neu yn ogystal â chymryd camau) i wneud cais am orchymyn goruchwyllo addysg mewn perthynas â'r plentyn”. Cynlluniwyd y camddyfynnu hwn i gymhell ALLau i geisio ESOs pan fyddent yn dewis peidio gwneud hynny fel arall.” (Unigolyn)

Fel y gwelwyd gyda'r ymatebion i ran gyntaf cwestiwn 5, **esboniodd ychydig yn llai nag un o bob deg ymateb bod y broses o gyhoeddi SAOs ac ESOs a amlinellir yn y ddogfen ganllawiau yn mynd yn groes i'r syniad y dylai awdurdodau lleol fod yn gweithio gyda ac yn cynorthwyo addysgwyr yn y cartref.** Mae ymatebion yn esbonio mai dewis olaf ddylai fod y cam o gyhoeddi SAO, ac y dylai awdurdodau lleol weithio gyda rhieni i ddatrys unrhyw broblemau neu bryderon yn gyntaf. Nododd un ymateb yn arbennig *“nad yw'r bennod yn cefnogi addysg yn y cartref fel dewis dilys.”*

Roedd ychydig yn llai nag un o bob deg ymateb yn dadlau bod y canllawiau i awdurdodau lleol yn gorbwysleisio'r defnydd o SAOsc ac ESOs ac felly, ei fod yn ymddangos fel cam ymosodol a bygythiol. Esboniodd ymatebion bod y gorbwyslais hwn yn gymhellol ac yn ceisio dylanwadu ar deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref i gydymffurfio a dylanwadu ar awdurdodau lleol i gyhoeddi ESOs ac SAOs heb fod angen.

“Efallai y bydd rhai swyddogion awdurdod lleol sensitif a chymwys yn dewis gweithio gyda theulu er mwyn osgoi SAO. Nid yw'r canllawiau hyn yn ystyried amgylchiadau unigol, ond yn hytrach, maent yn rhuthro i fyrgwth cosbau os na fydd teuluoedd yn cyd-fynd â'r meini prawf cul sydd ynddynt.” (Unigolyn)

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion a sefydliadau addysg yn y cartref yn fwy tebygol na chategoriâu eraill o ymatebwyr o nodi nad yw'r prosesau a amlinellir yn y ddogfen ganllawiau yn cyd-fynd â deddfwriaeth gyfredol, a chydnabod enghreifftiau lle y caiff deddfwriaeth ei chamddyfynnu. Roedd unigolion a rhanddeiliaid addysg yn fwy tebygol o nodi nad yw'r canllawiau yn ystyried anghenion y plentyn yn llawn. Mae'r rhan fwyaf o gategoriâu o ymatebwyr yn amlinellu'r ffaith bod diffyg eglurder mewn adrannau amrywiol yn y bennod. Fodd bynnag, rhanddeiliaid addysg ac awdurdodau lleol oedd y rhai mwyaf tebygol o godi'r mater hwn, o'u cymharu gyda chategoriâu eraill o ymatebwyr.

Cwestiwn 6: cymorth addysgol (pennod 5)

Mae'r bennod hon yn ystyried y cyngor, y wybodaeth a'r cymorth y gallai awdurdodau lleol sicrhau eu bod ar gael i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Yn eich barn chi, a yw'r bennod hon yn ddefnyddiol?

Ydy	Nac ydy	Ansicr
34% (126)	41% (152)	25% (93)

n= 371

Yn ychwanegol i'r ymatebion i'r cwestiwn caeedig (ydy/nac ydy/ansicr), rhoddwyd 235 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Awgrymodd ychydig yn llai nag un o bob tri ymateb y dylid newid y geiriad yn adran 6.1 er mwyn cynnig eglurder am y ffaith y dylai awdurdodau lleol gynnig cymorth i addysgwyr yn y cartref, ond nad oes yn rheidrwydd arnynt i dderbyn y cymorth hwn. Esboniodd ymatebion bod y geiriad yn honni bod yn rhaid i awdurdodau lleol gynorthwyo a bod yn rhaid i addysgwyr yn y cartref dderbyn y cymorth hwn. Fodd bynnag, maent yn amlinellu hefyd bod gan addysgwyr yn y cartref yr hawl i ddewis a ydynt yn dymuno derbyn y cymorth gan awdurdodau lleol. Felly, awgrymodd ymatebion y dylid newid y geiriad i 'O gael cais, disgwylir i awdurdodau lleol gynorthwyo rheini sy'n addysgu yn y cartref'.

Nododd ychydig dros chwarter yr ymatebion nad oes gwybodaeth ddigonol yn y bennod ynghylch lefel a/neu fath y cymorth y dylid ei ddarparu i addysgwyr yn y cartref. Nodwyd y meysydd cymorth canlynol yn yr ymatebion:

- Cymorth ariannol ar gyfer meysydd megis ffioedd arholiadau neu ffioedd tiwtoriaid. Mynegwyd hyn gan unigolion yn bennaf. Roedd ymatebion awdurdodau lleol yn awgrymu, unwaith y gwneir y penderfyniad i addysgu yn y cartref, mai'r rhieni sy'n meddu ar y cyfrifoldeb, gan gynnwys y cyfrifoldeb ariannol.
- Darpariaeth well i deuluoedd a phlant wrth gyfeirio at wasanaethau, megis gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd, gwasanaethau chwarae, cwnsela a gwasanaethau eiriolaeth.
- Cynorthwyo addysgwyr yn y cartref i addysgu meysydd i blant megis cadw'n ddiogel a pherthnasoedd iach.
- Dylid neilltuo arian digonol i'r darpariaethau sydd ar gael, megis y rhai a amlinellir yn yr astudiaethau achos.

"Credaf yn gryf y dylai'r wladwriaeth dalu ffioedd arholiadau – mae'n warthus nas ariannir plant a addysgir yn y cartref i sefyll yr arholiadau, ond byddant yn cael eu cosbi os na fyddant yn gwneud hynny." (Unigolyn)

"Byddai modd gwella'r bennod hon trwy, er enghraifft, gyfeirio at wasanaethau gwybodaeth i deuluoedd, gwasanaethau i blant megis gwasanaethau chwarae, a hefyd gwasanaethau cwnsela ac eiriolaeth, y mae gan blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yn y cartref yr hawl i fanteisio arnynt." (Rhanddeiliad addysg)

Nododd un o bob pump ymateb bod angen gwella'r mynediad i ganolfannau arholiadau lleol mewn ysgolion a/neu ganolfannau arholiadau i oedolion. Amlinellodd ymatebion y ffaith y ceir mynediad gwael i ganolfannau arholi, a bod yn rhaid i blant a addysgir yn y cartref deithio cryn bellter yn aml, ac mai hwn yw'r prif rwystr sy'n atal plant a addysgir yn y cartref rhag sefyll arholiadau. Felly, roedd ymatebion yn awgrymu y dylai awdurdodau lleol hwyluso gwell mynediad trwy annog mwy o ysgolion i agor eu canolfannau arholi i ymgeiswyr allanol.

“Byddai gweithgarwch gan awdurdodau lleol i hwyluso mynediad i ganolfannau arholi yn cael ei werthfawrogi'n fawr, gan bod gofyn teithio cryn bellteroedd mewn rhai ardaloedd, ac mae'r costau yn gallu bod yn uchel. Byddai'n well pe bai awdurdodau lleol yn annog ysgolion neu ganolfannau EOTAS i dderbyn plant a addysgir yn y cartref ar gyfer arholiadau, yn hytrach nag Unedau Cyfeirio Disgyblion.” (Unigolyn)

Ymhellach i'r thema o wella mynediad i ganolfannau arholi, **nododd dros un o bob deg ymateb nad yw Unedau Cyfeirio Disgyblion yn lleoliadau priodol fel arfer i blant a addysgir yn y cartref sefyll arholiadau.** Esboniodd rhai o'r ymatebion hyn ymhellach y gallai UCD fod yn amgylchedd aflonyddol i blant a addysgir yn y cartref sefyll arholiadau. Mynegwyd pryderon gan eraill ynghylch y ffaith yr enwir UCD fel y ganolfan arholi ar dystysgrif arholiad plant a addysgir yn y cartref.

Mynegwyd amheuaeth gan ychydig dros un o bob deg ymateb tuag at awdurdodau lleol a'r cymorth arfaethedig a amlinellir yn y bennod hon. Roedd ymatebion yn awgrymu diffyg ymddiriedaeth sylfaenol rhagsefydledig mewn awdurdodau lleol, ac mewn sawl achos, dyma'r hyn sydd wedi peri i deuluoedd benderfynu addysgu eu plant yn y cartref yn y lle cyntaf. Roedd ymatebion yn cwestiynu ai cymhelliad awdurdodau lleol wrth ddarparu cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, yw '*cadw golwg ar deuluoedd*'. Roedd yr ymatebion hyn yn esbonio ymhellach sut y maent yn ystyried y syniad hwn o gymorth fel 'esgus er mwyn cadw golwg ar deuluoedd', yn fwrn ac yn ymyrraeth.

“Yn bersonol, byddai'n well gen i beidio derbyn unrhyw gymorth gan yr ALI, oherwydd mae'n anochel y bydd amodau ynghlwm ag ef, a diben addysg yn y cartref yw tynnu ein plentyn allan o system ysgolion y wladwriaeth, a bod yn hollol gyfrifol am eu haddysg.” (Unigolyn)

Nododd ychydig yn llai nag un o bob deg ymateb bod y gymuned addysgu yn y cartref eisoes yn cynnig cymorth sylweddol i addysgwyr yn y cartref, a barnwyd bod hwn yn fwy defnyddiol na'r cymorth y gall awdurdodau lleol ei gynnig. Esboniodd ymatebion bod y gymuned addysg yn y cartref, gan gynnwys grwpiau ac elusennau, yn rhwydwaith cymorth mawr sydd ar gael yn hawdd ac sy'n meddu ar brofiad sylweddol er mwyn cynnig cymorth, a bod hwn yn arbennig o ddefnyddiol i deuluoedd y mae addysgu yn y cartref yn brofiad newydd iddynt. Mae ymatebion yn awgrymu y gallai awdurdodau lleol gyfeirio teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref at y cymorth hwn.

“Mae'r gymuned yn fawr a rhennir cymorth ac adnoddau mewn ffordd dda iawn ar ei thraws ar-lein a chan ystod eang o gyfleoedd dysgu a digwyddiadau lleol a chenedlaethol.” (Unigolyn)

Roedd ychydig yn llai nag un o bob deg ymateb yn beirniadu'r iaith a ddefnyddir yn y bennod hon, gan esbonio ei bod yn rhoi'r argraff nad oes rheidrwydd ar awdurdodau lleol i ddarparu'r cymorth hwn i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref gan nad yw'n rhoi dyletswydd orfodol arnynt. Roedd ymatebion yn awgrymu ymhellach y dylid disodli'r gair 'dylai' wrth roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol i ddarparu cymorth, gyda'r gair 'rhaid'. Byddai'r newid hwn i'r geiriad yn sicrhau dyletswydd statudol awdurdodau lleol i ddarparu cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ac sy'n gofyn i'r cymorth hwn gael ei gyfleu mewn ffordd gliriach yn y canllawiau.

“Mae gormod o'r iaith yn y bennod hon yn sôn am opsiynau a dewisiadau, yn hytrach na chyfrifoldebau statudol, ar gyfer awdurdodau lleol (e.e. yn adran 6.4, nid oes rheidrwydd ar, dim ond rhywbeth amwys o ddymunol y dylai awdurdod lleol sicrhau bod staff rheng flaen yn gefnogol o hawl rhiant i ddewis addysg yn y cartref: yn adran 6.6, nodir y 'dylai' – nid bod yn 'rhaid' - bod gan blant a addysgir yn y cartref gael mynediad i'r un amrediad o wasanaethau cymorth ag y byddent ar gael i blant a addysgir yn yr ysgol.”
(Unigolyn)

Mynegwyd themâu ychwanegol gan leiafrif bach (llai nag un o bob deg) o ymatebion hefyd, gan gynnwys:

- Rhaid i holl gynrychiolwyr awdurdodau lleol sy'n delio gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ddeall hawl rhiant i ddewis addysg yn y cartref.
- Mae'r astudiaethau achos yn darparu enghreifftiau defnyddiol.
- Mae'r cymorth a amlinellir yn dda, ond mae'n ddadleuol a fydd yn digwydd.
- Mae angen adolygu'r bennod yn rheolaidd, yn enwedig wrth sicrhau bod yr astudiaethau achos yn gyfredol.
- Materion a godwyd ynghylch yr adran sy'n ymwneud ag addysgu hyblyg, gan gynnwys y ffaith ei bod yn ymddangos ei bod yn breinio addysg mewn ysgol ar draul addysg yn y cartref, a'r awgrym bod addysgu hyblyg yn peri problemau gyda phresenoldeb i ysgolion.
- Ceir diffyg gwybodaeth/canllawiau i addysgwyr yn y cartref.
- Dylai fod gan rieni sy'n addysgu yn y cartref y rhyddid i ddewis ble y maent yn ceisio cymorth.
- Nid oes gofyn i awdurdodau lleol ddarparu cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref.
- Mae'r bennod yn hyrwyddo hawliau'r plentyn yn dda.

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion, sefydliadau o'r trydydd sector a sefydliadau addysg yn y cartref yn fwy tebygol na chategoriâu eraill o awgrymu y dylid newid y geiriad yn adran 6.1 er mwyn cynnig eglurder y dylid cynnig cymorth gan awdurdodau lleol ar ôl cael cais gan addysgwyr yn y cartref yn unig. Roedd awdurdodau lleol a rhanddeiliaid addysg yn fwy tebygol na chategoriâu eraill o ymatebwyr o nodi bod yr astudiaethau achos a amlinellir yn y bennod yn

cynnig enghreifftiau defnyddiol o gymorth. Fel arall, ni nodwyd patrwm amlwg ymhlith y grwpiau ymatebwyr a'r themâu a fynegwyd.

Cwestiwn 7: diogelu (pennod 6)

Mae'r bennod hon yn amlinellu dyletswyddau diogelu presennol sy'n berthnasol i awdurdodau lleol. Er nas profwyd cydberthynas rhwng addysg yn y cartref a diogelu, mae dyletswyddau diogelu penodol yn berthnasol i bob plentyn, waeth sut y maent yn cael eu haddysg. Yn eich barn chi, a yw'r bennod hon yn ddefnyddiol?

Ydy	Nac ydy	Ansicr
23% (86)	62% (235)	16% (60)

n= 381

Yn ychwanegol i'r ymatebion i'r cwestiwn caeedig (ydy/nac ydy/ansicr), rhoddwyd 249 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Roedd dros hanner yr ymatebion o'r farn, er bod y bennod yn cydnabod nad oes cydberthynas rhwng addysg yn y cartref a diogelu, bod tôn gweddill y bennod yn awgrymu cyswllt rhwng addysg yn y cartref a diogelu. Mae ymatebion yn esbonio sut y mae'r iaith a ddefnyddir yn y bennod yn 'fygythiol', yn 'gamarweiniol' ac yn 'debygol o annog unigolion i feddwl bod cydberthynas rhwng addysg yn y cartref a diogelu pan nas profwyd bod cydberthynas o'r fath yn bodoli.' Ymhellach, trwy gynnwys pennod am ddiogelu mewn dogfen ganllawiau addysgu yn y cartref, mae'r ymatebion hyn yn awgrymu cysylltiad rhwng y ddau.

“Er gwaethaf y ffaith y nodir nad yw plant a addysgir yn y cartref mewn mwy o berygl o gael eu hesgeuluso neu eu cam-drin, mae'r adran gyfan yn awgrymu bod hyn yn wir, ac y dylid ystyried pob plentyn a addysgir yn y cartref fel plentyn agored i niwed. Mae hyn yn warthus ac yn pennu rôl cadarn i awdurdodau o orfod diogelu plant rhag eu rhieni fel rhywbeth naturiol, ac mae hyn yn annerbyniol.” (Unigolyn)

Nododd ychydig yn llai nag un o bob tri ymateb bod plant a addysgir yn y cartref mewn llai o berygl a bod plant ysgol mewn mwy o berygl o ddioddef niwed. Mae nifer o'r ymatebion hyn yn cyfeirio at ganfyddiadau gwaith ymchwil, gan nodi bod yr ymchwil hwn wedi canfod bod cyfran y staff addysgu sy'n cam-drin plant yn uwch na chyfran y plant a addysgir yn y cartref y canfuwyd eu bod mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol neu yn dioddef niwed sylweddol. Mae ymatebion yn barnu ymhellach bod gormod o fwlio yn digwydd mewn ysgolion, ac nas rhoddir sylw iddo, ac yn ôl ymatebion, bod y materion diogelu hyn mewn ysgolion yn aml wedi arwain at benderfyniad rhieni i addysgu eu plentyn yn y cartref.

Awgrymodd dros chwarter yr ymatebion bod y bennod yn awgrymu na chaiff plant a addysgir yn y cartref eu gweld na'u clywed, ac mae hyn yn anghywir. Mae'r ymatebion hyn yn dadlau bod plant a addysgir yn y cartref yn aml yn fwy gweladwy yn eu cymuned (maent yn mynychu grwpiau cymunedol, llyfrgelloedd ac ati) ac yn cael eu gweld gan weithwyr proffesiynol (e.e. meddygon a deintyddion) a bod ganddynt sgiliau cymdeithasol llawn cystal, os nad gwell na phlant sy'n mynychu'r ysgol.

“Nid yw plant a addysgir yn y cartref ar wahân yn gymdeithasol. Mae eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn golygu eu bod yn cael cyswllt gydag ystod eang o oedolion a phlant o bob cefndir. Bydd plant a addysgir yn y cartref yn cael eu gweld gan ddeintyddion, optegwyr a meddygon, byddant yn ymweld â llyfrgelloedd, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp a drefnwyd gyda'u cyfoedion sy'n mynychu ysgol (e.e. gweithgareddau chwaraeon neu sgowtiaid), y maent oll yn cynnwys oedolion sydd â chyfrifoldebau diogelu.” (Unigolyn)

Pwysleisiodd ychydig yn llai nag un o bob deg ymateb bod sicrhau mynediad i blant heb ganiatâd rhieni yn golygu bod gofyn cael gorchymyn lllys. Roedd yr ymatebion hyn yn cyfeirio at adran 7.17 yn y ddogfen ganllawiau: “gall yr ymholiadau hyn gynnwys cymryd camau er mwyn cael mynediad i'r plentyn.” Mae ymatebion yn dadlau sut y mae'r datganiad hwn yn anghywir, oherwydd heb ganiatâd rhieni, dim ond trwy gyfrwng gorchymyn lllys y bydd modd sicrhau mynediad i blentyn.

“7.17: 'Gall yr ymholiadau hyn gynnwys cymryd camau er mwyn cael mynediad i'r plentyn'. Nid yw hyn yn ffeithiol gywir, gan na all yr ymholiadau gynnwys camau er mwyn cael mynediad i'r plentyn yn absenoldeb diffyg caniatâd gan riant, dim ond cais gan lys sy'n gallu gwneud hynny, oherwydd ni fyddai'r prawf er mwyn ceisio mynediad i'r plentyn heb ganiatâd yn cael ei fodloni.” (Unigolyn)

Roedd llai nag un o bob deg ymateb o'r farn bod diogelu yn fwy o gyfrifoldeb ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol nag awdurdodau lleol. Mae'r ymatebion hyn yn dadlau bod system eisoes mewn grym i sicrhau bod pob plentyn yn cael eu diogelu, ac nad yw hyn yn dod dan ddyletswydd yr awdurdod lleol. Er mwyn gwella'r system hon, mae gofyn cael rhagor o weithwyr cymdeithasol fel bod ganddynt lwythi achosion y maent yn haws i'w trin.

Roedd lleiafrif bach (llai nag un o bob deg) o ymatebion wedi mynegi themâu ychwanegol hefyd, gan gynnwys:

- Mae diogelu yn ystyriaeth bwysig, felly mae'r bennod yn bwysig ac yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, o ganlyniad i bwysigrwydd diogelu, roedd ymatebion yn awgrymu y dylid disodli'r geiriau 'dylai' gyda 'rhaid'.
- Mae annog y cam o ddefnyddio pwerau diogelu er mwyn cael mynediad i blant a addysgir yn y cartref yn 'dwyllodrus'.
- Nid yw diffyg tystiolaeth ynghylch addysg plentyn yn achos rhesymol dros amau niwed sylweddol.
- Croesawir y cyfeiriadau at Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan a chanllaw arfer Cymru Gyfan yn y bennod. Fodd bynnag, dylid cynnwys Erthygl 19, hawl plentyn i fod yn ddiogel ac i gael eu diogelu rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod.
- Ceir tybiaeth anghywir bod awdurdodau lleol yn gwybod yr hyn sydd orau i bob plentyn.
- Ni ddylid cymysgu rhwng anghenion addysgol ac iechyd a lles plant.
- Mae'r gyfraith eisoes yn rhoi'r grym i weithredu os bydd unrhyw bryderon ynghylch diogelu.
- Rhieni sydd yn y sefyllfa orau i ddiogelu eu plant.

- Mae'r bennod yn amlinellu'n glir y system sy'n bodoli er mwyn delio â phryderon ynghylch diogelu.
- Dylai'r iaith yn y canllawiau fod yn fwy cefnogol o rieni sy'n addysgu yn y cartref, a hawliau eu plant.
- Yn y bennod hon, dylid cyfeirio at Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru (NISB).
- Awgrym am ofyniad y dylai plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref gael unigolyn cyswllt allanol a fydd yn gweithredu fel eu cyswllt diogelu penodedig.

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion, sefydliadau o'r trydydd sector a sefydliadau addysg yn y cartref yn fwy tebygol na chategoriâu eraill o ymatebwyr o awgrymu bod y bennod yn gwneud awgrym anghywir bod cydberthynas rhwng addysg yn y cartref a diogelu. Roedd unigolion yn fwy tebygol o nodi hefyd bod y bennod yn awgrymu na chaiff plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref eu gweld na'u clywed, ac mae hyn yn anghywir; bod plant a addysgir yn y cartref mewn llai o berygl o ddioddef niwed neu eu bod yn dioddef llai o niwed na phlant ysgol; a chan bwysleisio bod gofyn cael gorchymyn llys er mwyn cael mynediad i blant heb ganiatâd rhieni.

Roedd awdurdodau lleol, sefydliadau o'r sector iechyd a byrddau diogelu yn fwy tebygol na chategoriâu eraill o ymatebwyr o fynegi pwysigrwydd diogelu ac o nodi defnyddioldeb y bennod. Roedd rhanddeiliaid addysg a byrddau diogelu yn fwy tebygol o gydnabod y cyfeiriad priodol at Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan a chanllaw arfer Cymru Gyfan, ac o awgrymu y dylai'r bennod gyfeirio at bolisiâu a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â diogelu a hawliau'r plentyn. Roedd awdurdodau lleol a byrddau diogelu yn fwy tebygol na chategoriâu eraill o ymatebwyr o awgrymu bod angen i'r bennod gynnwys rhagor o fanylion am ei gweithrediad ymarferol er mwyn cynnig canllaw i awdurdodau lleol.

Cwestiwn 8: llawlyfr i addysgwyr yn y cartref

Mae'r llawlyfr hwn yn darparu gwybodaeth i'r rhai sy'n addysgu eu plentyn yn y cartref neu'r rhai sy'n ystyried gwneud hynny. A oes unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys yn eich barn chi?

Oes	Nac oes	Ansicr
39% (141)	32% 116	28% (101)

n= 358

Rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli nifer yr ymatebion 'oes', 'nac oes' ac 'ansicr' gan bod rhai o'r ymatebwyr a atebodd 'nac oes' wedi darparu sylwadau wedyn, yr oeddent yn cynnwys awgrymiadau am elfennau eraill y byddai modd eu cynnwys yn y llawlyfr.

Yn ychwanegol i'r ymatebion i'r cwestiwn caeedig (oes/nac oes/ansicr), rhoddwyd 219 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Roedd chwarter yr ymatebion yn anghytuno gyda thôn y llawlyfr. Roedd yr ymatebion hyn o'r farn bod y llawlyfr yn 'nawddoglyd', yn 'sarhaus' ac yn 'fygythiol' tuag at addysgwyr yn y cartref. Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn wedi dehongli tôn y llawlyfr fel ymgais i godi ofn ar rieni a'u perswadio i beidio addysgu yn y cartref.

"Disgrifiwyd y Llawlyfr i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref cyn ei gyhoeddi, fel llyfr defnyddiol o adnoddau ac fe'i croesawyd fel hynny. Yn lle hynny, mae'n ddogfen nawddoglyd sy'n rhoi ychydig wybodaeth am rai gwasanaethau. Mae'n enghraifft bellach o niweidio perthnasoedd gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref trwy ddangos diffyg dealltwriaeth a pharch tuag at y gwaith rhyfeddol y mae'r teuluoedd hyn yn ei wneud a thrwy labelu'r rhai sy'n addysgu yn y cartref fel rhai dan amheuaeth o fod yn bobl sy'n cam-drin plant nes y profir fel arall." (Unigolyn)

"Mae'r llawlyfr yn swnio'n awdurdodus, yn fygythiol ac yn gymhellol. Nid yw'n ystyriol o addysg yn y cartref o gwbl. Byddwch yn gyrru mwy o bobl i ffwrdd o ysgolion oherwydd ei dôn." (Unigolyn)

Dywedodd ychydig dros un o bob pump ymateb bod angen i'r llawlyfr gynnwys rhagor o fanylion am hawliau cyfreithiol teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref (gan gynnwys rhieni a phlant) a chyfrifoldebau cyfreithiol awdurdodau lleol. Mae'r ymatebion hyn yn gwneud cyfeiriad at, er enghraifft, hawl cyfreithiol teuluoedd i gael preifatrwydd, CCUHP a pholisïau awdurdodau lleol. Roedd ymatebion yn awgrymu y dylai'r llawlyfr gynnwys manylion y ddeddfwriaeth gyfredol berthnasol, sut y dylid cydymffurfio â hi, a pha weithdrefnau sydd mewn grym ar gyfer adegau pan fydd awdurdodau lleol yn mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau.

Nodir hawliau'r rhieni a hawliau'r ALI mewn ffordd glir a thryloyw. Ni sonnir am Erthygl 16 neu Erthygl 14 CCUHP yn adran 'hawliau'r plentyn' nac yn

adran y comisiynydd plant (sy'n dyfynnu erthyglau eraill CCUHP) – ac mae'r rhain yn erthyglau allweddol i rieni / plant eu gwybod gan eu bod yn nodi hawliau a dyletswyddau rhieni a'r gwaharddiad ar amharu ar breifatrwydd a'r cartref. (Unigolyn)

Nododd un o bob pump ymateb bod diffyg eglurder a/neu wybodaeth ynghylch elfennau o'r llawlyfr. Roedd yr ymatebion hyn yn darparu enghreifftiau penodol o agweddau ar y llawlyfr y mae gofyn eu hegluro ymhellach a/neu ddarparu gwybodaeth bellach amdanynt. Rhestrir rhai o'r enghreifftiau hyn isod:

- Egluro'r linell amser gan gyfeirio at adran 2.14 yn y llawlyfr.
- Diffinio'r camau rhesymol y cyfeirir atynt yn adran 2.16.
- Y ffaith nad yw'n cynnwys gwefannau allweddol sy'n ddefnyddiol ynghylch addysg yn y cartref.
- Y ffaith nad yw'n cynnwys dolenni i wefannau Cymreig am wybodaeth, adnoddau a chymorth ar gyfer teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref – roedd ymatebion yn nodi bod nifer o'r dolenni yn y llawlyfr ar gyfer gwefannau yn Lloegr.
- Mae'r adnoddau y cyfeirir atynt yn y llawlyfr yn ymwneud yn fwy ag ysgolion, ac maent yn llai addas ar gyfer addysg yn y cartref.
- Egluro hawliau awdurdodau lleol a theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref.
- Canllawiau pellach am yr hyn y mae addysg 'effeithlon' ac 'amser llawn' yn ei olygu yn adran 1 y llawlyfr.
- Diffyg gwybodaeth am ddarpariaeth cymorth neu help ychwanegol os bydd yr awdurdod lleol yn barnu bod yr addysg yn anaddas
- Mwy o eglurder am yr hyn y mae'r term addysgu yn y cartref yn ei gynnwys, a'r hyn nad yw yn ei gynnwys.

Mae'n bwysig nodi bod ymatebion wedi darparu amrywiaeth eang o sylwadau a oedd yn ymwneud ag enghreifftiau penodol o'r ffordd y gwelir diffyg eglurder/gwybodaeth yn y llawlyfr. Felly, mae'r rhestr uchod yn darparu enghreifftiau yn hytrach na rhestr gyflawn o feysydd eglurder/gwybodaeth pellach a awgrymir.

“Nid yw'r ddogfen hon yn darparu digon o wybodaeth ddefnyddiol i unrhyw un sy'n ystyried addysgu yn y cartref. Mae rhannau ohoni yn hollol anghywir, rhannau sydd wedi cael eu glastwreiddio a rhannau sy'n nawddoglyd, ac nid yw'n cyflawni'r hyn yr oedd yn ceisio'i gyflawni. Ni cheir unrhyw gysylltiadau gyda chymunedau, grwpiau cymorth neu wefannau addysgu yn y cartref, na gydag unrhyw adnoddau hysbys eraill, ac ni nodwyd yr hawliau a'r cyfrifoldebau yn gywir mewn ffordd hawdd i'w deall.”
(Unigolyn)

“Byddai canllawiau pellach i rieni am sut y mae effeithlon ac amser llawn yn edrych a rhai enghreifftiau/ astudiaethau achos gyda thystiolaeth o ddefnydd gan mai hwn yn aml yw'r cwestiwn a ofynnir amlaf.” (Awdurdod lleol)

Yn ychwanegol i'r thema uchod, **nododd llai nag un o bob pump ymateb y byddent yn croesawu'r cam o gynnwys gwybodaeth yn y llawlyfr ynghylch sut i fanteisio ar adnoddau a chymorth.** Roedd yr ymatebion hyn yn darparu enghreifftiau penodol i'w cynnwys yn y llawlyfr, megis:

- Ble i gael deunyddiau addysgol
- Manylion elusennau addysg yn y cartref a sut y gellir manteisio arnynt.
- Rhestr o ganolfannau arholi a chost arholiadau
- Sut i fanteisio ar grwpiau addysg yn y cartref lleol a chenedlaethol (e.e. grwpiau Facebook)
- Sut i gael cymorth ar gyfer ADY.
- Cynnwys rhif cyswllt ar gyfer y 7 Bwrdd Iechyd er mwyn cyfeirio rhieni at y Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion ar gyfer eu hardal nhw.

“Unwaith eto, gyda chymaint o'r canllawiau, ni sonnir am elusennau addysg yn y cartref sy'n cynorthwyo addysgwyr yn y cartref. Yn y llawlyfr hwn, er eich bod wedi sôn am ddwy elusen yn Lloegr nad ydynt yn cynnig unrhyw gymorth yng Nghymru, nid ydych wedi sôn am yr elusennau yng Nghymru. Byddai hyn o gymorth i deuluoedd yng Nghymru ac i ALLau wrth iddynt nodi ble i gyfeirio teuluoedd yng Nghymru am gymorth.”
(Sefydliad addysg yn y cartref)

“Ni chaiff nifer o adnoddau a ddefnyddir gan nifer o addysgwyr yn y cartref, eu cynnwys, a dylid cynnwys y rhain i gyd. Mae Reading Eggs, Conquer Maths, Coursera, FutureLearn, The Kahn Academy i gyd ar-lein ac maent yn ddefnyddiol iawn. Mae'r Afancod a'r Sgowtiaid yn sefydliadau gwych lle y ceir cyfle ychwanegol i gymdeithasu.” (Unigolyn)

Roedd ychydig yn llai nag un o bob pump ymateb yn awgrymu y dylai'r llawlyfr gyfeirio unigolion at grwpiau cymunedol addysg yn y cartref. Roedd yr ymatebion hyn yn cydnabod cyfoeth y cyngor, y cymorth a'r wybodaeth sydd gan y gymuned addysgu yn y cartref profiadol i'w gynnig. Byddai troi at y gymuned hon yn ddefnyddiol iawn i deuluoedd y mae addysg yn y cartref yn rhywbeth newydd iddynt. Nododd ymatebion y dylai'r cyfeirio hwn yn y llawlyfr gynnwys manylion grwpiau addysg yn y cartref, sut i fanteisio arnynt, ac anogaeth i addysgwyr yn y cartref i ymuno â'u grŵp lleol. Mae rhai o'r ymatebion hyn yn esbonio ymhellach bod manteisio ar grwpiau addysg yn y cartref lawer yn fwy defnyddiol na'r wybodaeth a ddarperir yn y llawlyfr.

“Ceir rhwydwaith eang o deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ar draws y DU, sy'n gallu cynnig cyfoeth o gyngor, cymorth a gwybodaeth. Pam na chyfeirir at y rhain?” (Unigolyn)

Nododd dros un o bob deg ymateb bod gwallau yn y llawlyfr, gan gyfeirio'n arbennig at anghysondebau rhwng y llawlyfr a'r ddogfen ganllawiau i awdurdodau lleol. Yn debyg i sylwadau a wnaethpwyd wrth ateb cwestiynau blaenorol yn yr ymgynghoriad, sy'n ymwneud â'r canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol, roedd ymatebion yn barnu bod y gwallau hyn yn deillio o gamddehongli deddfwriaeth yn bennaf:

“Fel y canllawiau drafft, maent yn camfynegi'r gyfraith, er enghraifft trwy nodi “nid yw'n afresymol i'r awdurdod lleol weld a siarad gyda'r plentyn” er mwyn helpu iddo deimlo'n fodlon am addasrwydd yr addysg a ddarperir, ac nid yw'n nodi'n glir na chaiff hyn ei orchymyn mewn gwirionedd.” (Unigolyn)

“Ceir anghysondebau rhwng y llawlyfr/canllawiau i'r ALL ac i'r rhai sy'n addysgu yn y cartref. Mae hyn yn golygu yn syth y byddent yn gweithio o wahanol set o ganllawiau, gan arwain at gamddealltwriaeth ddianghenraid.”
(Unigolyn)

Dywedodd ychydig yn llai nag un o bob deg ymateb y dylai'r llawlyfr fod wedi cael ei ysgrifennu gan neu fod wedi cael mewnbwn sylweddol gan addysgwyr yn y cartref neu gan gorff sy'n cynrychioli addysgwyr yn y cartref. Roedd yr ymatebion hyn yn esbonio ei bod yn ymddangos bod y llawlyfr wedi cael ei ysgrifennu gan unigolyn/unigolion heb ddealltwriaeth a phrofiad o addysgu yn y cartref. O'r herwydd, mae'r llawlyfr yn darparu camddarlun o'r gymuned addysgu yn y cartref ac nid yw'n ddefnyddiol wrth gynnig canllawiau i addysgwyr yn y cartref. Felly, mae ymatebion yn awgrymu y byddai modd creu llawlyfr mwy defnyddiol a chywir gan neu ar ôl cael mewnbwn sylweddol gan y gymuned addysgu yn y cartref, y mae ganddynt brofiad uniongyrchol o'r mater.

“Mae tŷ y llawlyfr yn peri problemau. Mae llawer o'r cyngor yn farn yn unig. Mae'r hawliau y cyfeirir atynt yn rhai dethol ac nid ydynt yn cyfeirio at hawliau i fywyd teuluol, rhyddid cysylltiad a phreifatrwydd, y maent oll dan fygythiad dan y canllawiau hyn. Dylai rhieni wybod nad oes rheidrwydd cyfreithiol arnynt i dderbyn cyfarfodydd ac y gall plant wrthod a bod eu llais yn cael ei glywed trwy eu rhieni neu eu gwarcheidwaid. Dylai llawlyfr o'r fath gael ei ysgrifennu gan addysgwyr yn y cartref, nid gan gyflogeion y llywodraeth.” (Unigolyn)

Roedd llai nag un o bob deg ymateb yn awgrymu cyngor a gwybodaeth ymarferol y dylid ei chynnwys yn y llawlyfr, ond nad yw'n ymddangos ynddo ar hyn o bryd. Mae enghreifftiau o'r wybodaeth/cyngor ymarferol hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth am sut i apelio.
- Gwybodaeth am ddatganiadau ar gyfer ADY a chyfrifoldebau'r awdurdodau lleol mewn perthynas â hyn.
- Gwybodaeth am sefydliadau sy'n cynnig gostyngiadau i addysgwyr yn y cartref (e.e. Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sŵau ac amgueddfeydd).
- Cyngor sy'n ymwneud â phwysigrwydd chwarae ar gyfer datblygiad plant.

“Fel y soniwyd yn flaenorol, mae gan nifer o blant a addysgir yn y cartref ADY. Credaf y dylid cynnwys gwybodaeth am ddatganiadau a chyfrifoldebau'r awdurdodau lleol ar gyfer y rhai sy'n ystyried addysg yn y cartref oherwydd anabledd eu plentyn.” (Unigolyn)

“Er y gwneir cyfeiriad yn 4.32/4.33 at wasanaethau chwarae yr awdurdod lleol, nid yw hyn yn cynnwys hawl plant i chwarae neu bwysigrwydd chwarae trwy gydol diwrnod plant fel cyfle pwysig i ddysgu, cymdeithasu a gwneud gweithgarwch corfforol. Mae angen annog a chynnig tawelwch meddwl i rieni bod cynnig amser i blant chwarae yn rhan bwysig o fywydau plant ac y dylai hyn ddigwydd mewn ffordd ddigymell trwy gydol y dydd – yn enwedig i blant iau.” (Sefydliad o'r trydydd sector)

Roedd lleiafrif bach (llai nag un o bob deg) o ymatebion wedi mynegi themâu ychwanegol hefyd, gan gynnwys:

- Nid yw'r llawlyfr yn ddefnyddiol i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref
- Mae angen i gyrff cyhoeddus wella eu cyfathrebu gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref
- Mae'r llawlyfr yn ddefnyddiol ac yn gynhwysfawr
- Nid oes angen y llawlyfr gan bod y gymuned addysgu yn y cartref yn cynorthwyo addysgwyr yn y cartref yn well
- Mae angen i'r llawlyfr gynnwys mwy o wybodaeth am y mathau o addysgu yn y cartref
- Dylai'r llawlyfr gynnwys rhagor o fanylion am rôl rhieni sy'n addysgu yn y cartref
- Mae'r llawlyfr yn tueddu o blaid addysg o fath a geir mewn ysgol.

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion, sefydliadau o'r trydydd sector a sefydliadau addysg yn y cartref yn fwy tebygol na chategoriâu eraill o ymatebwyr o fynegi anghytundeb gyda thôn y llawlyfr. Roedd unigolion yn fwy tebygol o awgrymu hefyd y dylai'r llawlyfr gyfeirio at grwpiau cymunedol addysg yn y cartref ac y dylid ei ysgrifennu ar ôl cael mewnbwn sylweddol gan addysgwyr yn y cartref.

Cwestiwn 9: llawlyfr i addysgwyr yn y cartref

Er ein bod yn cydnabod nad addysg yn y cartref yw addysgu hyblyg, rydym yn ymwybodol o'r ffaith y byddai rhai addysgwyr yn y cartref yn croesawu gwybodaeth am yr hyn y mae'n ei olygu. Yn eich barn chi, a yw'r wybodaeth hon (gweler adrannau 6.15–6.19 yn y canllawiau statudol ac 1.20–1.21 yn y llawlyfr) o ddefnydd?

Ydy	Nac ydy	Ansicr
36% (130)	38% (135)	26% (95)

n= 360

Yn ychwanegol i'r ymatebion i'r cwestiwn caeedig (ydy/nac ydy/ansicr), rhoddwyd 177 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Roedd ychydig yn llai na hanner yr ymatebion o'r farn bod addysgu hyblyg ac addysgu yn y cartref yn ddau fater ar wahân ac felly, na ddylid cynnwys yr adran am addysgu hyblyg yn y llawlyfr hwn i addysgwyr yn y cartref. Er bod yr ymatebion hyn yn awgrymu na ddylid cynnwys yr adran hon ynghylch addysgu hyblyg, nododd rhai hefyd bod cael gwybodaeth am addysgu hyblyg yn ddefnyddiol, felly dylai'r llawlyfr hwn gyfeirio at ddogfen ganllawiau ar wahân ynghylch addysgu hyblyg yn benodol.

Roedd ychydig yn llai na chwarter yr ymatebion naill ai'n cwestiynu a fyddai ysgolion yn croesawu addysgu hyblyg, neu roeddent yn nodi nad oes nifer o ysgolion yn cynnig trefniadau addysgu hyblyg. Roedd yr ymatebion hyn yn awgrymu y dylai addysgu hyblyg fod yn fwy hygyrch. Byddai modd gwneud hyn trwy sicrhau bod pob ysgol yn trefnu bod dewis addysgu hyblyg ar gael, yn hytrach na gadael hyn i ddisgresiwn y pennaeth. Nes rhoddir sylw i'r mater hwn, nododd rhai o'r ymatebion hyn nad yw cynnwys gwybodaeth am addysgu hyblyg yn y llawlyfr yn ddefnyddiol, gan ei fod yn awgrymu bod y dewis hwn ar gael i deuluoedd, pan nad yw ar gael iddynt.

"Mae o gymorth cael gwybodaeth am addysgu hyblyg, ond nid oes fawr iawn o bennaethiaid yng Nghymru yn fodlon ei ganiatáu, felly gall fod yn deimlad ychydig yn rhwystredig gwybod y manylion ond cael eich atal rhag ei wneud." (Unigolyn)

Nododd ychydig yn llai nag un o bob deg ymateb bod gofyn cael mwy o eglurder / gwybodaeth yn yr adran hon ynghylch addysgu hyblyg. Mae enghreifftiau o feysydd lle byddai modd darparu mwy o eglurder/gwybodaeth, fel yr awgrymwyd gan ymatebion, yn cynnwys:

- Gwybodaeth am fanteision addysgu hyblyg.
- A fyddai swyddogion addysg ddewisol yn y cartref yn ymwneud ag achosion addysgu hyblyg.
- Amlinelliad o'r sialensiau sy'n gysylltiedig gyda threfnu addysgu hyblyg.
- Egluro bod addysgu hyblyg yn wahanol i addysg yn y cartref a phwysigrwydd cynnal cytundeb a phartneriaeth barhaus gyda'r ysgol.
- Dylai'r adran gynnwys dolen i wybodaeth fanylach.
- Rhagor o wybodaeth sy'n ymwneud â'r prosesau sydd ynghlwm â threfnu a chynnal trefniant addysgu hyblyg.

“6.15 - 6.19 – mae hyn yn gadarnhaol iawn. Ai penderfyniad y pennaeth/llywodraethwyr fydd hyn o hyd? A fydd y swyddog EHE yn cymryd rhan mewn achosion addysgu hyblyg?” (Unigolyn)

*“Nid yw'n rhoi digon o wybodaeth am y broses o wneud penderfyniadau, yr hyn y dylid ei ystyried / amserlenni ac ati. Yn ogystal, a yw ysgolion / ALLau yn gallu gwrthod ceisiadau ac a yw rhieni yn gallu apelio neu beidio.”
(Awdurdod Lleol)*

Awgrymodd ychydig yn llai nag un o bob deg ymateb bod gofyn cael mwy o gymorth ynghylch addysgu hyblyg i rieni a phenaethiaid/ysgolion. Er enghraifft, awgrymodd rhai ymatebion y dylid cael fframwaith i'r pennaeth ei ddefnyddio wrth benderfynu a ddylid cynnig trefniant addysgu hyblyg neu beidio. Awgrymodd ymatebion eraill y byddai'n ddefnyddiol cynnig eglurder am y ffordd y byddai presenoldeb a pherfformiad yn effeithio ar werthusiadau ffurfiol i ysgolion.

“Efallai y byddai buddsoddi mwy o egni mewn cynorthwyo ysgolion i gynnig addysgu hyblyg yn ffordd fwy adeiladol o sicrhau bod y dewis hwn ar gael i deuluoedd. Nid addysgwyr yn y cartref yw'r unig rai a fyddai'n croesawu gwybodaeth am addysgu hyblyg efallai” (Unigolyn)

Nododd llai nag un o bob deg ymateb bod addysgu hyblyg yn gallu peri problemau i gofnodion presenoldeb ysgolion. Roedd ymatebion yn awgrymu mai pryderon ynghylch sut y gallai addysgu hyblyg effeithio ar gofnodion presenoldeb ysgolion yw'r prif rwystr er mwyn i benaethiaid/ysgolion gytuno ar drefniadau addysgu hyblyg.

Ymhellach i'r thema uchod, **awgrymodd llai nag un o bob deg ymateb ddatrysiadau i bryderon penaethiaid.** Roedd yr ymatebion hyn yn awgrymu y dylid diweddarau'r codau presenoldeb er mwyn cynnwys cod addysgu hyblyg. Awgrymwyd y gallai hyn annog ysgolion i gynnig trefniadau addysgu hyblyg heb i hyn gael effaith niweidiol ar eu data presenoldeb.

“Er mwyn i ysgolion fod yn fwy croesawgar tuag at addysgu hyblyg, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gweithredu cod presenoldeb addysgu hyblyg fel nad yw diffyg presenoldeb yn effeithio ar y presenoldeb ar draws yr ysgol.” (Awdurdod Lleol)

Roedd lleiafrif bach (llai nag un o bob deg) o ymatebion wedi mynegi themâu ychwanegol hefyd, gan gynnwys:

- Amlinellu manteision addysgu hyblyg
- Mae'r adran yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol
- Nid yw rhai awdurdodau lleol yn caniatáu i ysgolion gynnig trefniadau addysgu hyblyg, hyd yn oed pan fyddai ysgolion/penaethiaid yn ei groesawu
- Dylid ystyried budd pennaf y plentyn yn yr adran hon
- Mae angen cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o addysgu hyblyg ymhlith ysgolion/penaethiaid

- Nid yw'r system addysg yn caniatáu fawr ddim o hyblygrwydd i ysgolion/penaethiaid gynnig addysgu hyblyg

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion a sefydliadau addysgu yn y cartref yn fwy tebygol na chategorïau eraill o ymatebwyr o fynegi'r farn bod addysgu hyblyg ac addysg yn y cartref yn ddau fater ar wahân, ac felly, na ddylid eu cynnwys yn y llawlyfr i addysgwyr yn y cartref. Fel arall, ni nodwyd unrhyw batrwm amlwg ymhlith grwpiau ymatebwyr a'r themâu a godwyd.

Cwestiwn 10: Yr iaith Gymraeg

Hoffem glywed eich safbwyntiau am yr effeithiau y byddai'r canllawiau statudol i awdurdodau lleol ynghylch addysg yn y cartref yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, ac ar y canlynol yn benodol:

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) trin y Gymraeg mewn ffordd nad yw'n llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau fyddai yn eich barn chi? Sut fyddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol gymaint ag y bo modd?

At ei gilydd, rhoddwyd 214 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Soniodd ychydig dros chwarter yr ymatebion am bwysigrwydd y ffaith bod teuluoedd yn gallu penderfynu ar yr ieithoedd a addysgir fel rhan o addysg eu plentyn yn y cartref. Nododd rhai o'r rhain na ddylid gorchymyn bod yr iaith Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn addysg yn y cartref, ac roedd eraill yn teimlo na ddylai'r canllawiau gyfeirio at gyfrwng yr addysg o gwbl.

“Er fy mod o blaid y syniad o addysgu iaith arall i blentyn, credaf mai'r unigolyn ddylai fod yn gyfrifol am wneud y penderfyniad hwn.” (Unigolyn)

“Yn fy marn i, ni ddylai'r iaith Gymraeg fod yn elfen orfodol i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, a dylai fod yn ddewis.” (Addysgwr yn y cartref)

Cyfeiriwyd at yr angen i **wella argaeledd cymorth a darpariaeth yn y Gymraeg** i'r rhai sy'n addysgu yn y cartref mewn ychydig dan chwarter yr ymatebion. Mynegwyd dymuniad am wersi Cymraeg am ddim, neu gyda chymhorthdal, i addysgwyr yn y cartref a/neu blant mewn nifer o'r ymatebion hyn, ac roedd rhai yn awgrymu dulliau gweithredu posibl ar gyfer hyn (e.e. dysgu i'r teulu, hyfforddiant ar-lein). Roedd awgrymiadau yn cynnwys:

- hyfforddiant Cymraeg yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol, neu eraill, i addysgwyr yn y cartref a'u plant;
- rhoi cymhorthdal ar gyfer cyfleoedd i fanteisio ar weithgarwch arall er mwyn dysgu Cymraeg (e.e. Say Something in Welsh);
- sefydlu rhwydweithiau neu gynlluniau mentora er mwyn creu cysylltiadau rhwng addysgwyr yn y cartref sy'n siarad Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.

“Gwersi posibl gyda chymhorthdal ar gyfer unigolion o bob oed yn y Gymraeg a/neu efallai gynllun mentora er mwyn paru pobl sy'n addysgu yn y cartref ac sy'n siarad Cymraeg, gyda'r rhai sy'n dymuno dysgu. Byddai hyn yn golygu annog nifer o sgiliau ar yr un pryd i'r mentor a'r sawl sy'n cael eu mentora, yn ogystal â meithrin y syniad o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg.” (Unigolyn)

Yn gysylltiedig â'r uchod, **cyfeiriodd lleiafrif bach (llai nag un o bob deg) o'r ymatebion at yr angen am gyngor, cymorth neu adnoddau dysgu Cymraeg gwell** neu

ddeunyddiau y byddai modd i addysgwyr yn y cartref eu defnyddio. Cyfeiriodd lleiafrif bach o ymatebion at yr angen am fwy o ymgynghori rhwng awdurdodau lleol ac addysgwyr yn y cartref mewn perthynas â darpariaeth yn y Gymraeg, a nododd rhai y byddai nifer o addysgwyr yn y cartref yn croesawu darpariaeth, cyngor a chymorth ychwanegol.

Nododd ychydig yn fwy nag un o bob deg ymateb na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith, ac roedd lleiafrif bach (llai nag un o bob deg) o'r ymatebion yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.

Roedd lleiafrif bach (llai nag un o bob deg) o ymatebion yn cynnwys sylwadau am gynnwys y canllawiau drafft a'r llawlyfr mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. O blith y lleiafrif bach hwn, roedd y rhan fwyaf wedi mynegi safbwyntiau cadarnhaol am gynnwys y llawlyfr, ac roedd rhai wedi awgrymu diwygiadau penodol iddo, ac roedd lleiafrif wedi mynegi sylwadau negyddol.

Roedd lleiafrif bach (llai nag un o bob deg) o'r ymatebion wedi codi themâu ychwanegol hefyd, gan gynnwys:

- Nodi'n amlwg nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau i'w gwneud neu nad oeddent yn siŵr o'u safbwynt;
- Nad oedd y cwestiwn hwn yn berthnasol i addysg yn y cartref;
- Y dylai'r iaith Gymraeg fod yn rhan orfodol o addysg yn y cartref;
- Bod addysg yn y cartref o fudd i'r iaith Gymraeg;
- Pwysigrwydd y diwylliant Cymreig yn ogystal â'r iaith, mewn addysg;
- Safbwyntiau negyddol am eu profiadau nhw o addysg cyfrwng Cymraeg neu'r iaith Gymraeg yn gyffredinol.
- Argaeledd (neu ddiffyg argaeledd) cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion yn fwy tebygol na chategoriâu eraill o ymatebwyr o fynegi'r farn y dylai rhieni a phlant benderfynu ar yr ieithoedd a addysgir fel rhan o addysg yn y cartref. Fel arall, ni nodwyd unrhyw batrwm amlwg ymhlith grwpiau o ymatebwyr a'r themâu a godwyd.

Cwestiwn 11: Yr iaith Gymraeg

A fydddech gystal ag esbonio hefyd sut yr ydych yn credu y byddai modd gosod neu newid y polisi arfaethedig:

- iii) er mwyn iddo gael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg mewn ffordd nad yw'n llai ffafriol na'r ffordd y caiff Saesneg ei thrin.
- iv) er mwyn iddo beidio cael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg mewn ffordd nad yw'n llai ffafriol na'r ffordd y caiff Saesneg ei thrin.

At ei gilydd, rhoddwyd 152 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Y thema fwyaf gyffredin a godwyd ymhlith yr ymatebion hyn oedd yr angen am **fynediad gwell i ddarpariaeth addysgol yn yr iaith Gymraeg i addysgwyr yn y cartref a'u plant**. Cyfeiriwyd at hyn mewn ychydig dan chwarter yr ymatebion. Cyfeiriodd lleiafrif bach o'r ymatebwyr hyn at y posibilrwydd o ganiatáu i blant a addysgir yn y cartref i fynychu darpariaeth drochi o ran yr iaith Gymraeg.

“Darparu cyfleoedd i blant ddysgu Cymraeg. Agor y cwrs cyn ysgol 6 wythnos yr ydych yn ei gynnig i blant sy'n symud i'r ardal cyn iddynt ddechrau mynychu'r ysgol, i blant a addysgir yn y cartref!!” (Unigolyn)

Cyfeiriodd llai nag un o bob pum ymateb at **bwysigrwydd dewis rhieni mewn perthynas â'r ieithoedd a addysgir mewn addysg yn y cartref**. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion a oedd yn mynegi'r farn na ddylai'r iaith Gymraeg fod yn rhan orfodol o addysg yn y cartref.

“Yn bersonol, rydw i wedi ei chael hi'n anodd iawn dod o hyd i adnoddau da, hwyliog a diddorol i'm plant er mwyn iddynt ddatblygu'r Gymraeg fel ail iaith, o'u cymharu â'r adnoddau gwych sydd ar gael ar gyfer ail ieithoedd eraill. Croesawir mynediad i adnoddau dysgu gwych bob amser, gan gynnwys dysgu Cymraeg... ...Fodd bynnag, rhieni ddylai fod yn gallu dewis pa ieithoedd ychwanegol y bydd plentyn yn eu dysgu (neu ddim yn eu dysgu), nid y wladwriaeth.” (Unigolyn)

Nododd mwy nag un o bob deg o ymatebion yn bendant nad oedd ganddynt **unrhyw sylwadau i'w gwneud neu nad oeddent yn siŵr** am eu barn ynghylch y cwestiwn hwn. Nododd un o bob deg ymateb **nad oedd y cwestiwn yn berthnasol** i addysg yn y cartref.

Roedd lleiafrif bach (llai nag un o bob deg) o ymatebion wedi cynnwys sylwadau am gynnwys y canllawiau neu'r llawlyfr. Roedd rhai o'r rhain wedi cynnig diwygiadau penodol yr oedd ymatebwyr yn teimlo y dylid eu gwneud i'r canllawiau neu'r llawlyfr.

“Dylid cynnwys datblygu sgiliau Cymraeg yn nodweddion addysg addas ac effeithiol yng Nghymru.” (Awdurdod Lleol)

Roedd lleiafrif bach (llai nag un o bob deg) o ymatebion wedi mynegi themâu ychwanegol, gan gynnwys:

- Y dylai'r llawlyfr a'r canllawiau fod ar gael yn ddwyieithog ac mewn ffurfiau hygyrch;
- Yr angen i wella argaeledd y cyngor, y cymorth a'r adnoddau i addysgwyr yn y cartref mewn perthynas â'r iaith Gymraeg;
- Yr angen am weithgarwch rhyngweithio ac ymgynghori gwell rhwng addysgwyr yn y cartref ac awdurdodau lleol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg;
- Argaeledd (neu ddiffyg argaeledd) cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion yn fwy tebygol na chategoriâu eraill o ymatebydd o fynegi'r farn y dylai rhieni a phlant benderfynu ar yr ieithoedd a addysgir fel rhan o addysg yn y cartref. Fel arall, ni nodwyd patrwm amlwg ymhlith grwpiau o ymatebwyr a'r themâu a godwyd.

Cwestiwn 12: materion cysylltiedig

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw iddynt yn benodol, a fydddech gystal â defnyddio'r lle hwn i adrodd amdanynt.

At ei gilydd, rhoddwyd 211 o ymatebion ysgrifenedig wrth ymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar yr ymatebion hyn. Roedd bron pawb a oedd wedi darparu sylwadau ychwanegol wedi manteisio ar y cyfle i fynegi beirniadaeth o'r broses ymgynghori yn gyffredinol, neu'r ffaith eu bod yn anghytuno gyda chynigion penodol y mae'r Canllawiau Statudol arfaethedig i Awdurdodau Lleol a'r Llawlyfr i Addysgwyr yn y Cartref yn eu cynnwys.

Roedd tua un o bob tri ymateb wedi mynegi beirniadaeth gyffredinol am yr ymgynghoriad. Roedd ymatebwyr yn teimlo bod natur 'lem' y cynigion yn arwain at weithgarwch dianghenraid i graffu addysgwyr yn y cartref a phlant. Roedd ymatebion yn teimlo bod yr ymgynghoriad wedi colli cyfle i feithrin perthynas gadarnhaol a llawn parch gyda'r gymuned addysgu yn y cartref.

“Mae'n drist nodi bod geiriad rhai o'r cwestiynau yn yr arolwg hwn yn wael. Pam oeddech yn gofyn weithiau a oedd y canllawiau yn 'glir', yn hytrach nag a oeddem yn teimlo eu bod yn briodol?” (Unigolyn)

Nododd ymatebion hefyd bod y wybodaeth yn yr ymgynghoriad yn datgelu diffyg dealltwriaeth o'r ffordd y cyflwynir addysg yn y cartref. Yn arbennig, cyfeiriodd sawl ymateb at anghywirdeb yn y siartiau llif sy'n cyd-fynd â'r arweiniad.

Ar yr un trywydd, roedd chwarter yr ymatebion wedi mynegi'r farn bod dogfennaeth yr ymgynghoriad yn rhoi stigma ar deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref a'u plant. Roedd ymatebion yn teimlo bod tŷn y ddogfennaeth yn creu agwedd wrthwynebol rhwng awdurdodau lleol ac addysgwyr yn y cartref.

“Dim ond os ceir amgylchedd o ymddiriedaeth a pharch rhwng y ddwy ochr y gellir ymgysylltu gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref mewn ffordd ystyrlon. Mae'r dogfennau hyn yn awgrymu o hyd bod swyddogion rhyw ffordd yn gwybod yr hyn sydd orau i'r plentyn, yn hytrach na'r rhieni. Mae'n nawddoglyd, yn gwahaniaethu ac nid oes gan nifer o'r gofynion unrhyw sail gyfreithiol.” (Sefydliad addysg yn y cartref)

Roedd un o bob pump ymateb yn dadlau bod y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad yn cynrychioli ymyrraeth ormodol gan Lywodraeth Cymru, a'i bod yn mynd yn rhy bell. Roedd nifer o unigolion yn barnu bod y cynigion yn ymyrraeth ddianghenraid, ac nid oeddent yn teimlo bod cyfiawnhad wedi cael ei roi dros y “lefelau ymyrraeth ac ymyrryd â hawliau gan y llywodraeth”. Dadleuwyd na fyddai modd gorfodi plant i gael eu cyfweld gan swyddogion o'r awdurdod lleol ac “na ddylid gorfodi rhiant i fynnu bod hynny yn digwydd oni bai ei fod dan awdurdod y llys”.

Roedd un o bob pump ymateb wedi lleisio beirniadaeth am elfennau penodol o'r cynigion hefyd, yn arbennig:

- Teimlwyd bod y templed cyn ymweld i blant yn amhriodol: nododd ymatebion bod holi plant ifanc am eu haddysg a'u cynlluniau ar gyfer addysg yn y dyfodol yn "annerbyniol" i blant 5 oed ac yn "peri cryn straen".
- Roedd ymatebion yn gwrthwynebu cael cofrestr orfodol a fyddai'n cael ei chynnal gan awdurdodau lleol.

Cyfeiriodd un o bob deg ymateb at broblemau a diffygion tybiedig yn y system ysgolion. Roedd yr ymatebwyr hyn yn awgrymu bod amrediad o broblemau – gan gynnwys ansawdd addysg, ymddygiad a diogelu – yn gyrru rhieni i ffwrdd o addysg prif ffrwd.

"Dylai Llywodraeth Cymru fod yn canolbwyntio ar eu system addysg, ar sicrhau bod pob ysgol yn rhagorol, bod plant yn ddiogel yn yr ysgol ac y rhoddir y pwys mwyaf ar eu lles. Y rhain yw'r prif resymau pam bod addysgwyr yn y cartref yn dewis addysgu eu plant. Nid ydynt yn credu y gellir gwarantu diogelwch eu plentyn yn yr ysgol." (Unigolyn)

Roedd un o bob deg ymateb wedi lleisio pryderon hefyd ynghylch adnoddau, capasiti ac arbenigedd awdurdodau lleol er mwyn gallu cyflawni'r cynigion a nodir yn nogfennau'r ymgynghoriad. Roedd yr ymatebion hyn yn cwestiynu a fyddai gan swyddogion awdurdodau lleol brofiad o addysg yn y cartref neu a fyddent yn gallu manteisio ar hyfforddiant er mwyn eu galluogi i werthuso addasrwydd addysg yn y cartref.

Cyfeiriodd ymatebion hefyd at y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig gyda'r cyfrifoldebau statudol a roddir ar awdurdodau lleol dan y cynigion, yn enwedig ar adeg pan fo mwy o bwysau ar adnoddau a chapasiti.

Cododd ychydig yn llai nag un o bob deg o ymatebion faterion yn ymwneud ag addysg yn y cartref i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd rhai yn teimlo nad yw'r ymgynghoriad yn rhoi sylw digonol i'r materion sy'n deillio o newidiadau trwy gyfrwng Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru).

Roedd ymatebion yn cwestiynu hefyd a fyddai Llywodraeth Cymru yn darparu adnoddau ariannol ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn cynorthwyo'r gofyniad i ymgysylltu yn fwy gyda dysgwyr EHE sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd cynigion ynghylch cynnal cyfweliadau gyda phlant yn destun pryder ymhlith ymatebwyr hefyd, a oedd yn cwestiynu a oedd hyn yn briodol i ddysgwyr a addysgir yn y cartref ac y mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

"Maes allweddol sy'n peri pryder yw nad yw'r ddogfen yn rhoi pwys digonol ar y Cod ADY a'r newidiadau y bydd hwn yn eu dwyn i'r ALI mewn perthynas â dysgwyr EHE. Bydd angen rhoi sylw i hyn yn y Canllawiau er mwyn iddynt fod yn ddogfen waith ddefnyddiol i'r ALI ac i rieni." (Awdurdod lleol)

"Ni ystyrir AAA yn gywir, yn enwedig wrth gyfeirio at gyfweliadau gorfodol gyda phlant. Ni all rhai plant fynegi eu safbwyntiau mewn ffordd briodol (E.e. plentyn 5 oed), bydd eraill yn teimlo'n ofidus ac yn gwrthod siarad."

Efallai y bydd rhai yn cytuno gyda datganiad a wneir gan y swyddog, ond ni fyddant yn deall, neu efallai y byddant yn cytuno oherwydd eu bod yn dymuno i'r unigolyn fynd i ffwrdd yn gyflym (bydd plant sydd ASD yn aml yn hoffi plesio pobl arall neu eu dilyn er mwyn cael llonydd yn gyflym).”
(Unigolyn)

Roedd tua un o bob deg ymateb yn teimlo y dylai'r cynigion yn yr ymgynghoriad fod wedi cynnwys gwybodaeth ynghylch sut y byddai cwynion yn cael eu trin. Nododd ymatebion y dylai rhieni fod yn gallu troi at gorff apêl neu gymodreddu annibynnol os ydynt yn dymuno cwyno am benderfyniadau neu weithredoedd awdurdodau lleol.

“...mae angen bod rhyw ffordd ar gael o apelio yn erbyn penderfyniad os bydd teulu o'r farn ei fod yn annheg, yn anghyfreithlon neu wedi cael ei wneud gan rywun nad yw'n ymddangos eu bod wedi cael yr hyfforddiant cywir. Mae angen cael unigolyn neu gorff annibynnol sy'n gallu dod i'r bwlch pan geir anghytundeb.” (Unigolyn)

Gwahaniaethau rhwng safbwyntiau gwahanol grwpiau o ymatebwyr

Roedd unigolion yn fwy tebygol na chategoriâu eraill o ymatebwyr o leisio beirniadaeth am yr ymgynghoriad. Nododd cyfran uwch o ymatebwyr unigol a sefydliadau addysg yn y cartref hefyd bod y cynigion yn cynrychioli gormod o ymyrraeth a'u bod yn rhoi stigma ar addysg yn y cartref.

Sylwadau ychwanegol a wnaethpwyd gan ymatebwyr

Fel y nodwyd yn adran 1.2 yr adroddiad hwn, cyflwynwyd 52 o ymatebion i'r ymgynghoriad mewn neges e-bost, ar ffurf Word neu PDF, a chafwyd un ar bapur (yn hytrach nag ar-lein, gan ddilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad yn uniongyrchol). O blith y rhain, roedd wyth ymateb wedi darparu naratif ehangach ynghylch yr ymgynghoriad a/neu addysg a hawliau plant i gael addysg (yn ychwanegol i unrhyw sylwebaeth a oedd yn ymwneud â chwestiynau'r ymgynghoriad yn uniongyrchol). Mae'r adran hon yn cynnig crynodeb o'r prif themâu a godwyd o fewn y naratif ehangach hwn.

Roedd cyfanswm o bum ymateb wedi darparu manylion am amcanion eu sefydliad a/neu natur y gwaith y maent yn ei wneud. Mae'r sylwebaethau hyn yn fframio gweddill eu hymateb, gan egluro sut y mae eu gwaith nhw yn ymwneud ag addysg a hawliau plant i gael addysg, a chan nodi, pan fo hynny'n berthnasol, unrhyw grwpiau penodol o bobl y maent yn eu cynorthwyo neu'n ymgyrchu ar eu rhan. Mae'r manylder hwn, felly, yn rhoi syniad o unrhyw arbenigedd penodol sydd gael y sefydliad mewn perthynas ag addysg a hawliau plant i gael addysg.

Amlinellwyd nifer o'r themâu a nodwyd yn yr ymatebion hyn mewn adrannau blaenorol o'r adroddiad hwn. Mae'r dadansoddiad isod yn cynnwys themâu ychwanegol a nodwyd yn yr ymatebion hyn.

Esboniodd pedwar ymateb bwysigrwydd hawliau plant i gael addysg briodol. Roedd yr ymatebion hyn yn nodi bod y canllawiau yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar blant yn gyffredinol. Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai'r canllawiau wthio'r safiad hwn ymhellach trwy ystyried perthnasedd Erthygl 29 CCUHP yn well, sy'n nodi nodau addysg, yn ogystal ag Erthygl 14 (hawliau a dyletswyddau rhieni) ac Erthygl 16 (gwaharddiad ar amharu ar breifatrwydd a'r cartref).

“Yn gyffredinol, teimlwn bod y canllawiau statudol drafft i awdurdodau lleol am addysg yn y cartref yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac mae'n sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cymryd camau priodol i nodi plant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol ac nad ydynt yn cael addysg addas.” (Rhanddeiliad Addysg)

Mynegodd un ymateb bryderon y byddai goblygiadau o ran adnoddau oherwydd dyletswydd awdurdodau lleol, fel yr amlinellwyd yn y ddogfen ganllawiau, i asesu effeithlonrwydd ac addasrwydd addysg, ac nad yw'r disgwyliad hwn wedi cael ei asesu'n llawn yn unol â'r adnoddau sydd ar gael.

Cyfeiriodd dau ymateb at dri phrawf y Comisiynydd Plant:

- Yn gyntaf, bod hanes pob plentyn yng Nghymru yn hysbys, ac na fydd unrhyw un ohonynt yn llithro o olwg gwasanaethau cyffredinol, ac o olwg cymdeithas yn gyffredinol;
- Yn ail, bod pob plentyn yn cael addysg addas a'u hawliau dynol eraill, gan gynnwys iechyd, gofal a diogelwch; ac
- Na ellir cyflawni hyn heb y drydedd nod, y dylai pob plentyn gael y cyfle i gael eu gweld ac y gwrandawir ar eu safbwyntiau, gan gynnwys eu safbwyntiau am eu haddysg, a'u profiadau.

Nododd yr ymatebion hyn bod y canllawiau yn dechrau rhoi sylw i'r profion hyn, ond y byddai angen iddynt fynd ymhellach er mwyn sicrhau y cyflawnir y nodau hyn. Er enghraifft, amlygwyd y bydd y canllawiau yn golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd awdurdodau lleol yn nodi plant nad ydynt yn cael addysg. Fodd bynnag, oherwydd y ffaith nad yw'r offerynnau statudol cyfredol a'r nod polisi cyfredol o weld plant yn cyd-fynd, barnwyd nad oes gan awdurdodau lleol ffordd o sicrhau y bydd teulu yn cydymffurfio gyda chais i gyfarfod â phlentyn. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried ymateb graddedig i'r cam o gyhoeddi SAOs er mwyn galluogi i berthnasoedd cefnogol ddatblygu rhwng awdurdodau lleol a theuluoedd.

Roedd un ymateb wedi rhoi naratif ynghylch sut y mae trosglwyddo gwarchodaeth a chyfrifoldeb addysgol dros bob plentyn o'r rhieni i'r wladwriaeth yn torri'r '*contract cymdeithasol anysrifenedig y mae llywodraethau yn llywodraethu yn unol ag ef*'.

Ymhlith yr wyth ymateb a oedd wedi cynnig naratif ehangach ynghylch yr ymgynghoriad a/neu addysg a hawliau plant i gael addysg, amlinellwyd awgrymiadau am feysydd lle y byddai modd cryfhau'r canllawiau, gan gynnwys, er enghraifft:

- Rhoi arweiniad mwy amlwg am y ffordd y dylai awdurdodau lleol hyrwyddo mynediad i wasanaethau cymorth ehangach i blant a phobl ifanc;
- Mwy o eglurder ynghylch cyfrifoldebau ysgolion ac awdurdodau lleol mewn perthynas ag addysg hyblyg.